Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru 2026

Tachwedd 2026

OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG55576, ISBN digidol 978-1-80853-754-7
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

Rhagair

Dyma'r trydydd tro i Lywodraeth Cymru lunio Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru, ac mae'n cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru. Mae'n dilyn yr argraffiad cyntaf a'r ail argraffiad a gyhoeddwyd yn 2024 ac yn 2025. Mae Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru yn disodli Adroddiadau blaenorol y Prif Economegydd.

Nod Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru yw cynnig cipolwg ar y ffactorau sy'n dylanwadu ar dirwedd economaidd Cymru ac yn ei siapio. Mae hyn yn cynnwys edrych ar y tueddiadau diweddaraf sy'n ymwneud ag allbwn economaidd, cynhyrchiant, demograffeg, safonau byw, chwyddiant, y farchnad lafur, masnach a'r rhagolygon cyllidol.

Gobeithio y bydd yr adroddiad yn parhau i fod yn ddiddorol ac yn ddefnyddiol i chi. Rydym yn croesawu unrhyw adborth ar gynnwys neu fformat yr adroddiad.

Dr Thomas Nicholls
Prif Economegydd
Llywodraeth Cymru

Crynodeb Gweithredol

Beth yw'r adroddiad hwn?

- Mae'r adroddiad hwn yn asesu economi Cymru, safonau byw a'r sefyllfa gyllidol adeg Cyllideb Ddrafft 2027-28, gan ddefnyddio data oedd ar gael ar 28 Hydref 2026.
- **Mae allbwn economaidd yng Nghymru a'r DU yn parhau i dyfu, ond mae'r twf yn dal yn wan yn ôl safonau hanesyddol.** Dim ond yn araf deg mae GDP y pen wedi cynyddu ers yr argyfwng ariannol, ac mae hynny'n adlewyrchu cyfnod o arafu ehangach a welir ar draws economïau datblygedig. Mae gan Gymru un o'r lefelau isaf o allbwn economaidd y pen yn y DU o hyd, ac mae rhagolygon tymor agos yn parhau i fod yn ansicr oherwydd prisiau ynni uwch a thensiynau geowleidyddol.
- **Mae gwella cynhyrchiant yn dal yn ganolog i godi safonau byw yng Nghymru.** Mae amcangyfrifon newydd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn awgrymu bod twf cynhyrchiant yn y DU wedi bod yn gryfach na'r hyn a gafodd ei fesur yn flaenorol, ond mae Cymru'n parhau i weld un o'r bylchau cynhyrchiant mwyaf yn y DU. Cau'r bwlch hwn yw un o'r heriau economaidd hirdymor pwysicaf sy'n wynebu Cymru o hyd.
- **Mae newid demograffig yn debygol o achosi cyfyngiad cynyddol ar dwf economaidd.** Rhagwelir y bydd poblogaeth Cymru yn heneiddio'n sylweddol dros y degawdau nesaf, gyda thwf poblogaeth yn arafu ac yn troi'n negyddol yn y pen draw. Disgwylir i boblogaeth oedran gweithio sy'n crebachu achosi cynnydd o ran pwysau ar y sylfaen drethu a gwasanaethau cyhoeddus, gan roi mwy o bwys ar wella cynhyrchiant.
- **Mae safonau byw wedi gwella ers yr argyfwng costau byw diweddar ond maent yn dal i fod yn is na chyfartaleddau'r DU.** Mae incwm aelwydydd yng Nghymru yn parhau i fod ar ei hôl hi o gymharu â'r rhan fwyaf o ranbarthau'r DU, ac mae cyfraddau tlodi'n parhau i fod yn gyson uchel. Mae gwelliannau mewn safonau byw yn y dyfodol yn debygol o gael eu cyfyngu gan dwf cynhyrchiant gwan ac amgylchedd cyllidol heriol.
- **Mae cysylltiad agos o hyd rhwng canlyniadau iechyd a chanlyniadau economaidd.** Mae disgwyliad oes iach wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf ac mae anghydraddoldebau sylweddol yn parhau ledled Cymru. Mae ardaloedd sydd ar incwm is fel arfer yn gweld canlyniadau gwaeth o ran iechyd, ac mae hynny'n tynnu sylw at y berthynas agos rhwng iechyd, cyfranogiad yn y farchnad lafur, a ffyniant economaidd.
- **Mae Cymru wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.** Disgwylir i'r newid i sero net arwain at fanteision

economaidd a chymdeithasol hirdymor, ond bydd angen buddsoddiad sylweddol. Ochr yn ochr â lliniaru, mae addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd yn dod yn fwyfwy pwysig i aelwydydd, busnesau a gwasanaethau cyhoeddus.

- **Mae'r farchnad lafur yn dal yn gymharol gadarn er gwaethaf amodau economaidd sy'n fwy gwan.** Mae cyflogaeth yn dal yn hanesyddol uchel ac mae diweithdra'n gymharol isel. Fodd bynnag, mae cyflogaeth yn y sector preifat wedi gwanhau, mae canlyniadau'r farchnad lafur ieuenctid wedi dirywio, ac mae salwch tymor hir yn parhau i fod yn her enfawr.
- **Mae dynameg busnesau yng Nghymru wedi parhau i wanhau.** Mae mesurau sy'n ymwneud â mynediad, ymadawiad, ehangiad a chrebachiad busnesau yn dal yn is na'r lefelau cyn yr argyfwng ariannol. Gall llai o lafur ac ailddyrannu cyfalaf fod yn cyfyngu ar dwf cynhyrchiant ac ar adnewyddu'r economi.
- **Mae chwyddiant yn dal yn uwch na'r targed ac yn parhau i effeithio ar gyllidebau aelwydydd.** Er bod chwyddiant yn is o lawer na'r lefelau uchaf a welwyd yn 2022, mae prisiau ynni'n parhau i fod yn uwch ac mae datblygiadau geowleidyddol diweddar yn peri risgiau i'r rhagolygon. Disgwylir y bydd pwysau chwyddiant yn parhau i fod yn her dros y tymor agos.
- **Mae fforddiadwyedd tai yn dal yn broblem sylweddol er gwaethaf y gwelliannau diweddar.** Mae prisiau tai go iawn wedi gostwng ers y cyfnodau brig diweddar, ond mae tai'n dal yn llai fforddiadwy nag ar ddechrau datganoli. Mae pwysau fforddiadwyedd yn amrywio'n sylweddol ledled Cymru.
- **Mae masnach ryngwladol yn dal i chwarae rhan bwysig yn economi Cymru.** Cymru yw un o rannau mwyaf masnach-ddwys y DU o hyd ac mae allforwyr fel arfer yn fwy cynhyrchiol na phobl nad ydynt yn allforio. Fodd bynnag, mae busnesau'n parhau i wynebu ansicrwydd sy'n deillio o ddatblygiadau geowleidyddol ac effeithiau tymor hwy newidiadau mewn perthnasoedd masnachu.
- **Mae demograffeg a pherfformiad economaidd yn debygol o sbarduno heriau cyllidol hirdymor.** Mae Cymru'n parhau i dderbyn gwariant cyhoeddus uwch y pen na chyfartaledd y DU er gwaethaf codi llai o refeniw y pen. Bydd pwysau cyllidol yn y dyfodol yn dibynnu'n drwm ar sut mae newid yn y boblogaeth, cynhyrchiant a'r sylfaen drethu yng Nghymru yn esblygu o'i gymharu â gweddill y DU.
- **Mae ystadegau economaidd yn parhau i esblygu a gwella.** Disgwylir i ddatblygiadau yn ystadegau'r farchnad lafur, data masnach a setiau data dadansoddol Cymru gryfhau dealltwriaeth o amodau economaidd a chefnogi llunio polisïau'n well yn y blynyddoedd i ddod.

Cynnwys

Rhagair 1
Crynodeb Gweithredol 2
Cynnwys 4
Rhestr o ffigurau a thablau 5
Cyflwyniad 8
Allbwn Economaidd 9
Cynhyrchiant 15
Demograffeg 24
Iechyd a safonau byw 34
Safonau Byw 40
Newid Hinsawdd 52
Y Farchnad Lafur 58
Trosiant 71
Chwyddiant 74
Prisiau Tai 80
Masnach Ryngwladol 83
Rhagolygon Cyllidol 90
Atodiad: Datblygiadau mewn data economaidd 108

Rhestr o ffigurau a thablau

Ffigur 1 - Cyfraniadau at Dwf GDP y DU, 2025 9
Ffigur 2 - Newidiadau mewn GDP gwirioneddol y pen yn y DU a'r G7, 1997 i 2025 11
Ffigur 3 - Newidiadau mewn GDP y pen yn y DU, 1998 i 2024 12
Ffigur 4 – Twf mewn GDP gwirioneddol y pen yng Nghymru a'r DU, 1998 i 2024 13
Ffigur 5 - Rhagolygon GDP y DU ar gyfer 2026 a 2027 14
Ffigur 6 - Mynegai allbwn yr awr y DU, dull presennol o'i gymharu â'r dull (cydrannau) newydd, 1997 i 2024 16
Ffigur 7 - Newidiadau o ran cynhyrchiant llafur yn y DU, 1998 i 2023 18
Ffigur 8 - Poblogaeth amcanestynedig yng Nghymru hyd at 2050 24
Ffigur 9 - Newidiadau blynyddol amcanestynedig o ran elfennau'r boblogaeth yng Nghymru hyd at 2050 25
Ffigur 10 - Proffil oedran amcanestynedig poblogaeth Cymru mewn blynyddoedd dethol, 2025 i 2050 26
Ffigur 11 - Rhagamcan o gyfran Cymru o boblogaeth gyfunol Cymru a Lloegr yn ôl grŵp oedran, o 2025 i 2050 27
Ffigur 12 - Disgwyliad oes adeg geni i fenywod a dynion, 1980-1982 i 2022-2024 yng Nghymru a'r DU 28
Ffigur 13 - Disgwyliad Oes Iach adeg geni yn ôl rhyw, Cymru, rhwng 2011 a 2013 a rhwng 2022 a 2024 30
Ffigur 14 - Disgwyliad Oes Iach adeg geni yn ôl rhyw a Gwlad y DU, 2011-13 i 2022-24 31
Ffigur 15 - Disgwyliad oes iach yn 65 oed yn ôl rhyw, Cymru, 2011 i 2013 a 2022 i 2024 33
Ffigur 16 – Disgwyliad oes iach adeg geni yn ôl incwm gwario gros aelwydydd yng Nghymru, gan gymharu 2012-14 a 2022-24 35
Ffigur 17*[A-C]* - Disgwyliad Oes Iach yn ôl Incwm Gwario Gros Gwledydd y DU, 2012-14 (Gogledd Iwerddon 2014-16) a 2022-24 36
Ffigur 18 - Incwm Gwario Go lawn Aelwydydd y pen (Y DU =100) yn ôl gwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr, 2024 42
Ffigur 19 - Incwm wythnosol cyfwerth â chanolrif aelwydydd ar gyfer pob unigol yn ôl gwledydd y DU a rhanbarth Lloegr, ar ôl costau tai (Y DU=100%) 45
Ffigur 20 - Canran yr holl unigolion sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol yn ôl gwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr, diwedd blwyddyn ariannol 2023 i 2025. 47
Ffigur 21 - Canran y plant ym mhob gwlad yn y DU sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol, incwm canolrifol aelwydydd, cyfartaleddau tair blynedd ariannol... 48

Ffigur 22 - Incwm aelwydydd (incwm gwario gros aelwydydd), allbwn economaidd (GDP), a gwariant aelwydydd (gwariant defnydd terfynol aelwydydd) y pen, ym mynegai Cymru (y DU=100), 2009-2023 50
Ffigur 23 - Gwahaniaethau mewn gwariant rhwng aelwydydd yng Nghymru a'r DU yn ôl math o wariant, 2023 51
Ffigur 24 - Alldro allyriadau nwyon tŷ gwydr a rhagolygon yn ôl sector yng Nghymru, 2000 i 2050 53
Ffigur 25 - Costau a manteision gostyngol i'r DU yn sgil lliniaru allyriadau, 2025 i 2050 55
Ffigur 26 - Mynegai o gyflogeion cynllun Talu Wrth Ennill yng Nghymru (2016=100), 2016 i 2026 59
Ffigur 27 - Newid mewn cyflogaeth Talu Wrth Ennill yng Nghymru yn ôl sector dethol rhwng Mai-Gorffennaf 2025 a Mai-Gorffennaf 2026 ac yn ôl maint y sector 61
Ffigur 28 - Cyfradd diweithdra ymysg pobl ifanc yn y DU, 2016 i 2026 63
Ffigur 29 - Cyfradd anweithgarwch economaidd Cymru ymysg pobl 16 i 64 oed, 2004 a 2025 65
Ffigur 30 - Y prif reswm dros anweithgarwch economaidd (ac eithrio myfyrwyr) yng Nghymru, y blynyddoedd sy'n dod i ben ym mis Mehefin, 2016 i 2026 66
Ffigur 31 - Tâl canolrifol yng Nghymru yn ôl tâl o'i gymharu â'r DU (=100) fesul sector, 2025 68
Ffigur 32 - Cyfanswm trosiant swyddi yng Nghymru fel canran o swyddi gweithredol, yn ôl y math o greu/distryw, 2002-03 i 2024-25 72
Ffigur 33 - Newid canrannol mewn prisiau grwpiau nwyddau dethol a CPI, mis Medi 2021 i fis Medi 2026 75
Ffigur 34 - Cyfraddau chwyddiant blynyddol (%) y Mynegai Prisiau Defnyddwyr a Mynegai Costau'r Cartref ar gyfer pob aelwyd yn y DU, mis Ionawr 2016 i fis Mehefin 2026 77
Ffigur 35 - Cyfraddau chwyddiant blynyddol Mynegeion Costau'r Cartref yn ôl degradd incwm (%), y DU, mis Ionawr 2016 i fis Mehefin 2026 78
Ffigur 36 - Mynegai prisiau tai go iawn yng Nghymru a Lloegr ers datganoli, 1999 i 2026 (Mai 1999 = 100) 80
Ffigur 37 - Cymarebau fforddiadwyedd prynu tai ar draws awdurdodau lleol Cymru, 1998-99 i 2023-24 82
Ffigur 38 - Cyfran o GDP Allforio Nwyddau Gwledydd y DU, 2016-2023 84
Ffigur 39 - Mynegai perfformiad masnach nwyddau Cymru yn ôl Gwerth a Swmp, 2014-2015 i 2025-26 (Ch2 2019=100) 87
Ffigur 40 - Perfformiad Allforio Nwyddau yn ôl gwlad y DU Ch2, 2015 i Ch2, 2026 (Mynegai: Ch2, 2019=100) 88
Ffigur 41 - Gwariant cyhoeddus y DU fel cyfran o GDP, 1900-01 i 2024-25 91
Ffigur 42 - Newidiadau i wariant cyhoeddus y DU fel cyfran o GDP, 1999-00 i 2024-25 (1999-00=100) 92

Ffigur 43 - Newidiadau mewn benthyca (lefelau benthycau net y sector cyhoeddus) a'r diffyg yn y gyllideb bresennol ers mis Mawrth 2026 95
Ffigur 44 - Gwariant llog dyledion y DU a Dyled Net y Sector Cyhoeddus fel cyfrannau o GDP, 1975-76 i 2031-32 97
Ffigur 45 - Refeniw, gwariant a balans cyllidol net y pen, 2024-25 100
Ffigur 46 – Ariannu Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2027-28 101
Ffigur 47 – Cyllideb Adnoddau Llywodraeth Cymru mewn termau real, £m ... 102
Ffigur 48 – Cyllideb Gyfalaf Gyffredinol Llywodraeth Cymru mewn termau real, £m 103
Ffigur 49 – Y sefyllfa net rhwng rhagolygon trethi datganoledig a'r addasiadau grant bloc 104
Ffigur 50 - Amcanestyniadau hirdymor ar gyfer gwariant Llywodraeth Cymru o ddydd i ddydd 106

Cyflwyniad

Mae trydydd Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru yn parhau â'r gyfres o adroddiadau gan y Prif Economegydd a gyhoeddwyd ochr yn ochr â phob Cyllideb Ddrafft ers 2017.

Mae Cymru wedi integreiddio'n agos ag economi'r DU sy'n golygu bod datblygiadau'r DU yn darparu cyd-destun pwysig. Mae polisi cyllidol, macroeconomaidd ac ariannol yn faterion a gedwir yn ôl, tra bod sbardunau datganoledig gan gynnwys trafnidiaeth, iechyd, addysg a chynllunio siapio canlyniadau tymor hwy.

Mae'r data a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn deillio o amrywiaeth o ffynonellau swyddogol a dyma'r data diweddaraf sydd ar gael ar 28 Hydref 2026. Fodd bynnag, mae ystadegau swyddogol yn cael eu diwygio wrth i wybodaeth a dulliau wella. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at ddiwygiadau ac ansicrwydd hysbys; mae Atodiad A yn disgrifio datblygiadau o ran data economaidd.


Allbwn Economaidd

Amcangyfrifir bod cyfanswm gwerth neu lefel allbwn economaidd y DU, fel y'i mesurir gan Gynnyrch Domestig Gros (GDP), yn £3.04 triliwn yn 2025. Mae'r data GDP cyfatebol diweddaraf ar gyfer Cymru, wedi'i gyhoeddi gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), yn dod ar ôl data'r DU; mae data hyd at 2024 ar gael. Yn 2024, roedd GDP yng Nghymru yn £100.3 biliwn sy'n cyfrif am 3.5% o GDP y DU.

Roedd twf GDP y DU wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant wedi cynyddu 1.2% yn 2025. Mae **Ffigur 1** yn dangos mai gwariant buddsoddi – sector preifat yn bennaf – oedd y cyfrannwr mwyaf at y cynnydd y llynedd pan gaiff ei ddadansoddi gan y cydran 'yn ôl prif wariant'. Roedd defnydd preifat (gwariant defnyddwyr yn bennaf) a gwariant y llywodraeth ar wasanaethau cyhoeddus o ddydd i ddydd (ac eithrio trosglwyddiadau) hefyd wedi gwneud cyfraniadau cadarnhaol at dwf GDP. I'r gwrthwyneb, roedd masnach net (allforion llai mewnforion) wedi'i thynnu o GDP fel twf mewnforio yn fwy na thwf allforio.

Ffigur 1 - Cyfraniadau at Dwf GDP y DU, 2025

Testun amgen: Siart far yn dangos cyfraniadau at dwf GDP y DU yn 2025. Buddsoddiad oedd y brif elfen a oedd wedi cyfrannu, gydag allforion net yn lleihau twf.



Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol


Roedd twf allbwn yn 2025 yn cyd-fynd â phatrwm perfformiad economaidd gwael y DU sydd wedi nodweddu llawer o'r ddau ddegawd diwethaf. Cyfradd y twf blynyddol ar gyfartaledd ers y pandemig oedd 0.9%, sef tua hanner y gyfradd flynyddol a gofnodwyd yn y degawd cyn y pandemig ac ychydig dan draean o'r gyfradd a gofnodwyd yn y degawd cyn yr argyfwng ariannol. Twf GDP cyffredinol yng Nghymru rhwng 1998 a 2007 oedd 2.5% (y DU: 2.8%). Ers yr argyfwng ariannol (2010 i 2024), 1.4% oedd y twf GDP blynyddol cyfartalog yng Nghymru (y DU: 1.5%).

Mae GDP y pen yn addasu GDP cyfanredol ar gyfer maint y boblogaeth. Mae newidiadau mewn GDP y pen yn ddangosydd gwell o berfformiad economaidd a newidiadau mewn safonau byw na GDP cyfanredol. Mae GDP y pen yn y DU wedi cynyddu ar gyfradd flynyddol gyfartalog o 0.2% ers y pandemig o'i gymharu â 1.4% yn y degawd cyn y pandemig a 2.3% yn y degawd cyn yr argyfwng ariannol.

Nid y DU yn unig sydd wedi gweld twf gwan mewn GDP ers yr argyfwng ariannol. Mae ***Ffigur 2*** yn dangos bod twf wedi lleihau'n sylweddol yn economïau'r G7 ers yr Argyfwng Ariannol Byd-eang. Economi'r DU a dyfodd gyflymaf yn y G7 yn y degawd cyn yr argyfwng ariannol byd-eang, cyn bod yn hafal i berfformiad y G7 yn y degawd cyn y pandemig. Ond mae wedi tanberfformio ers hynny.

Ffigur 2 - Newidiadau mewn GDP gwirioneddol y pen yn y DU a'r G7, 1997 i 2025

Testun amgen: Siart far yn dangos y DU a'r G7 ac eithrio'r DU ar draws tri chyfnod: y degawd cyn yr argyfwng ariannol mawr, 2010-2019 a 2019 i 2025. Mae'n dangos sut mae twf wedi lleihau ym mhob cyfnod dilynol yn y G7 a'r DU, ond bod twf cyfartalog y DU yn is yn y cyfnod diweddaraf.



Ffynhonnell: Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD)
Sylwer: Newidiadau wedi'u cyfrifo o ddoleri'r Unol Daleithiau ($), PPPs cyson. Y degawd cyn cyfnod yr argyfwng ariannol mawr yw 1997 i 2007, a'r cyfnod ers y pandemig yw 2019 i 2025

Allbwn economaidd Cymru ac is-DU

Mae'r data diweddaraf yn dangos bod GDP crynswth Cymru (ym mhrisiau nawr) yn £100.3bn yn 2024, i fyny 0.5% ers 2023, gyda'r DU yn tyfu 1.1%.


Dangosir lefel yr allbwn economaidd (GDP) y pen yng ngwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr o gymharu â chyfartaledd y DU yn ***Ffigur 3***. Mae'n dangos y gwahaniaethau rhwng 1998 a 2007, 2008 a 2019; a 2021 a 2024. Roedd GDP y pen yng Nghymru yn gyson tua 24% yn is na chyfartaledd y DU ym mhob un o'r tri chyfnod.

Llundain a Gogledd-orllewin Lloegr oedd yr unig leoedd a welodd eu sefyllfaoedd yn gwella ar draws pob un o'r tri chyfnod. Mae Llundain yn cael effaith fawr iawn ar gyfartaledd y DU, yn yr un modd â llawer o ystadegau economaidd ar lefel is na'r DU. Ac eithrio Llundain, mae amrywiadau rhanbarthol yn llawer llai amlwg. Serch hynny, mae GDP y pen yng Nghymru yn gyson agos at fod yr isaf yn y DU. O'i chymharu â'r DU, mae gan Gymru gyfradd cyflogaeth is, proffil sgiliau llai ffafriol,

poblogaeth gymharol hen lle mae mwy o salwch, a llai o fuddion cydgrynhoi gan nad oes dinasoedd mawr ac nid yw'r cysylltiadau trafnidiaeth wedi'u datblygu'n ddigonol. Mae'r rhan fwyaf o'r ffactorau hyn yn helpu i esbonio cynhyrchiant cymharol wan Cymru.[1] Trafodir cynhyrchiant yn yr adran nesaf.

Ffigur 3 - Newidiadau mewn GDP y pen yn y DU, 1998 i 2024

Testun amgen: Siart far yn cymharu'r gwahaniaethau mewn GDP y pen yn y DU ar draws gwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr yn 1998 i 2007, 2008 i 2019 a 2021 i 2024. Gogledd-ddwyrain Lloegr a Chymru yw'r isaf yn y ddau gyfnod, gyda Llundain yr uchaf yn y ddau gyfnod. Dim ond Llundain a De-ddwyrain Lloegr sydd â GDP y pen sy'n uwch na chyfartaledd y DU.



Ffynhonnell: Wedi'i gyfrifo o ddata'r SYG
Sylwer: Nid yw'r ffigur yn cynnwys 2020 oherwydd y gostyngiad untro mawr yn sgil y pandemig

Twf allbwn economaidd y pen


Mae perfformiad blynyddol cyfartalog gweithgarwch economaidd yng Nghymru a'r DU ar draws gwahanol gyfnodau economaidd allweddol i'w weld yn **Ffigur *4***. Yn y ddwy wlad, roedd allbwn economaidd (GDP y pen) wedi tyfu llai yn y cyfnod dilynol. Roedd GDP y pen hefyd wedi tyfu llai yng Nghymru na chyfartaledd y DU rhwng 1998 a 2007, ac yna perfformiodd yn well na'r DU rhwng 2008 a 2019 ac eto rhwng 2021 a 2024. Ers 2008, mae nifer o siociau economaidd a digwyddiadau

[1] Mae'r rhesymau dros y lefel is o GDP y pen yng Nghymru wedi cael eu trafod mewn Adroddiadau Economaidd a Chyllidol Cymru blaenorol, gweler 2024 a 2025.

economaidd andwyol eraill wedi effeithio ar yr economi, gan gynnwys yr argyfwng ariannol, cyni cyllidol, y DU yn gadael yr UE, y pandemig ac argyfyngau ynni.

Ffigur 4 – Twf mewn GDP gwirioneddol y pen yng Nghymru a'r DU, 1998 i 2024

Testun amgen: Siart far yn dangos twf blynyddol cyfartalog Cymru a'r DU dros dri chyfnod: 1998 i 2007, 2008 i 2019 a 2021 i 2024. Yn y ddwy wlad, mae'r twf yn is yn y ddau gyfnod olaf o'i gymharu â'r cyfnod cynharaf.




Ffynhonnell: Wedi'i gyfrifo o ddata'r SYG

Mae'r rhagolygon tymor agos ar gyfer twf allbwn yng Nghymru yn ansicr iawn oherwydd y gwrthdaro parhaus yn y Dwyrain Canol. Dechreuodd y gwrthdaro ar 28 Chwefror 2026. Mae wedi tarfu ar lwythi olew a nwy, yn enwedig y rhai sy'n teithio ar hyd Culfor Hormuz, sef llwybr masnach hollbwysig ar gyfer cyfran fawr o gyflenwad ynni'r byd. O ganlyniad, mae prisiau ynni yn gyfnewidiol ac yn uwch nag yr oeddent ar ddechrau'r flwyddyn. Gan fod y DU yn fewnforiwr net o olew a nwy, mae llai o gyflenwadau ynghyd â dim newid sylweddol yn y galw wedi golygu costau uwch ar gyfer y nwyddau hyn, ac mae hynny'n effeithio ar aelwydydd a busnesau drwy leihau buddsoddiad a gwariant defnyddwyr, a chyda'r refeniw yn gadael y DU drwy brisiau mewnforio uwch. Yn ystod saith mis cyntaf 2026, roedd GDP y DU 1.1% yn uwch na'r un cyfnod yn 2025.

Mae Trysorlys EF yn casglu ac yn cyhoeddi rhagolygon cyfartalog gan nifer o fanciau buddsoddi a melinau trafod bob mis. Y rhagolwg cyfartalog diweddaraf ar gyfer twf GDP yn 2026 yw 1.3% ac 1.2% yn 2027 (gweler **Ffigur *5***). Mae rhagolygon diweddaraf yr OBR yn 1.2% eleni ac 1.0% yn 2027. Gellir tybio bod y rhagolygon yn fwyaf tebygol o fod yn gynrychioliadol yn fras o'r hyn a ragwelir ar gyfer economi Cymru yn y tymor agos.

Ffigur 5 - Rhagolygon GDP y DU ar gyfer 2026 a 2027

Testun amgen: Siart far yn dangos rhagolygon GDP y DU ar gyfer 2026 a 2027. Mae pob un tua 1% ar gyfer y ddwy flynedd, i gyd yn is o lawer na chyfradd twf gyfartalog y DU rhwng 1999 a 2019 sef 1.9%.



Ffynhonnell: Banc Lloegr, Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, Cronfa Ariannol Ryngwladol, yr OBR[2] a Thrysorlys EF

[2] Paratowyd rhagolwg yr OBR cyn i'r gwrthdaro yn y Dwyrain Canol ddechrau.

Cynhyrchiant

Pam fod cynhyrchiant yn bwysig?

Mae cynhyrchiant yn mesur sut mae economi'n trosi mewnbynnau fel llafur a chyfalaf yn allbynnau. Sicrheir enillion cynhyrchiant pan fydd modd cynhyrchu lefel benodol o allbynnau gan ddefnyddio llai o fewnbynnau - er enghraifft, oherwydd datblygiadau technolegol. Gall enillion effeithlonrwydd o'r fath gael eu hadlewyrchu mewn enillion uwch i weithwyr, mwy o elw i fusnesau, a refeniw treth uwch i lywodraethau, tra gallai'r cyhoedd elwa yn sgil gwell gwasanaethau cyhoeddus a mwy ohonynt, a threthi is.

Mae cryfhau cynhyrchiant yn ffynhonnell allweddol o dwf cynaliadwy mewn allbwn fel y'i mesurir gan werth ychwanegol gros neu GDP mewn termau cyfanredol a fesul pen o'r boblogaeth. Mae hyn yn rhannol oherwydd y derbynnir yn eang bod y cyfle i gynyddu cyflogaeth/oriau a weithir, sef y brif ffynhonnell arall o dwf economaidd, yn gyfyngedig.

Mae sawl mesur gwahanol o gynhyrchiant. Yn yr adran hon, mae'r ffocws ar gynhyrchiant llafur, yn bennaf gwerth ychwanegol gros neu GDP am bob awr a weithir. Mae cynhyrchiant llafur yng Nghymru yn is na chyfartaledd y DU ac mae'n gyson ymhlith yr isaf o ran gwledydd a rhanbarthau'r DU. Mae gan Lywodraeth Cymru Plaid Cymru, a ddaeth i rym ym mis Mai 2026, genhadaeth economaidd sy'n cynnwys dyhead i haneru bwlch cynhyrchiant Cymru gyda gweddill y DU o fewn 10 mlynedd.[3]

Datblygiadau diweddar o ran cynhyrchiant a ffyrdd o'i fesur

Ym mis Medi 2026, nododd y Swyddfa Ystadegau Gwladol ddull "cydrannau" newydd o ymdrin â chynhyrchiant llafur, gan gyfuno arolygon aelwydydd, arolygon busnes a data gweinyddol. Mae'n amcangyfrif oriau o oriau â thâl sy'n cael eu cofnodi gan gyflogwyr, wedi'u haddasu ar gyfer gwyliau, salwch, goramser, ac amser arall nad yw'n waith, gan gynhyrchu amcangyfrifon is o gyfanswm yr oriau sy'n cael eu gweithio na'r dull presennol.

O dan y dull cydrannau, mae twf allbwn blynyddol cyfartalog y DU fesul awr rhwng 1997 a 2024 yn 1.3%, o'i gymharu â 1.1% o dan y dull presennol. Mae'r twf rhwng 2009 a 2019 yn 1.3%, o'i gymharu â 0.7%. Mae'r diwygiad yn lleihau, ond nid yw'n dileu, yr arafu ar ôl yr argyfwng ariannol.[4]


[3] Cenhadaeth economaidd newydd i gau'r bwlch cynhyrchiant rhwng Cymru a'r DU a chynyddu cyflogau | LLYW.CYMRU..

[4] Mae'r newidiadau i allbwn fesul tasg ac allbwn fesul gweithiwr yn fwy bychan. Mae twf mewn allbwn fesul tasg yn dilyn patrwm tebyg iawn o dan y ddwy fethodoleg, tra bo'r mesur allbwn fesul gweithiwr diwygiedig yn cyd-fynd yn agosach â data gweinyddol Gwybodaeth Amser Real Cynllun Talu Wrth Ennill dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae ***Ffigur 6*** yn dangos sut mae cynhyrchiant wedi esblygu dros y 2 ddegawd diwethaf fel y'i mesurir gan y dull cydrannau. Mae tuedd y llinellau cynhyrchiant ar gyfer 1997 i 2007 ac ar gyfer 2009 i 2019 yn cael eu dangos hefyd. Yn 2024, mae lefel y cynhyrchiant sy'n deillio o gydrannau tua 10% yn is na'r lefel a awgrymir gan y duedd gynharach ac yn fras yn cyd-fynd â thuedd 2009 i 2019.

Ffigur 6 - Mynegai allbwn yr awr y DU, dull presennol o'i gymharu â'r dull (cydrannau) newydd, 1997 i 2024

Testun amgen: Siart linell yn dangos tuedd twf cynhyrchiant y DU fesul awr rhwng 1997 a 2007 gyda'r dull cydrannau newydd 2009 i 2019 a'i linell tuedd, sy'n is na thuedd y cyfnod blaenorol. Fodd bynnag, mae'r dull cydrannau yn darparu twf cynhyrchiant uwch ers 2008 a llinell tuedd uwch.



Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Nid yw'r SYG yn bwriadu cyhoeddi amcangyfrifon cynhyrchiant llafur ar gyfer Cymru na gwledydd eraill y DU a rhanbarthau Lloegr gan ddefnyddio'r dull cydrannau ym mis Chwefror 2027. Felly, nid yw'n glir eto a yw'r mesur newydd wedi newid perfformiad cynhyrchiant Cymru mewn perthynas â'r DU o'i gymharu â'r dull presennol. Wedi dweud hynny, tynnwyd sylw yn y fan hon ac yn Adroddiadau Economaidd a Chyllidol Cymru blaenorol[5] fod gweithgarwch economaidd yng Nghymru yn tueddu i olrhain datblygiadau'r DU yn eithaf agos. Felly, mae'r newidiadau o ran amcangyfrifon cynhyrchiant llafur wedi'i fesur yn ôl cydran yn y DU

[5] Gweler 2025

rhwng 1997 a 2004 yn debygol o roi syniad bras o *newidiadau* mewn cynhyrchiant yng Nghymru.

Bydd y dull cydrannau o fesur cynhyrchiant yn disodli ystadegau cynhyrchiant llafur presennol y DU o fis Tachwedd 2026 ymlaen. Ar yr un pryd, bydd y SYG yn cyhoeddi amcangyfrifon cynhyrchiant ar sail cydrannau fesul chwarter hyd at, ac yn cynnwys, Chwarter 2 2026. Data blynyddol yw'r data a gyhoeddwyd hyd yma ac mae'n ymestyn hyd at 2024. Mae mesurau eraill o gynhyrchiant llafur, yn benodol gwerth ychwanegol gros chwarterol fesul gweithiwr sydd ar gael hyd at Chwarter 2 2026, yn awgrymu bod cynhyrchiant y DU wedi bod yn eithaf cadarn ers 2023.


Cynhyrchiant yng Nghymru

Am y tro, mae'r unig amcangyfrifon swyddogol o gynhyrchiant llafur sydd ar gael ar gyfer Cymru yn cael eu cyfrifo gan ddefnyddio'r dull presennol gyda'r mewnbwn llafur, h.y. yr oriau a weithiwyd, yn seiliedig ar yr Arolwg o'r Llafurlu. Mae ansawdd data'r Arolwg o'r Llafurlu wedi dirywio ers troad y degawd. Ar ben hynny, mae data cynhyrchiant Cymru yn ymestyn hyd at 2023 yn unig. Mae'r data sydd ar gael yn dangos bod *lefel* cynhyrchiant yng Nghymru wedi bod yn gyson isel yn ôl safonau cyfartalog y DU.

Ffigur *7* sy'n dangos y gwahaniaeth o ran lefel allbwn fesul awr a weithir yng ngwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr o'i gymharu â chyfartaledd y DU rhwng 1998 i 2007, 2008 i 2019; a 2021 i 2023 (defnyddir cyfartaleddau tair blynedd i unioni gwyriadau mewn blynyddoedd unigol). Nid oedd *lefel* cynhyrchiant llafur yng Nghymru o'i gymharu â'r DU wedi newid rhyw lawer dros y tri chyfnod, a gwelwyd ei bod yn gyson agos at yr isaf (os nad yr isaf) o holl wledydd neu ranbarthau'r DU. Wrth gymharu'r cyfnod diweddaraf â'r cyfnod cynharaf, cofnodwyd gostyngiadau cymharol sydyn yn Nwyrain Lloegr, Llundain a Gogledd-ddwyrain Lloegr. Gwelodd yr Alban a Gogledd Iwerddon enillion cymharol mawr. Er gwaethaf dirywiad cymharol Llundain ers 1998, roedd cynhyrchiant y brifddinas 29% yn uwch na chyfartaledd y DU yn 2021 i 2023 a 45% yn uwch nag yng Nghymru.

Ffigur 7 - Newidiadau o ran cynhyrchiant llafur yn y DU, 1998 i 2023

Testun amgen: Siart far yn cymharu'r gwahaniaethau mewn allbwn yr awr yn y DU rhwng 1998 i 2007, 2008 i 2019, a 2021 i 2023 ar draws gwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr. Yn y cyfnod diweddaraf, Cymru a Gogledd-ddwyrain Lloegr oedd â'r lefelau cynhyrchiant isaf. Llundain a De-ddwyrain Lloegr oedd â'r lefelau uchaf.



Ffynhonnell: wedi'i gyfrifo o ddata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol

Nod Llywodraeth Cymru Plaid Cymru, a ddaeth i rym ym mis Mai 2026, yw haneru'r bwlch cynhyrchiant gyda'r DU o fewn 10 mlynedd. O ran cyd-destun, pe bai twf cynhyrchiant y DU yn cyfateb i oddeutu 1.0% y flwyddyn ar gyfartaledd dros y degawd nesaf fel y disgwylir gan yr OBR, yna byddai'n rhaid i gynhyrchiant yng Nghymru gynyddu ar gyfradd flynyddol gyfartalog o tua 1.9% er mwyn haneru'r bwlch.

Mae'r rhesymau dros y *lefelau* cynhyrchiant cymharol isel yng Nghymru wedi cael eu harchwilio mewn Adroddiadau Economaidd a Chyllidol Cymru blaenorol ac yn eu rhagflaenyddion, yn ogystal â rhywfaint o lenyddiaeth academaidd. Yn gyffredinol, mae'n well deall bwlch cynhyrchiant Cymru fel rhyngweithiad nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- nifer fawr o ardaloedd trefol bach a gwasgaredig[6]

[6] PIP007-Wales-Productivity-Challenge-FINAL-011221.pdf.

- buddsoddiad busnes isel ac ymchwil a datblygu[7]
- dim digon o gwmnïau twf uchel [8,9]
- sgiliau a chymwysterau gweithlu gwan[10]
- iechyd gwael ac anweithgarwch economaidd uchel[11]
- llai o ddwysedd arloesi[12], a
- seilwaith cysylltiol gwan.[13]

Mae'n bwysig nodi, fel yn adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru 2025, fod tystiolaeth hefyd yn awgrymu nad oes modd egluro bwlch cynhyrchiant Cymru drwy edrych ar ei strwythur diwydiannol yn unig, gan fod gwahaniaethau cynhyrchiant hefyd yn amlwg mewn diwydiannau.[14] Roedd Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru 2024 yn edrych ar ffyrdd o wella cynhyrchiant yng Nghymru.[15]

Cynhyrchiant iechyd (y GIG) yng Nghymru

Ym mis Ebrill 2025, cyhoeddodd y Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Gynhyrchiant a Pherfformiad adroddiad gyda 29 o argymhellion i GIG Cymru a Llywodraeth Cymru wella perfformiad a chynhyrchiant, ac un o'r rhain oedd datblygu mesur o gynhyrchiant ar gyfer GIG Cymru (argymhelliad 22). Mewn ymateb, sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen i oruchwylio ac arwain y gwaith o ddatblygu a gweithredu model cynhyrchiant.

Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen, (sy'n cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Cyllid ar gyfer Iechyd, Gofal ac Atal (HCP) Llywodraeth Cymru a GIG Cymru), yn gydweithrediad â chydweithwyr o Berfformiad a Gwella GIG Cymru, Trysorlys Cymru, Is-adran Gwyddoniaeth, Ymchwil a Thystiolaeth Llywodraeth Cymru, Cyfarwyddwyr a Dirprwy Gyfarwyddwyr Cyllid Bwrdd Iechyd GIG Cymru, a Chyllid Iechyd, Gofal ac Atal Llywodraeth Cymru. Mae'r grŵp hwn yn gyfrifol am gytuno ar y fethodoleg a'r model.

Mae'r fethodoleg i ddatblygu mesur cynhyrchiant GIG Cymru yn cyd-fynd â gwaith cynhyrchiant GIG Lloegr. I ddechrau, mae'r mesur cynhyrchiant wedi cael ei ystyried yn flynyddol a'i gyfuno ar lefel Cymru gyfan ac ar gyfer pob un o'r saith bwrdd iechyd. Mae'n cymharu twf yng ngweithgarwch gofal eilaidd GIG Cymru mewn byrddau iechyd, a'r adnoddau a ddefnyddir i gyflawni'r gweithgarwch rhwng cyfnodau ariannol. Gellir crynhoi'r fethodoleg fel a ganlyn:

[7] Y Gronfa Twf Lleol: Dadansoddiad economaidd-gymdeithasol o Gymru
[8] Y Gronfa Twf Lleol: Dadansoddiad economaidd-gymdeithasol o Gymru
[9] Cenhadaeth economaidd: crynodeb o gynhyrchiant mentrau bach a chanolig [HTML] | LLYW.CYMRU
[10] Wales' Productivity Challenge: A Focus on the Future
[11] Llesiant Cymru 2025: Cymru lewyrchus [HTML] | LLYW.CYMRU
[12] Cenhadaeth economaidd: crynodeb o gynhyrchiant mentrau bach a chanolig [HTML] | LLYW.CYMRU
[13] Asesiad Seilwaith Cymru 2026 – Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru
[14] Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru Hydref 2025
[15] Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru 2024

Mesur allbynnau (twf gweithgarwch): Casglu gweithgarwch gofal eilaidd ar lefel llinell. Pwysoli'r gweithgarwch hwn ar sail costau cyfeirio Grŵp Adnoddau Gofal Iechyd Cymru Gyfan a chostau unedau safonol perthnasol, a gafwyd o Ffurflenni Costau 1 a 2 Cymru.

Mesur mewnbynnau (twf gwariant): Casglu gwariant (yr adnoddau a ddefnyddir) a adroddir gan fyrddau iechyd drwy ddatganiadau misol. Addasu'r adnoddau hyn ar gyfer chwyddiant.

Mesur twf cynhyrchiant: Cymharu twf gweithgarwch â thwf gwariant rhwng dau gyfnod.

Mae twf yn cael ei gymharu rhwng dau gyfnod ar sail blwyddyn hyd yma (YTD) o fewn blynyddoedd ariannol gan ddefnyddio'r fformiwla ganlynol:

$$\text{Twf Cynhyrchiant (\%)} = \left(\frac{(1 + \text{Twf Gweithgaredd \%})}{(1 + \text{Twf cost \%})} - 1\right) \times 100$$

Mae'r model yn mesur **twf cynhyrchiant yn hytrach na lefelau cynhyrchiant absoliwt.**

Dehongli a chyfyngiadau

Oherwydd cymhlethdod y model, mae'r amcangyfrifon yn mynd drwy gyfres o gamau mireinio sy'n cael effeithiau amrywiol ar y canlyniadau. Gan fod y datblygiad yn dal i fod yn ei gamau cymharol gynnar, gall y rhain fod yn gymharol fawr, ond mae disgwyl iddynt setlo dros amser. Mae problemau hysbys hefyd yn ymwneud ag ansawdd adroddiadau data.

Ar hyn o bryd, nid yw'r model yn cynnwys addasu ansawdd, canlyniadau a gweithgarwch y tu allan i ofal eilaidd, fel gofal sylfaenol a chymunedol. Felly, nid yw'r amcangyfrifon yn darparu asesiad cynhwysfawr o berfformiad GIG Cymru, nid ydynt yn ystyried symudiad gwasanaethau rhwng lleoliadau gofal fel o aciwt i'r gymuned, na newidiadau yn ansawdd a chanlyniadau gofal.

Statws presennol a'r camau nesaf

- Mae model cychwynnol yn dal i gael ei ddatblygu a fydd yn cynnwys amcangyfrifon rhagarweiniol o gynhyrchiant cymharol ar gyfer GIG Cymru.
- I ddechrau, mae'r model wedi cael ei ddatblygu ar gyfer y saith bwrdd iechyd yng Nghymru gyda'r bwriad o'i ddiwygio'n flynyddol.
- Mae'r model yn defnyddio gwybodaeth reoli, a gafwyd o ddata GIG Cymru, nid yw'n ystadegyn swyddogol. Mae'r model yn cael ei ddangos drwy ddangosfwrdd defnyddwyr rhyngweithiol sydd ar gael i aelodau GIG Cymru yn unig drwy'r VAULT.[16]

[16] Mae'r Pecyn Cymorth Dysgu Defnyddio Dyrannu Gwerth - a elwir yn VAULT - yn storfa wybodaeth o wybodaeth reoli'r GIG, sydd wedi'i gynllunio i roi cipolwg ar y cyfleoedd sydd ar gael i wella'r defnydd o adnoddau.

- Bydd y dull gweithredu'n parhau i ddatblygu dros amser o ran ehangder a dyfnder, yn dibynnu ar argaeledd data, adnoddau a blaenoriaethau cymharol.
- Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i gynhyrchu amcangyfrifon ar gyfer 2025-26 yn ôl i 2019-20 (y flwyddyn sylfaen). Cyhoeddir yr amcangyfrifon hyn yng Nghyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru.

Rhagolygon ar gyfer cynhyrchiant

Yn fras, mae rhagolwg **tymor canolig canolog** diweddaraf yr OBR a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2026 yn cynnal rhagdybiaeth mis Tachwedd 2025 y bydd twf cynhyrchiant tua 1.0% y flwyddyn yn y tymor canolig.[17] Mae rhagolwg diweddaraf yr OBR yn dangos twf cynhyrchiant llafur yn y DU yn cynyddu 0.9% yn 2026. Mae'r twf yn arafu yn 2027 i 0.7%, yn bennaf oherwydd prisiau ynni uwch. Mae twf cynhyrchiant yn codi i 1.0% yn 2028 ac yn setlo ychydig yn uwch na'r gyfradd honno dros y blynyddoedd dilynol.

Cafodd y rhagolwg **tuedd tymor hir** ar gyfer twf cynhyrchiant[18] ei gynhyrchu gan yr OBR ym mis Gorffennaf 2026. Rhagwelir y bydd y duedd yn 1.4% dros y 50 mlynedd nesaf a bydd yn cynnwys 1.0% o dwf tuedd neu botensial cyfartalog blynyddol yn y degawd cyntaf ac yna 1.5% o dwf tuedd cyfartalog blynyddol yn y degawdau sy'n dilyn. Mae'r rhagolwg ychydig yn gryfach na'r enillion blynyddol cyfartalog o 1.3% a sicrhawyd mewn cynhyrchiant a fesurir gyda dull cydrannau yn y degawd cyn y pandemig. Mae'n llawer cryfach na'r enillion blynyddol cyfartalog o 0.7% a gofnodwyd ers 2019. Mae'r OBR yn pwysleisio bod tebygolrwydd uchel yn gysylltiedig â chanlyniadau eraill hefyd, bod gwell neu waeth.

[17] Economic and fiscal outlook – October 2026 - Office for Budget Responsibility

[18] Fiscal risks and sustainability 2026.

Deallusrwydd Artiffisial – effaith bosibl ar gynhyrchiant

Mae llenyddiaeth helaeth yn dangos bod arloesedd technolegol yn sbardun allweddol ar gyfer twf mewn cynhyrchiant. Mae hyn yn arbennig o wir am dechnolegau pwrpas cyffredinol fel yr injan stêm, trydan a'r rhyngrwyd. Os bydd deallusrwydd artiffisial yn symud i dechnoleg pwrpas cyffredinol, gallai gael effaith sylweddol, a thrawsnewidiol hyd yn oed o bosibl, ar dwf cynhyrchiant.[19] Mae'r potensial i ddeallusrwydd artiffisial hybu twf cynhyrchiant yn sylweddol yn dibynnu ar ba mor hawdd a chynhyrchiol y caiff ei integreiddio gan fusnesau mewn prosesau cynhyrchu, gan lywodraethau wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a pharodrwydd y cyhoedd i groesawu deallusrwydd artiffisial mewn gweithgareddau bob dydd fel defnyddio cynorthwywyr digidol er enghraifft.[20]

Gan fod AI, i bob pwrpas, yn dechnoleg newydd, mae unrhyw ragolwg sy'n mesur ei effaith ar dwf cynhyrchiant yn y dyfodol yn ansicr iawn. Mae'r OBR wedi nodi bod astudiaethau ymchwil yn awgrymu ystod eang o effeithiau posibl: 'Mae amcangyfrifon allanol yn awgrymu y gallai AI gynyddu twf cynhyrchiant blynyddol rhwng 0.1 a 3.4 pwynt canran yn y tymor hir'.[21]

Er mwyn sefydlu sut y gallai AI gyfrannu at dwf mewn cynhyrchiant yn y dyfodol, datblygodd yr OBR fodel seiliedig ar dasgau o farchnad lafur y DU ac fe wnaeth amcangyfrif pa dasgau neu alwedigaethau a oedd yn agored i gael eu hawtomeiddio gydag AI. Canfu bod 40% o dasgau'n debygol o gael eu hawtomeiddio dros y 10 mlynedd nesaf. Yn hollbwysig ac yn galonogol o safbwynt cyflogaeth gyfun yn y dyfodol, daeth yr OBR i'r casgliad y bydd y rhan fwyaf o alwedigaethau agored gael eu **hategu** yn hytrach na'u **disodli** gan AI.[22] Mae'r OBR yn amcangyfrif y byddai ymgorffori AI mewn galwedigaethau agored yn lleihau costau neu'n hybu cynhyrchiant tasgau agored o tua 30%.

Mae rhagolwg canolog yr OBR ar gyfer twf cynhyrchiant blynyddol o tua 1.0% yn cynnwys y cyfraniad hwn gan AI. Mae'r cyfraniad yn gyfyngedig iawn yn y tymor agos wrth i fusnesau a llywodraethau ddysgu sut i ddefnyddio AI mewn ffyrdd sy'n hybu cynhyrchiant. Wrth i broblemau cychwynnol gael eu datrys, gan arwain at greu a lledaenu AI ymhellach, mae'r OBR yn credu y gallai ei gyfraniad at dwf cynhyrchiant gynyddu. Erbyn diwedd y degawd hwn, mae'r OBR yn tybio y bydd AI yn cyfrannu 0.2 pwynt canran at dwf o ran tueddiadau cynhyrchiant. Erbyn canol y 2030au, gallai deallusrwydd artiffisial gyfrannu tua 0.4 pwynt canran at dwf o ran tueddiadau cynhyrchiant.

[19] Gweler, er enghraifft y blog McKinsey hwn: The new productivity paradox: When will AI boost UK productivity?

[20] Mae'r papur OECD hwn yn rhoi trosolwg da o effaith bosibl deallusrwydd artiffisial ar gynhyrchiant: The effects of generative AI on productivity, innovation and entrepreneurship (EN)

[21] Briefing_paper_No.9_Forecasting_productivity.pdf

[22] Yn ei Rhagolygon economaidd a chyllidol ym mis Mawrth 2026, mae'r OBR yn edrych ar senario lle mae AI yn dadleoli gweithwyr fel bod cyfradd diweithdra'r DU yn setlo ar 5.5% yn hytrach na 4.1%.

Mae barn yr OBR y dylai cynhyrchiant wella o'i gymharu â pherfformiad ar ôl y pandemig yn rhannol seiliedig ar dybiaeth y bydd dwysedd masnachu yn cynyddu wrth i effaith ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd wanhau. Mae'r OBR hefyd yn tybio y bydd enillion effeithlonrwydd yn cael eu gwireddu drwy ddatblygu a defnyddio AI. Ar ben hynny, disgwylir y bydd buddsoddiad gan y sector preifat a'r sector cyhoeddus i wella cynhyrchiant yn cynyddu. Mae'r cynnydd hwn mewn cyfalaf fesul gweithiwr, a elwir yn ddyfnhau cyfalaf, yn ffactor allweddol sy'n sail i enillion cynhyrchiant llafur yn gyffredinol.

Mae'r ffactorau a allai gynhyrchu twf cynhyrchiant **gwannach** o'i gymharu â rhagolwg canolog yr OBR yn cynnwys y potensial am fwy o greithio parhaol yn sgil siociau economaidd y 15 mlynedd diwethaf, dwysedd masnachu gwannach, costau uwch yn gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd a llai o fanteision yn deillio o AI. Gallai cynnydd yn amlder a pharhad hirach siociau negyddol fel y rhyfel yn Wcráin, sydd bellach yn ei phumed flwyddyn, a'r gwrthdaro presennol yn y Dwyrain Canol, hefyd niweidio rhagolygon cynhyrchiant dros y tymor canolig i'r tymor hir.


Demograffeg

Mae tueddiadau demograffig yn elfennau sylfaenol sy'n sbarduno perfformiad economaidd a'i gapasiti. Maent yn dylanwadu ar faint y gweithlu, patrymau o ran galw defnyddwyr, cynhyrchiant a phwysau ar wasanaethau cyhoeddus a chyllid cyhoeddus. O ganlyniad, gall newid demograffig arwain at oblygiadau pwysig o ran twf economaidd ac, yn y pen draw, ar safonau byw yn y dyfodol. Felly, mae deall tueddiadau demograffig Cymru yn hanfodol er mwyn asesu ffyniant a llesiant hirdymor Cymru.

Mae amcanestyniadau diweddaraf y SYG (sy'n seiliedig ar 2024) yn awgrymu y bydd poblogaeth Cymru yn codi o 3.19 miliwn yn 2025 i uchafbwynt o 3.22 miliwn erbyn 2035, cynnydd o tua 0.8%, cyn gostwng wedyn, fel y dangosir yn **Ffigur *8***.[23]

Ffigur 8 - Poblogaeth amcanestynedig yng Nghymru hyd at 2050

Testun amgen: Siart linell yn dangos poblogaeth amcanestynedig Cymru yn codi o tua 3.19m yn 2025 i ychydig dros 3.218m yng nghanol y 2030au. Mae llinell y boblogaeth wedyn yn gostwng yn raddol hyd at 2050.



Ffynhonnell: Amcanestyniadau Poblogaeth Cenedlaethol, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
Sylwer: Nid yw'r echelin fertigol yn cychwyn ar 0.


Rhagwelir y bydd newid naturiol yn lleihau poblogaeth Cymru gyda mwy o farwolaethau na genedigaethau, fel y dangosir yn **Ffigur 9**, ac mae disgwyl i fudo net

[23] Mae amcanestyniadau poblogaeth yn sensitif iawn i dybiaethau am ffactorau fel cyfraddau geni a mudo, sydd ynddynt eu hunain yn gallu bod yn swyddogaeth amodau economaidd neu bolisi'r llywodraeth. Er y gall gwallau ymddangos yn fach, mewn termau rhagfynegi, gall hyd yn oed newidiadau bach yn y rhagdybiaethau hyn gael effaith sylweddol ar ganlyniadau hirdymor y boblogaeth.

(rhyngwladol a mewnol) wrthbwyso hyn, gan arwain at dwf bach yn y boblogaeth tan tua 2035. O 2035 ymlaen, rhagwelir y bydd poblogaeth Cymru yn dechrau gostwng ar gyfradd gynyddol.

Ffigur 9 - Newidiadau blynyddol amcanestynedig o ran elfennau'r boblogaeth yng Nghymru hyd at 2050

Testun amgen: Siart golofn a siart linell wedi'u cyfuno sy'n dangos mudo net gan ychwanegu ychydig o dan 15,000 o bobl bob blwyddyn at boblogaeth Cymru rhwng 2026 a 2050. Mae newid naturiol yn lleihau'r boblogaeth tua 10,000 y flwyddyn i ddechrau, ond wedyn mae'n codi i dros 20,000 erbyn 2050. Gyda'i gilydd, byddai'r newidiadau hyn yn golygu bod cyfanswm y cynnydd yn y boblogaeth yng Nghymru yn lleihau, tan 2035, pan ddisgwylir i'r boblogaeth ddechrau gostwng.




Ffynhonnell: Amcanestyniadau Poblogaeth Cenedlaethol, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Rhagwelir y bydd proffil oedran Cymru yn newid yn sylweddol hefyd, **gweler Ffigur *10***. Rhagwelir y bydd cyfran y plant ac oedolion o oedran gweithio yn gostwng tra rhagwelir y bydd cyfran y bobl 65 oed a hŷn yn codi o 22.1% yn 2025 i 27.5% erbyn 2050.

Ffigur 10 - Proffil oedran amcanestynedig poblogaeth Cymru mewn blynyddoedd dethol, 2025 i 2050

Testun amgen: Siart bariau wedi'u pentyrru yn dangos sut mae disgwyl i gyfansoddiad oedran Cymru newid rhwng 2025 a 2050. Mae'r SYG yn rhagweld y bydd cyfran gynyddol o bobl hŷn a gostyngiad yng nghyfran yr oedran iau a'r oedran gweithio.



Ffynhonnell: Amcanestyniadau Poblogaeth Cenedlaethol, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol


Rhagwelir y bydd poblogaeth oedran gweithio Cymru (16 i 64) yn crebachu tua 3% erbyn 2050 o'i gymharu â'i lefel yn 2025.

Gan fod oriau gwaith a chyfraddau cyfranogi cyfartalog yn tueddu i fod ar eu huchaf yng nghanol oes ac wedyn yn dirywio ar ôl 40 oed ar hyn o bryd, gallai tueddiadau poblogaeth o'r fath – pe baent yn dod i'r amlwg – arafu twf economaidd oni bai eu bod yn cael eu gwrthbwyso gan enillion cynhyrchiant neu fesurau polisi.

Rhagwelir y bydd cyfran Cymru o boblogaeth gyfunol Cymru a Lloegr yn gostwng ar draws y prif grwpiau oedran, **gweler *Ffigur 11***. Y rheswm am hyn yw y rhagwelir y bydd Lloegr yn gweld mwy o gynnydd mewn poblogaethau oedrannus ac oedran gweithio na Chymru, tra bod grwpiau cyn-ysgol ac oedran ysgol yn gostwng yn gyflymach yng Nghymru. Gall y tueddiadau hyn effeithio ar dderbyniadau trethi datganoledig ac anghenion gwario dros amser.

Ffigur 11 - Rhagamcan o gyfran Cymru o boblogaeth gyfunol Cymru a Lloegr yn ôl grŵp oedran, o 2025 i 2050

Testun amgen: Siart far yn dangos cyfran ragamcanol Cymru o boblogaeth Cymru a Lloegr yn ôl grŵp oedran: 0 i 15, 16 i 64 a 65 oed a hŷn, yn 2025, 2035 a 2050. Mae cyfran Cymru o'r boblogaeth yn gostwng ar draws pob grŵp oedran ar gyfer 2025, 2035 a 2050. Rhwng 2025 a 2050, mae cyfran Cymru o'r boblogaeth sy'n 65 oed a hŷn, sy'n uwch na chyfran Cymru o'r boblogaeth gyfan, yn gostwng mwy na'r gyfran o'r boblogaeth gyfan. Mae carfannau oedran iau Cymru hefyd yn gostwng fel cyfran o boblogaeth Lloegr.



Ffynhonnell: Amcanestyniadau Poblogaeth Cenedlaethol, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol


Yn gyffredinol, ar sail y tueddiadau demograffig hyn, efallai na fydd Cymru'n wynebu cymaint o bwysau ychwanegol ar wasanaethau cyhoeddus â Lloegr, ond mae newidiadau yn y strwythur oedran yn debygol o symud anghenion gwario ar draws y grwpiau oedran. Fodd bynnag, dim ond un ffactor yw maint y boblogaeth sy'n siapio'r galw am wasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol, ac nid yw'n ystyried bod Cymru yn dechrau o sefyllfa lai ffafriol o ran anghenion y boblogaeth mewn perthynas â'r galw am wasanaethau cyhoeddus.

Disgwyliad Oes

Roedd disgwyliad oes adeg geni yng Nghymru ar gyfer y cyfnod rhwng 2022 a 2024 yn 82.2 o flynyddoedd i fenywod a 78.3 o flynyddoedd i ddynion, sy'n is nag ar gyfer y DU gyfan (gweler **Ffigur *12***). O'i gymharu â gwledydd eraill y DU, Cymru oedd â'r trydydd disgwyliad oes isaf adeg geni i fenywod a dynion; Lloegr oedd â'r uchaf (83.3 i fenywod, 79.4 i dynion), Gogledd Iwerddon yn ail (82.6 i fenywod, 78.8 i ddynion) a'r Alban yn bedwerydd (81.1 i fenywod, 77.1 i ddynion).

Ffigur 12 - Disgwyliad oes adeg geni i fenywod a dynion, 1980-1982 i 2022-2024 yng Nghymru a'r DU

Testun amgen: Siart linell yn dangos disgwyliad oes adeg geni menywod a dynion yng Nghymru a'r DU rhwng 1980 a 2024. Mae'n dangos bod gan fenywod ddisgwyliad oes uwch na dynion, a bod gan y rhai yn y DU ddisgwyliad oes ychydig yn uwch na'r rhai yng Nghymru. Gwelwyd tuedd gadarnhaol dros y blynyddoedd, felly mae disgwyliad oes wedi bod yn codi tan tua'r 2010au.



Sylwer: Nid yw'r echelin fertigol yn cychwyn ar sero
Ffynhonnell: Disgwyliad oes yn y DU: 2022 to 2024, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG)

Yng Nghymru, Sir Fynwy oedd â'r disgwyliad oes uchaf adeg geni i fenywod (84.6 o flynyddoedd), a Sir Fynwy, Bro Morgannwg a Phowys ar y cyd oedd â'r disgwyliad oes uchaf adeg geni i ddynion (80.3 o flynyddoedd). I ddynion, roedd disgwyliad oes ar ei isaf ym Merthyr Tudful (75.0 o flynyddoedd), a oedd yn ddigon isel iddo fod ymhlith y deg isaf ar gyfer disgwyliad oes ledled y DU ar sail awdurdodau lleol. Roedd disgwyliad oes adeg geni ar gyfer menywod ar ei isaf ym Mlaenau Gwent (79.2 o flynyddoedd), a oedd eto'n ddigon isel i gael ei osod ymhlith y 10 awdurdod lleol isaf yn y DU (roedd Merthyr Tudful hefyd yn y grŵp hwnnw, sef 79.7 o flynyddoedd).

O'i gymharu â'r cyfnod llawn diwethaf nad effeithiwyd arno gan bandemig y coronafeirws (2017 i 2019), mae'r ffigurau disgwyliad oes diweddaraf ar gyfer Cymru (ar gyfer 2022 i 2024) ychydig yn is. Roedd yr amcangyfrifon ar gyfer dynion oddeutu 4.6 wythnos yn is, ac 1.6 wythnos yn is ar gyfer menywod, yn 2022-24. Yn gyffredinol, mae disgwyliad oes yng Nghymru wedi dychwelyd i lefelau cyn y

pandemig. Yn y ffigurau diweddaraf ar gyfer 2022 i 2024, gwelwyd cynnydd bach o oddeutu 4 wythnos mewn disgwyliad oes i fenywod 65 oed yng Nghymru (o 20.56 mlynedd i 20.64 mlynedd) a thua 9 wythnos i ddynion (o 18.2 mlynedd i 18.4 mlynedd), o'i gymharu â 2017 i 2019.

Yn ogystal ag amrywio yn ôl gwlad yn y DU, mae lefelau amddifadedd hefyd yn effeithio ar ddisgwyliad oes adeg geni, gyda disgwyliad oes ar gyfer 2022-24 yn uwch yn ardaloedd lleiaf difreintiedig Cymru na'r ardaloedd mwyaf difreintiedig. Er enghraifft, roedd gan y rhai yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru ddisgwyliad oes adeg geni o 73.6 mlynedd i ddynion a 78.4 mlynedd i fenywod yn 2022-24; roedd yn 81.9 mlynedd i ddynion ac yn 85.1 mlynedd i fenywod yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig. Yn y data diweddaraf (2022-24), roedd y bwlch mewn disgwyliad oes adeg geni rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig yng Nghymru yn 8.3 mlynedd ar gyfer dynion ac yn 6.7 mlynedd ar gyfer menywod.

Disgwyliad Oes Iach


Mae disgwyliad oes iach (HLE) yn mesur blynyddoedd o fyw mewn iechyd da. Mae'n effeithio ar gyfranogiad a chynhyrchiant y gweithlu, y galw am ofal iechyd a gofal cymdeithasol, a refeniw treth. Felly, mae anghydraddoldebau iechyd Cymru yn bwysig i lesiant a ffyniant hirdymor.

Mae amcangyfrifon disgwyliad oes iach y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn defnyddio ymatebion i'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a gwaith modelu i fynd i'r afael â gostyngiad ym maint y sampl. Maent yn parhau'n ystadegau swyddogol o dan ddatblygiad).

Yn y data diweddaraf ar gyfer 2022 i 2024, gweler **Ffigur *13***, gostyngodd disgwyliad oes iach adeg geni ar gyfer menywod a dynion am y bedwaredd flwyddyn yn olynol i'r isaf erioed. Roedd disgwyliad oes iach adeg geni yng Nghymru yn 58.5 mlynedd ar gyfer menywod (71.2% o'u bywyd) a 59.2 mlynedd ar gyfer dynion (75.6% o'u bywyd) yn 2022 i 2024. Mae hynny'n sylweddol is na Lloegr ar gyfer dynion a menywod, a'r isaf yn y DU ar gyfer menywod. Roedd gan fenywod 65 oed yng Nghymru ddisgwyliad oes iach o 10.3 mlynedd yn 2022 i 2024, tra bo gan ddynion 9.6 mlynedd.

Ffigur 13 - Disgwyliad Oes Iach adeg geni yn ôl rhyw, Cymru, rhwng 2011 a 2013 a rhwng 2022 a 2024

Testun amgen: Siart linell yn dangos disgwyliad oes iach dynion a menywod adeg geni ers 2011. Mae'n dangos bod gan fenywod ddisgwyliad oes iach uwch na dynion, ond bod disgwyliad oes menywod wedi dechrau gostwng ar ddechrau'r 2010au, a disgynnodd yn is na dynion o 2020. Ers hynny, mae disgwyliad oes iach wedi bod yn gostwng ar gyfer dynion a menywod.



Sylwer: Nid yw'r echelin fertigol yn cychwyn ar sero.
Ffynhonnell: Healthy life expectancy, UK: between 2011 to 2013 and 2022 to 2024, SYG

Roedd menywod yng Nghymru wedi parhau i weld gostyngiad mawr mewn disgwyliad oes iach; yn 2022 i 2024 bu 5.3% o ostyngiad (3.3 blynedd) o'i gymharu â 2019 i 2021. Gwelodd dynion 3.4% o ostyngiad (2.1 mlynedd) mewn disgwyliad oes iach yn 2022 i 2024 o'i gymharu â 2019 i 2021. Mae'r data diweddaraf yn dangos bod disgwyliad oes iach menywod yng Nghymru yn parhau i fod yn is na'u cymheiriaid gwrywaidd – newid o'r gorffennol, ac yn wahanol i holl wledydd eraill y DU (gweler **Ffigur *14***). Cymru oedd â'r disgwyliad oes iach isaf ar gyfer menywod (58.5 mlynedd) o holl wledydd y DU yn 2022-24, a'r ail ddisgwyliad oes iach isaf ar gyfer dynion (59.2 mlynedd), y tu ôl i'r Alban yn unig. Mae disgwyliad oes iach menywod wedi gostwng tua phedair blynedd ers ei anterth yn 2013-15.

Ffigur 14 - Disgwyliad Oes Iach adeg geni yn ôl rhyw a Gwlad y DU, 2011-13 i 2022-24

Testun amgen: Pedair siart linell yn dangos disgwyliad oes iach ar gyfer dynion a menywod ar gyfer pob un o wledydd y DU rhwng 2011-13 a 2022-24.



Sylwer: Nid yw'r echelin fertigol yn cychwyn ar sero.
Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata'r SYG ar Disgwyliad Oes Iach

Mae menywod yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon[24] oll yn parhau i fod â disgwyliad oes iach uwch na'u cymheiriaid gwrywaidd, er bod maint y bwlch hwnnw wedi lleihau o'i gymharu â chyfnodau cynharach. Ar y llaw arall, mae Cymru wedi gwrthdroi'r patrwm hwn. Mae hefyd yn dangos mai trywydd yr Alban sydd agosaf at Gymru yn ôl pob golwg, sef gostyngiad serth a pharhaus o 2014-16 ymlaen, ond nid yw eto'n dangos anfantais i fenywod. Ond mae'r gwahaniaethau rhwng y gwledydd yn gymharol fach o ran y nifer absoliwt o flynyddoedd.

Disgwyliad Oes Iach yng Nghymru


Yng Nghymru, yr awdurdod lleol â'r disgwyliad oes iach isaf oedd Merthyr Tudful ar gyfer menywod (50.1 mlynedd) a dynion (51.7 mlynedd); Powys oedd â'r disgwyliad oes iach uchaf ar gyfer menywod (63.8 mlynedd) a dynion (64.2 mlynedd). Merthyr Tudful oedd â'r disgwyliad oes iach isaf ar gyfer menywod ar draws y DU gyfan. O'i gymharu â 2019-21, Merthyr Tudful oedd â'r gostyngiadau mwyaf mewn disgwyliad oes iach yng Nghymru (sef 5.2 mlynedd ar gyfer dynion a 6.7 mlynedd ar gyfer menywod). Caerffili a Bro Morgannwg oedd yr unig awdurdodau lleol a welodd gynnydd mewn disgwyliad oes iach ar gyfer dynion ers 2019-21 (1.1 a 0.5 mlynedd, yn y drefn honno). I fenywod, Caerffili oedd yr unig awdurdod lleol i weld cynnydd mewn disgwyliad oes iach (0.1 mlynedd).

Y gostyngiad yng nghyfran y bobl sy'n dweud eu bod mewn iechyd da neu dda iawn sy'n debygol o fod yn sbarduno'r gostyngiad parhaus mewn disgwyliad oes iach, yn enwedig ymhlith menywod. Cyhoeddodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol waith ar yr hyn sy'n sbarduno disgwyliad oes iach yn Lloegr. Adroddwyd bod iechyd a hunan-adroddwyd yn cael mwy o ddylanwad ar ddisgwyliad oes iach na chyfraddau marwolaethau, sy'n cadarnhau'r syniad hwn. Yn 65 oed, roedd gostyngiadau mewn disgwyliad oes iach yn llai amlwg nag adeg geni, ac roedd disgwyliad oes iach menywod yn parhau i fod yn hirach na'u cymheiriaid gwrywaidd (gweler **Ffigur *15***).

[24] Mae Gogledd Iwerddon yn dangos mwy o anwadalrwydd na'r gwledydd eraill, ac mae hynny'n adlewyrchu'r nifer llai o awdurdodau lleol. Mae disgwyliad oes iach menywod yn dangos adferiad byr yn 2022-24. Dylid mynd ati'n ofalus i ddehongli cydgyfeiriant ymddangosiadol Gogledd Iwerddon o ddisgwyliad oes iach benywod a dynion yn 2021-23 o ystyried maint bach y sampl cenedlaethol a'r newid yn yr arolwg dros gyfnod COVID; mae Adran Iechyd Gogledd Iwerddon (2025) yn nodi nad yw'r gostyngiad mewn disgwyliad oes iach dynion o 0.8 o flynyddoedd rhwng 2018-20 a 2022-24 yn arwyddocaol yn ystadegol.

Ffigur 15 - Disgwyliad oes iach yn 65 oed yn ôl rhyw, Cymru, 2011 i 2013 a 2022 i 2024

Testun amgen: Siart linell yn dangos disgwyliad oes iach yn 65 oed yng Nghymru ar gyfer menywod a dynion fesul cyfnodau treigl o dair blynedd, o 2011-13 i 2022-24. Mae menywod a dynion wedi gweld y duedd o ran disgwyliad oes iach yn codi dros amser, er bod disgwyliad oes iach menywod wedi dechrau o bwynt uwch (10.1 o'i gymharu â 9.1 mlynedd yn y drefn honno) ac mae'n dal yn uwch (sef 10.3 o'i gymharu â 9.6 mlynedd ar gyfer dynion). Mae disgwyliad oes iach dynion a menywod yn 65 oed wedi gostwng ers 2019-21.



Sylwer: Nid yw'r echelin fertigol yn cychwyn ar sero.
Ffynhonnell: Healthy life expectancy, UK: between 2011 to 2013 and 2022 to 2024, SYG

Fel y nodwyd yn flaenorol, gall lefelau amddifadedd effeithio ar ddisgwyliad oes adeg geni ac ar ddisgwyliad oes iach. Yn y data diweddaraf sydd ar gael - ar gyfer 2022 i 2024 - yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru, adeg geni gallai dynion ddisgwyl byw 49.7 mlynedd mewn iechyd da, sef 67.5% o'u disgwyliad oes, ac i fenywod roedd disgwyliad oes iach yn 47.3 mlynedd, sef 60.3% o'u disgwyliad oes. Yn ardaloedd lleiaf difreintiedig Cymru, y disgwyliad oes iach oedd 76.8 mlynedd i ddynion (83.7% o ddisgwyliad oes) a 66.3 mlynedd i fenywod (77.9% o ddisgwyliad oes). Roedd y bwlch mewn disgwyliad oes iach rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig yn uwch nag ar gyfer disgwyliad oes adeg geni, sef 18.1 mlynedd i ddynion ac 19.0 mlynedd i fenywod, sy'n godiad nad yw'n arwyddocaol yn ystadegol o'i gymharu â 2017-19.

Iechyd a safonau byw


Drwy edrych ar ddisgwyliad oes iach ochr yn ochr â lefelau incwm aelwydydd, ceir cipolwg gwerthfawr ar y berthynas rhwng ffyniant economaidd a llesiant. Mae cysylltiad cryf rhwng incwm aelwydydd a chanlyniadau iechyd, gyda phobl mewn aelwydydd incwm uwch fel arfer yn mwynhau cyfnodau hirach o iechyd da na'r rheini sydd ar incwm is.

Mae cysylltiad cadarnhaol rhwng incwm aelwydydd a disgwyliad oes iach yng Nghymru yn amlwg iawn ymysg y rhai a anwyd yn y cyfnodau rhwng 2012-14 a 2022-24, gweler **Ffigur *16***. Mae awdurdodau lleol sydd ag incwm gwario gros aelwydydd uwch yn cofnodi disgwyliad oes iach uwch yn gyson, tra bod y rhai sydd ag incwm aelwyd is yn tueddu i gofnodi bod pobl yn byw llai o flynyddoedd mewn iechyd da. Roedd Sir Fynwy mewn safle uchel ar gyfer incwm gwario gros aelwydydd a disgwyliad oes iach ar gyfer y rhai a anwyd yn y ddau gyfnod (y tu ôl i Bowys ar gyfer disgwyliad oes iach yn 2022-24, fel arall ar y brig ar gyfer pob un), ac roedd Blaenau Gwent yn y safle isaf ar gyfer y ddau fesur yn 2012-14 ac yn 2022-24. Mae'n ymddangos bod y berthynas wedi cryfhau, gyda llinell tuedd (doredig oren) 2022-24 yn eistedd yn gyson o dan linell 2012-14.[25]

[25] Mae'r ffaith bod y cyfnod cynharach yn uwch na thuedd y cyfnod diweddarach i'w ddisgwyl yn rhannol oherwydd chwyddiant; bydd incwm aelwydydd o'r un gwerth ariannol yn werth llai mewn termau real yn y cyfnod diweddarach.

Ffigur 16 – Disgwyliad oes iach adeg geni yn ôl incwm gwario gros aelwydydd yng Nghymru, gan gymharu 2012-14 a 2022-24

Testun amgen: Plot gwasgariad o incwm aelwydydd o'i gymharu â disgwyliad oes iach adeg geni ar gyfer pob ALl yng Nghymru ar gyfer y rhai a anwyd yn 2012-14 a 2022-24. Mae'n ymddangos bod perthynas gadarnhaol yn dal i fodoli, ac yn un sydd wedi cryfhau dros amser. Mae'r flwyddyn yn cyfeirio at y flwyddyn geni yn unig.



Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata'r SYG ar Disgwyliad Oes Iach a Incwm Gwario Gros Aelwydydd

Sylwer: Mae pob pwynt yn cynrychioli un o awdurdodau lleol Cymru. Mae llinellau toredig yn cyd-fynd â thueddiadau'r Model Ychwanegion Cyffredinol (GAM).

Mae **Ffigur 17** yn plotio'r un data, ar gyfer pedair gwlad y DU, ac eto'n canfod perthynas gadarnhaol yn gyson rhwng incwm aelwydydd a disgwyliad oes iach. Ym mhob gwlad Prydain Fawr, mae dosraniadau blynyddoedd geni 2022-24 yn is na'r rhai a welwyd yn 2012-14 ar y cyfan, sy'n dangos disgwyliad oes iach is ar draws y rhan fwyaf o lefelau incwm yn y cyfnod diweddaraf (ond heb gyfrif am chwyddiant).


Cymru sydd â'r incwm gwario gros aelwydydd canolrifol isaf y pen o blith holl wledydd y DU (£19,800 yn 2023), sydd tua 16% yn is na Lloegr. Mae'r anfantais hon o ran incwm strwythurol yn uniongyrchol gysylltiedig â safle disgwyliad oes is Cymru ac mae'n cyfyngu ar ba mor gyflym y gall iechyd y boblogaeth wella heb ddatblygiad economaidd cyfochrog.

Mae'r graddiant rhwng disgwyliad oes iach ac incwm aelwydydd wedi cynyddu yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac mae'n parhau i gryfhau yn Lloegr. Mae'r patrwm hwn ar draws y DU yn dangos bod anghydraddoldeb iechyd sy'n gysylltiedig ag incwm yn gwaethygu ar draws yr holl wledydd datganoledig, ond ei fod ar ei waethaf yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r dystiolaeth hon yn cadarnhau y gallai fod angen ymyrraeth wedi'i thargedu sy'n seiliedig ar le ac amddifadedd yn hytrach na dim ond dulliau cyffredinol.


Ffigur 17*[A-C]* - Disgwyliad Oes Iach yn ôl Incwm Gwario Gros Gwledydd y DU, 2012-14 (Gogledd Iwerddon 2014-16) a 2022-24

Testun amgen: Plot gwasgariad o incwm aelwydydd a disgwyliad oes iach ar gyfer pob un o wledydd y DU yn 2012-14 (Gogledd Iwerddon 2014-16) a 2022-24. Mae tuedd gadarnhaol i'w gweld ym mhob gwlad


A.



B.


2012-14
2022-24
Yr Alban
Disgwyliad Oes Iach (blynyddoedd)
Incwm Gwario Gros y Cartref y pen (£)
£15,000
£20,000
£25,000
£30,000
Ynysoedd Erch
Ynysoedd Shetland
Dwyrain Swydd Dunbarton
Perth a Kinross
Dwyrain Swydd Renfrew
Gororau'r Alban
Swydd Aberdeen
Ucheldir yr Alban
Na h-Eileanan Siar
Dwyrain Lothian
Argyll a Bute
Angus
Dinas Caeredin
Stirling
Moray
Dinas Aberdeen
Midlothian
Dumfries a Galloway
Gorllewin Lothian
De Swydd Lanark
Fife
De Swydd Ayr
Swydd Renfrew
Falkirk
Dwyrain Swydd Ayr
Dinas Dundee
Inverclyde
Swydd Clackmannan
Gogledd Swydd Ayr
Gogledd Swydd Lanark
Gorllewin Swydd Dunbarton
Dinas Glasgow

C.


2012-14
2022-24
Lloegr
Disgwyliad Oes Iach (blynyddoedd)
Incwm Gwario Gros y Cartref y pen (£)
£10,000
£20,000
£30,000
£40,000
£50,000
£60,000
Richmond upon Thames
Camden
Bryste, Dinas
Leeds
Stoke-on-Trent
Middlesbrough
Birmingham
Knowsley
Kingston-upon-Hull, Dinas
Barnsley
Blackpool

Sylwer: Nid yw'r siartiau'n cychwyn ar sero. Mae'r ddwy echelin ar gyfer Incwm Gwario Gros Aelwydydd a Disgwyliad Oes Iach yn amrywio yn ôl gwlad.
Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata'r SYG ar Disgwyliad Oes Iach a Incwm Gwario Gros Aelwydydd

Draen dawn?

Mae perthynas ddwy ffordd yn bodoli rhwng Cymru a Lloegr o ran sut mae myfyrwyr a graddedigion yn symud, fel y dangosir gyda data'r Canlyniadau Addysg Hydredol. O'r graddedigion sydd â'u domisil yng Nghymru a astudiodd yng Nghymru, roedd 95% yn byw yng Nghymru flwyddyn ar ôl graddio, ond roedd hynny'n gostwng i 83% ddeng mlynedd ar ôl graddio.

I'r rhai a astudiodd yn Lloegr, roedd tua 67% wedi dychwelyd i Gymru ar ôl blwyddyn, ond roedd hyn wedi gostwng i 49% ddeng mlynedd ar ôl graddio. Mae'r tebygolrwydd o adael Cymru yn codi ar yr un pryd ag y mae'r potensial o ran ennill cyflog yn cynyddu, ac mae hynny'n gyson â graddedigion yn ymateb i alw cryfach am lafur a chyflogau uwch mewn mannau eraill.

Gellir cymharu'r canfyddiadau hyn â data CThEF ar ymddygiad mudo talwyr treth incwm. Nid yw hyn wedi'i gyfyngu i raddedigion ond mae'n dangos symudiadau pob trethdalwr yn ôl oedran a band treth. Yn gyson â data'r Canlyniadau Addysg Hydredol, mae all-lif net o drethdalwyr o Gymru ar gyfer y rhai dan 35 oed. Fodd bynnag, dros 35 oed mae'r sefyllfa'n gwrthdroi ac mae mewnlif net o drethdalwyr i Gymru.[26]

Mae ystyriaethau economaidd nid yn unig yn cael eu heffeithio gan y mewnlifau a'r all-lifau, ond hefyd gan ansawdd swyddi, lefel enillion, a sgiliau. 10 mlynedd ar ôl graddio, roedd yr enillion canolrifol yn £35,500 ar gyfer graddedigion sydd â'u domisil yng Nghymru, o'i gymharu â £38,800 ar gyfer graddedigion sydd â'u domisil yn Lloegr a £39,500 ar gyfer graddedigion sydd â'u domisil yn yr Alban.

Ar y lefel gyfanredol, mae data mudo CThEF yn dangos bod incwm trethadwy Cymru (i bob pwrpas swm yr incwm trethadwy ar draws y trethdalwyr) wedi cynyddu bob blwyddyn ers 2016-17 o ganlyniad i'r symudiad net yn y DU. Y rheswm am hynny yw bod swm yr incwm trethadwy a enillir gan unigolion sy'n symud o Gymru i weddill y DU wedi bod yn is na'r incwm a enillir gan unigolion sy'n symud o weddill y DU i Gymru.

Yn y rhan fwyaf o flynyddoedd ers 2015-16, mae Cymru wedi gweld mewnlif net o drethdalwyr cyfradd sylfaenol, uwch ac ychwanegol (yr unig all-lif net oedd ar gyfer trethdalwyr cyfradd ychwanegol yn 2018-19). I'r gwrthwyneb, roedd all-lif net o'r rhai ar systemau CThEF sydd ag incwm o dan y lwfans personol.

Gyda'i gilydd, mae'r dystiolaeth yn awgrymu nad yw Cymru'n colli pobl sy'n gweithio ar y cyfan. Fodd bynnag, efallai fod problemau o ran cadw a denu rhai mathau o

[26] Nid oes gwybodaeth am raddedigion hŷn yn nata'r Canlyniadau Addysg Hydredol.

weithwyr a sgiliau sy'n gysylltiedig fwyaf â thwf cynhyrchiant a chynaliadwyedd cyllidol – yn enwedig y rhai sydd mewn grwpiau oedran iau. Felly, mae'r brif her polisi yn ymwneud yn llai â rhwystro allfudo yn gyffredinol ac yn fwy â deall cyfansoddiad y rheini sy'n symud a sicrhau bod Cymru'n denu, yn cadw ac yn datblygu'r sgiliau sy'n sbarduno twf economaidd hirdymor.

Safonau Byw

Mae chwyddiant, allbwn economaidd a chynhyrchiant yn rhoi cipolwg pwysig ar iechyd yr economi. Fodd bynnag, yr hyn sy'n bwysig yn y pen draw yw'r effaith y mae'r ffactorau hyn yn ei chael ar safonau byw pobl. Nid yw cynnydd economaidd ond yn ystyrlon os yw'n arwain at ganlyniadau gwell i aelwydydd a chymunedau.

Mae data incwm aelwydydd yn fesur pwysig o safonau byw, neu les materol unigolion a theuluoedd. Mae incwm gwario aelwydydd y pen yn dangos y swm cyfartalog sydd ar gael i bob unigolyn ar gyfer gwario neu gynilo ar ôl ystyried trethi, cyfraniadau cymdeithasol a budd-daliadau.

Fodd bynnag, mae cyfyngiadau yn perthyn i'r mesur hwn. Nid yw'n ystyried gwahaniaethau mewn oedran na chyfansoddiad aelwydydd, nid yw'n cynnwys costau ehangach fel tai, ac nid yw'n adlewyrchu gwerth y ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus. Mae hefyd yn dangos yr incwm (cymedrig) cyfartalog yn unig, heb nodi dosbarthiad incwm. Gellir mynd i'r afael â rhai o'r cyfyngiadau hyn drwy ddangosyddion ategol.

Fel y trafodwyd yn gynharach ac mewn fersiynau blaenorol o'r adroddiad hwn, mae twf is GDP y pen ers tuag adeg yr argyfwng ariannol o'i gymharu â chyfnodau blaenorol yn golygu bod twf incwm aelwydydd y DU wedi bod yn arafach nag mewn cyfnodau blaenorol.

Mae'r OBR yn rhagweld y bydd incwm aelwydydd y DU yn gostwng ychydig yn y tymor agos yn rhannol oherwydd prisiau uwch. Yn y tymor canolig, wrth i brisiau ynni ostwng, tybir y bydd incwm aelwydydd yn codi ychydig. Mae twf yn ystod y blynyddoedd diwethaf i 2031-32 ar gyfartaledd tua 0.75% y flwyddyn. Mae hyn yn debyg i'r twf cyfartalog ers 2010. Fodd bynnag, mae'r gyfradd dwf gymharol isel ac effaith prisiau uwch na'r disgwyl ym mis Mawrth 2026 yn golygu bod incwm aelwydydd dros 0.75% yn is na rhagolwg Mawrth 2026 ar gyfer 2030-31.[27] Gan edrych ar y rhagolygon yn fwy hirdymor, mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn crynhoi: 'Mae'n debyg mai'r degawd hwn fydd y degawd gwaethaf erioed o ran twf yn incwm aelwydydd.'.[28]

Yn gyffredinol, yn yr un modd â chynhyrchiant, rhagwelir y bydd safonau byw'r DU yn tyfu'n is o lawer na'r duedd hirdymor cyn yr argyfwng ariannol sef tua 2.5% y flwyddyn. Dros y tymor canolig, disgwylir i incwm aelwydydd a safonau byw Cymru ddilyn tueddiadau tebyg i'r rhai yn y DU. Fodd bynnag, yn y tymor agos, mae digwyddiadau yn y Dwyrain Canol yn cynrychioli risg fawr i'r rhagolwg hwn. Mae Cymru'n debygol o fod hyd yn oed yn fwy agored i niwed na chyfartaledd y DU

[27] Economic and fiscal outlook – October 2026 - Office for Budget Responsibility
[28] Cyllideb yr Hydref 2026 | Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid

oherwydd incwm aelwyd is, pwysau costau byw presennol, tlodi tanwydd aelwydydd uwch a chyfran uwch o ddiwydiannau ynni-ddwys.


Safonau byw yng Nghymru ac mewn mannau eraill yn y DU

Fel y nodwyd uchod, mae cynhyrchiant yn un o benderfynyddion allweddol safonau byw dros y tymor hir. Mae'n peri i gyflogau godi mewn ffordd gynaliadwy, ac mae hynny yn ei dro yn arwain at gynnydd mewn incwm aelwydydd. O ystyried bod cynhyrchiant yng Nghymru yn is na chyfartaledd y DU, mae safonau byw yn debygol o adlewyrchu hyn.

Mae safonau byw yn ôl gwlad a rhanbarthau Lloegr o'i gymharu â'r DU fel y'u mesurir gan Incwm Gwario Go Iawn Aelwydydd y pen y SYG yn cael ei ddangos isod, ***Ffigur* 18**. Mae cyfartaledd Llundain yn uwch na chyfartaledd y DU, sef 139.3%. Ar gyfer y cyfnod diweddaraf sydd ar gael, 2024, Incwm Gwario Go Iawn Aelwydydd y pen yng Nghymru (82.2% o'r DU) oedd yr ail isaf ymysg gwledydd a rhanbarthau'r DU, yn uwch na Gogledd-ddwyrain Lloegr (79.0%), ond nid yw'n annhebyg i Swydd Efrog a Humber, Gorllewin Canolbarth Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Ffigur 18 - Incwm Gwario Go Iawn Aelwydydd y pen (Y DU =100) yn ôl gwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr, 2024

Testun amgen: Siart far yn dangos incwm gwario go iawn aelwydydd y pen yn ôl gwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr ar gyfer 2024, o'r isaf i'r uchaf. Mae'n dangos Cymru tuag at y pegwn isaf, sef 82.2% o ffigur y DU, ychydig yn uwch na Gogledd-ddwyrain Lloegr. Llundain a De-ddwyrain Lloegr oedd â'r gwerthoedd uchaf.



Ffynhonnell: SYG

Fel yr adroddwyd yn Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru 2025, mae'r bwlch rhwng Cymru a'r DU o ran incwm gwario gros aelwydydd y pen wedi ehangu dros y tymor hwy. Mae perfformiad rhanbarthau tebyg i Gymru yn debyg. Fodd bynnag, rhwng 2023 a 2024, cynyddodd incwm gwario gros aelwydydd y pen ar ôl cyfrif am chwyddiant yng Nghymru 3.4% yn uwch na Lloegr (2.7%) a phob rhanbarth o'r Lefel Diriogaethol Ryngwladol 1 ynddi. Roedd Gogledd Iwerddon (4.1%) a'r Alban (3.7%) hefyd wedi tyfu mwy na Lloegr.

Mae mesur Incwm Gwario Gros Aelwydydd ar lefel Cymru hefyd yn ddangosydd cenedlaethol: (10) Incwm Gwario Gros Aelwydydd y pen ac a gofnodwyd hefyd ym mhennod Cymru Lewyrchus adroddiad Llesiant Cymru, ac fe'i defnyddir fel un o'r dangosyddion cenedlaethol (i wella GDHI y pen erbyn 2035).

Mesuron incwm aelwydydd eraill

Mae'r Arolwg o Adnoddau Teulu yn ffynhonnell arall o wybodaeth am incwm aelwydydd yng Nghymru a'r DU.[29] Mae'r arolwg yn caniatáu cyfrifo mesur incwm canolrifol aelwydydd. Mae incwm canolrifol aelwydydd yn cynnwys yr holl ffynonellau incwm gan holl aelodau'r aelwyd, gan gynnwys dibynyddion, ac mae'n cael ei addasu ('cyfwerthu') i ganiatáu ar gyfer cyfansoddiad aelwydydd. Mae felly'n adlewyrchu profiad aelwyd nodweddiadol, ac fe gaiff ei ystyried yn eang fel y mesur mwyaf cynrychioliadol o safonau byw materol.

Fel yr esboniwyd mewn datganiad blaenorol gan Lywodraeth Cymru (yn yr adran gwybodaeth ansawdd a methodoleg), mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn newid sut mae ystadegau'r Arolwg o Adnoddau Teulu yn cael eu cynhyrchu i wella ystadegau tlodi ac incwm aelwydydd.

Y prif newid eleni yw bod gwybodaeth am brif fudd-daliadau'r wladwriaeth a chredydau treth bellach yn seiliedig ar ddata gweinyddol yn hytrach nag ymatebion i arolwg, er mwyn lleihau incwm sydd ar goll neu heb ei gofnodi'n ddigonol. Weithiau, cyfeirir at y dull gwell fel data sy'n gysylltiedig â gweinyddu; a chyfeirir at ddata nad yw'n destun y newid fel data digyswllt.

Mae'r newid yn berthnasol i 2021-22 ymlaen. O ganlyniad, mae'r cyfartaledd 3 blynedd cyntaf a gynhyrchir ar y sail newydd yn ymwneud â 2020-21 i 2022-23 (oherwydd materion sy'n effeithio ar 2020-21).

Mae mesurau incwm isel allweddol ar ôl y pwynt hwn wedi newid, gan greu toriad yn y gyfres ddata yn 2021-22. Ni ddylai defnyddwyr gymharu'r mesurau incwm isel yn uniongyrchol ar draws y toriad hwn.

Mae defnyddio'r canolrif yn hytrach na'r cymedr yn rhoi cymhariaeth gliriach o lefelau incwm rhwng Cymru a'r DU, gan ei fod yn adlewyrchu'r lefel arferol yn well ac mae gwerthoedd eithafol yn effeithio llai arno.[30] Yn y cyfnod diweddaraf, 2022-23 i 2024-25, £662 oedd yr incwm wythnosol cyfwerth â chanolrif aelwydydd (cyn costau tai) yng Nghymru.[31] Mae hyn yn 94% o'r ffigur cyfatebol ar gyfer y DU gyfan (£701) a dyma'r pumed isaf (ar y cyd â Dwyrain Canolbarth Lloegr) ar gyfer holl wledydd y DU a rhanbarthau Lloegr, a dim ond y Gogledd-orllewin (£656), Swydd Efrog a Humber (£648), Gogledd-ddwyrain Lloegr (£647) a Gorllewin Canolbarth Lloegr (£646) sy'n is.[32] Llundain oedd â'r incwm wythnosol cyfwerth â chanolrif aelwydydd uchaf, sef £789.


[29] Family Resources Survey: background information and methodology - GOV.UK
[30] Mae'r rhesymau dros y gwahaniaeth rhwng y mesur cymedrig o incwm o'r Arolwg o Adnoddau Teulu ac Incwm Gwario Gros Aelwydydd yn cael eu harchwilio yn Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru 2024 t. 27. Mae'r Resolution Foundation hefyd wedi cyhoeddi esboniad defnyddiol ar y gwahaniaethau rhwng y ddau fesur hyn a ddefnyddir i olrhain incwm aelwydydd.
[31] Mae'r data diweddaraf ar gyfer y cyfnod o dair blynedd rhwng 2022-23 a 2024-25.
[32] Byddai'r bwlch hwn yn cael ei leihau drwy addasu ar gyfer costau byw is yng Nghymru.

Dros yr un cyfnod ac ar ôl didynnu costau tai, Gorllewin Canolbarth Lloegr oedd â'r incwm wythnosol canolrifol isaf o hyd sef 93% o ffigur y DU (£563), a De-ddwyrain Lloegr oedd â'r uchaf sef 110% o ffigur y DU (£669). Mae cost uchel tai yn Llundain yn golygu bod incwm yn is nag yn Ne-ddwyrain Lloegr ar ôl ystyried y rhain. Incwm wythnosol cyfwerth â chanolrif aelwydydd (ar ôl costau tai) yng Nghymru oedd 97% (£586) o'r lefel ar gyfer y DU gyfan (£606). Felly, mae'r mesur ar ôl costau tai yn lleihau'r bwlch rhwng Cymru a'r DU gyfan gan fod costau tai Cymru yn is.[33]

[33] Fel y crybwyllwyd yn Labour market, living standards and poverty trends in Wales, mae hyn yn bennaf oherwydd prisiau prynu tai is (gan gynnwys pris fesul troedfedd sgwâr) a rhenti preifat yng Nghymru o'i gymharu â gweddill y DU (Zoopla, 2024; y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2026).

Ffigur 19 - Incwm wythnosol cyfwerth â chanolrif aelwydydd ar gyfer pob unigol yn ôl gwledydd y DU a rhanbarth Lloegr, ar ôl costau tai (Y DU=100%)

Testun amgen: Siart linell yn dangos incwm canolrifol aelwydydd ar gyfer Cymru, Llundain a De-ddwyrain Lloegr ynghyd ag ardal dywyll sy'n dynodi'r ystod ar gyfer holl wledydd eraill y DU a rhanbarthau Lloegr. Mae Cymru tua 95% o ganolrif y DU, tua chanol yr holl ardaloedd eraill, gyda De-ddwyrain Lloegr yr uchaf ac yn uwch na'r DU.



Sylwer: Nid yw echelin y siart yn cychwyn ar sero. Mae'r ardal sydd wedi'i thywyllu'n dangos uchafswm ac isafswm gwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr ac eithrio Llundain a De Ddwyrain Lloegr. O 2021/22 ymlaen, mae data'r arolwg wedi cael ei integreiddio â chofnodion gweinyddol yr Adran Gwaith a Phensiynau a CThEF. Mae'r dull gwell hwn yn arwain at doriad yn y gyfres rhwng 2020/21 a 2021/22 ac nid oes modd cymharu data incwm cyn ac ar ôl y toriad.
Ffynhonnell: Ystadegau Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog, yr Adran Gwaith a Phensiynau

Dros y 15 mlynedd diwethaf, mae incwm canolrifol aelwydydd yng Nghymru wedi bod yn gyson is nag ar gyfer y DU gyfan a llawer o wledydd eraill y DU a rhanbarthau Lloegr, fel y gwelir yn **Ffigur *19***. Fodd bynnag, mae'r bwlch rhwng Cymru a'r DU yn gyffredinol wedi lleihau o tua 7-8% yn 2013-14 i 2016-17 i 3% yn y data diweddaraf (2022-23 – 2024-25). Yr ardaloedd eraill o blith gwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr sydd hefyd ag incwm canolrifol aelwydydd sy'n gyson is na chyfartaledd y DU ac oddeutu'r un fath â Chymru dros yr un cyfnod yw Gogledd-ddwyrain Lloegr, Gogledd-orllewin Lloegr, Swydd Efrog a Humber, a Gorllewin

Canolbarth Lloegr. Fel y dywedodd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (2026), mae twf incwm Cymru wedi bod yn wan ers diwedd y 2000au (yn yr un modd a gweddill y DU), gyda dim ond 0.7% o gynnydd y flwyddyn mewn termau real ar gyfartaledd ers dechrau'r 2010au ac ychydig iawn o dwf ers y pandemig.[34]

Mae mesurau safonau byw sy'n seiliedig ar incwm, fel y rhai uchod, yn tueddu i hepgor buddion ehangach nad ydynt yn arian parod a ddarperir gan wasanaethau cyhoeddus. Cyfeirir at y rhain yn aml fel 'buddion mewn nwyddau'. Defnyddiodd Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru 2025 ddata i ddangos bod y rhain yn debygol o ychwanegu at incwm yng Nghymru o'i gymharu â'r rhan fwyaf o ranbarthau a gwledydd eraill y DU, gan leihau'r bwlch, efallai tua dau bwynt canran rhwng Cymru a chyfartaledd y DU.[35] Mae cynnwys buddion mewn nwyddau yn berthnasol ond mae ei effaith ar y gwahaniaeth rhwng Cymru a'r DU yn llai nag effaith y system dreth a budd-daliadau.

Tlodi incwm cymharol

I archwilio sut mae dosbarthiad incwm aelwydydd yn cymharu yng Nghymru, yn enwedig y rheini tuag at y pegwn isaf, mae'n ddefnyddiol ystyried data ar ganran y bobl sy'n byw mewn tlodi.


Daw data ar gyfer tlodi incwm cymharol o'r adroddiad Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog a gyhoeddwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau[36]. Yn ôl diffiniad data Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog, mae person yn byw mewn tlodi incwm cymharol os yw'n byw mewn aelwyd lle mae cyfanswm incwm yr aelwyd o bob ffynhonnell yn llai na 60% o incwm (canolrifol) cyfartalog aelwydydd y DU.

Rhwng y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2023 a'r flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2025, roedd 22% o holl bobl Cymru yn byw mewn tlodi incwm cymharol (ar ôl costau tai)[37] – gweler **Ffigur *20***. Mae canran y bobl sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol wedi bod yn gymharol sefydlog yng Nghymru dros y ddau ddegawd diwethaf.

[34] Labour market, living standards and poverty trends in Wales
[35] Gweler Effects of taxes and benefits on household income - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
[36] Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025). Households Below Average Income: An analysis of the UK income distribution: FYE 1995 to FYE 2025 - GOV.UK
[37] Mae dadansoddiadau data eraill ar gael, er enghraifft: plant/oedolion o oedran gweithio/pensiynwyr mewn tlodi incwm cymharol; a, thlodi incwm cymharol yn ôl grŵp oedran, deiliadaeth tai, statws economaidd a math o gyflogaeth, nodweddion teuluol, ethnigrwydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, statws mudwr, a statws diogeledd bwyd aelwydydd.

Ffigur 20 - Canran yr holl unigolion sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol yn ôl gwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr, diwedd blwyddyn ariannol 2023 i 2025

Testun amgen: Siart far yn dangos canran yr unigolion sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol cyn ac ar ôl costau tai, ar gyfer holl wledydd y DU a rhanbarthau Lloegr, ynghyd â'r DU gyfan. Mae costau tai yn cynyddu'r gyfran mewn tlodi ar gyfer pob ardal ar wahân i Ogledd Iwerddon (yr un fath â chyn costau tai). Mae safle Cymru tuag at y pen uchaf ar gyfer y ddau fesur.



Ffynhonnell: Ystadegau Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog, yr Adran Gwaith a Phensiynau

Yn Lloegr, roedd canran y bobl a oedd yn byw mewn tlodi incwm cymharol (ar ôl costau tai) ychydig yn is nag yng Nghymru, sef 20% rhwng diwedd blwyddyn ariannol 2023 a diwedd blwyddyn ariannol 2025. Yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, y ffigurau oedd 17% ac 14% yn y drefn honno. O holl ranbarthau Lloegr, dim ond yn is na Llundain oedd y gyfradd tlodi incwm cymharol yng Nghymru. Ar fesur cyn costau tai, roedd canran y bobl a oedd yn byw mewn tlodi incwm cymharol yng Nghymru (19%) yr un fath â Swydd Efrog a Humber (roedd y cyfraddau yn is ym mhob gwlad arall yn y DU a rhanbarthau eraill Lloegr).[38]


Yng Nghymru, roedd 32% o blant yn byw mewn tlodi incwm cymharol yn 2022-23 i 2024-25 (gweler **Ffigur *21***). Mae hyn wedi codi ychydig o 30% yn y cyfnod blaenorol (ffigur diwygiedig ar gyfer 2021-22 i 2023-24). Fodd bynnag, daw'r data hwn o arolwg, felly mae angen bod yn ofalus wrth ddehongli newid dros y tymor byr gan fod tueddiadau'n gallu bod yn gyfnewidiol oherwydd y meintiau sampl bach. Mae'r ddau bwynt canran hwn o gynnydd o fewn ystod amrywiad tymor byr nodweddiadol a welir

[38] HBAI (2026) Tlodi incwm cymharol: Ebrill 2024 i Fawrth 2025 | LLYW.CYMRU

ar gyfer y mesur hwn, ac nid yw'n ystadegol arwyddocaol. Yn Lloegr, roedd canran y plant a oedd yn byw mewn tlodi incwm cymharol ychydig yn is na Chymru, sef 29% rhwng 2022-23 a 2024-25 (ond eto mae'n debygol o fod o fewn ystod arwyddocâd ystadegol). Yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban, y ffigurau oedd 21% ac 19% yn y drefn honno.

Ffigur 21 - Canran y plant ym mhob gwlad yn y DU sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol, incwm canolrifol aelwydydd, cyfartaleddau tair blynedd ariannol

Testun amgen: Siart linell yn dangos canran y plant mewn tlodi cymharol ar gyfer gwledydd y DU. Yr Alban a Gogledd Iwerddon sydd â'r cyfrannau isaf, sef tua 20%, tra bo Cymru a Lloegr yn nes at 30%.



Sylwer: Nid oes modd cymharu data o'r flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2021 i 2023 â'r cyfnodau blaenorol yn sgil cyflwyno data gweinyddol integredig ar fudd-daliadau na ddefnyddiwyd o'r blaen.
Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Set ddata Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog yr Adran Gwaith a Phensiynau, yn seiliedig ar Arolwg o Aelwydydd Teulu.

Yn gyffredinol, effaith defnyddio data gweinyddol cysylltiedig fu gostwng cyfraddau tlodi incwm cymharol ar gyfer gwahanol grwpiau un neu ddau bwynt canran o'i gymharu â'r dull blaenorol, ond mae hyn yn amrywio o gynnydd bach iawn ar gyfer rhai ffigurau tlodi plant, i ostyngiad o bedwar pwynt canran ar gyfer tlodi pensiynwyr mewn un cyfnod. Mae patrymau o ran amrywiadau mewn tlodi incwm cymharol

rhwng gwahanol grwpiau (fel oedran, statws economaidd a math o deulu) yn eithaf tebyg i'r rhai a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol.

Cyflwynwyd mesur newydd ar gyfer tlodi materol dwfn i gofnodi plant sy'n profi lefel ddyfnach o dlodi na'r rhai a nodwyd yn yr ystadegau tlodi incwm cymharol. Mae'r mesur tlodi materol dwfn yn seiliedig ar amddifadedd materol, yn benodol a oes diffyg o leiaf bedair o'r 13 eitem amddifadedd materol hanfodol mewn teuluoedd.[39] Yng Nghymru, roedd 10% o blant mewn tlodi materol dwfn yn y cyfnod rhwng y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2024 a'r flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2025.[40] Mae hyn yn cyfateb i 67,000 o'r 650,000 o blant sy'n byw yng Nghymru. Mae hyn yn cymharu â 14% o blant yn Lloegr, 11% o blant yn yr Alban, a 7% o blant yng Ngogledd Iwerddon.

Mae anghydraddoldeb incwm yn is yng Nghymru nag yng ngweddill y DU yn ôl y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (2026), ond y rheswm am hyn yw bod y bwlch mewn incwm rhwng Cymru a gweddill y DU yn arbennig o fawr ar frig y dosbarthiad, ac nid oherwydd bod aelwydydd tlotach ac aelwydydd incwm canol yn well eu byd. Mae incwm yng Nghymru hefyd yn is ar bob pwynt yn y dosbarthiad: o'i gymharu â gweddill y DU, mae tua 4% yn is ar y 10fed canradd, ond 13% yn is ar y 90ain canradd, er nad oes data cwbl gyfredol ar anghydraddoldeb incwm yng Nghymru.

Mae incwm gwario aelwydydd Cymru y pen tua 81% o gyfartaledd y DU, sy'n golygu ei fod ochr yn ochr â rhanbarthau incwm canol is mewn economïau datblygedig.[41] Mae cymariaethau â rhanbarthau Ewropeaidd sydd mewn sefyllfa debyg yn rhoi mwy o wybodaeth na'r rhai â'r dinasoedd cyfoethocaf neu'r ardaloedd tlotaf. Dim ond darlun rhannol o safonau byw y mae'r ffigurau hyn yn ei roi, gan nad ydynt yn adlewyrchu costau lleol, cyfoeth, anghydraddoldeb na gwasanaethau cyhoeddus yn llawn.

Safonau byw ar sail defnydd

Gall data defnydd roi cipolwg ategol ar dlodi a safonau byw. Cyhoeddir data gwariant rhanbarthol gan y SYG. Mae'n cynnwys yr holl wariant ar nwyddau a gwasanaethau gan drigolion rhanbarth neu wlad yn y DU, ni waeth ble mae'r gwariant hwnnw'n digwydd.


Mae data economaidd rhanbarthol ar allbwn economaidd (GDP), incwm aelwydydd (incwm gwario gros aelwydydd) a gwariant defnydd terfynol aelwydydd y pen o'i

[39] Mae rhestr lawn o'r eitemau hyn i'w gweld yn yr adroddiad Deep material poverty: Financial year ending 2024 (Yr Adran Gwaith a Phensiynau).
[40] Bydd yn cymryd tan y gwanwyn 2027 cyn i ni gael y cyfartaleddau tair blynedd a ddefnyddir fel arfer i gynhyrchu amcangyfrifon cadarn ar gyfer dadansoddiadau manwl fel ar gyfer gwledydd. Fodd bynnag, o ystyried pwysigrwydd y metrig newydd hwn, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi cyhoeddi'r amcangyfrifon cyntaf o dlodi materol dwfn ar gyfer gwledydd a rhanbarthau'r DU yn adroddiad eleni, fel cyfartaleddau dwy flynedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben yn 2024 i'r flwyddyn a ddaeth i ben yn 2025.
[41] OECD Regional Well-Being Indicators

gymharu â'r DU i gyd yn dangos bod Cymru'n gyson yn gryfach ar incwm a gwariant cymharol aelwydydd nag allbwn economaidd.

Ffigur 22 - Incwm aelwydydd (incwm gwario gros aelwydydd), allbwn economaidd (GDP), a gwariant aelwydydd (gwariant defnydd terfynol aelwydydd) y pen, ym mynegai Cymru (y DU=100), 2009-2023

Testun amgen: Siart linell yn dangos incwm aelwydydd, gwariant aelwydydd ac allbwn economaidd i gyd yn berthynol i gyfartaledd y DU. Mae'n dangos bod gwariant yn nes o lawer at lefel y DU (allan o 100) nag incwm aelwydydd ac yn enwedig o'i gymharu â gweithgarwch economaidd.




Sylwer: Nid yw'r echelinau'n cychwyn ar sero
Ffynonellau: Incwm Gwario Gros Aelwydydd StatsCymru yn ôl ardal a mesur | StatsCymru, Regional economic activity by gross domestic product, UK - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Regional household final consumption expenditure, UK - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Gellir dadansoddi gwariant yn ôl Dosbarthiad Defnydd Unigol yn ôl Diben (COICOP), fel yn **Ffigur *23.*** Mae'n cynnwys tai, bwyd, trafnidiaeth a hamdden. Gall dadansoddi'r rhain helpu i egluro ble mae gwahaniaethau mewn gwariant rhwng Cymru a'r DU. Mae costau tai is yn egluro rhan fawr o'r gwahaniaeth mewn gwariant rhwng Cymru a'r DU. Mae Cymru'n gwario mwy ar Hamdden a diwylliant; Bwytai a Gwestai; Alcohol, tybaco a chyffuriau; ac Iechyd. Fodd bynnag, pan fydd tai'n cael eu hepgor, mae cyfansoddiad y gwariant yn debyg iawn rhwng Cymru a'r DU, dim ond hyd at un pwynt canran o wahaniaeth o gyfran y DU, ar wahân i Hamdden a diwylliant, sydd ddau bwynt canran yn uwch yng Nghymru fel cyfran o wariant nad yw'n ymwneud â thai.

Ffigur 23 - Gwahaniaethau mewn gwariant rhwng aelwydydd yng Nghymru a'r DU yn ôl math o wariant, 2023

Testun amgen: Siart far yn dangos sut mae gwariant aelwydydd yng Nghymru yn wahanol i'r DU, mewn punnoedd sy'n cael eu gwario yn ôl gwahanol fathau o wariant. Mae'n dangos bod llai'n cael ei wario yng Nghymru ar dai, bron i £1900 y flwyddyn ar gyfartaledd, gyda mwy'n cael ei wario ar hamdden a diwylliant (tua £500 yn fwy), a bwytai a gwestai (tua £300 yn fwy).



Ffynhonnell: Regional household final consumption expenditure, UK - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Newid Hinsawdd

Y newid yn yr hinsawdd yw un o'r problemau mwyaf sy'n wynebu economïau Cymru, y DU a'r byd, ac mae iddo oblygiadau hirdymor. Bydd yn gwneud hyn drwy dair prif sianel: lliniaru allyriadau, addasu a difrod. Mae'r adran hon yn ymdrin â lliniaru ac addasu yn unig.[42]

Lliniaru allyriadau

Mae Cymru'n parhau i wneud cynnydd o ran datgarboneiddio yn unol ag ymrwymiadau sero net – fel y dangosir yn **Ffigur *24***. Mae'r data diweddaraf ar allyriadau yng Nghymru, ar gyfer 2024, yn dangos 44% o ostyngiad ers blwyddyn sylfaen 1990 (heb ei ddangos), er bod y graddau mae hyn yn wir yn amrywio yn ôl sector.


Y sectorau diwydiant a chyflenwad trydan sy'n sbarduno'r gostyngiad hwn yn bennaf yn y tymor hir. Ym myd diwydiant, mae hyn wedi cael ei sbarduno gan ostyngiad yn yr allyriadau o gynhyrchu haearn a dur. Yn y flwyddyn ddiweddaraf, roedd cau Port Talbot yn benodol wedi cael effaith fawr ar yr is-sector hwn. O ran cyflenwad trydan, mae hyn wedi cael ei sbarduno drwy symud oddi wrth lo i nwy ac, yn gynyddol, ffynonellau cynhyrchu adnewyddadwy. Cyfrannodd ffynonellau adnewyddadwy 37% at gyfanswm y trydan a gynhyrchwyd yng Nghymru yn 2024.[43]

Er mwyn cyrraedd allyriadau sero net, mae angen gostyngiadau pellach ar draws pob sector, yn enwedig diwydiant, cyflenwad trydan a thrafnidiaeth yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd yn rhoi rhagolwg ar sut y gellir cyflawni hynny. Mae'r gostyngiad mewn allyriadau cyflenwad trydan ar ddiwedd y 2020au yn deillio o ostyngiad cyflym mewn cynhyrchu trydan o nwy di-dor. Newid tanwydd ar draws yr economi sy'n sbarduno'r gostyngiad mewn allyriadau cyflenwad tanwydd yn 2040, gan arwain at ostyngiad mewn allbwn cynhyrchu o burfeydd olew.

[42] Greenhouse Gas Inventories for England, Scotland, Wales & Northern Ireland: 1990-2024 | Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol
[43] Cynhyrchu a Defnydd Ynni yng Nghymru, Llywodraeth Cymru

Ffigur 24 - Alldro allyriadau nwyon tŷ gwydr a rhagolygon yn ôl sector yng Nghymru, 2000 i 2050

Testun amgen: Siart linell o allyriadau nwyon tŷ gwydr yn ôl sector rhwng 2000 a 2050 yng Nghymru. Mae'n dangos gostyngiad mewn allyriadau ym mhob sector, yn enwedig y ddau sector â'r allyriadau mwyaf sef cyflenwad trydan a Diwydiant. Yn 2024, roedd allyriadau trafnidiaeth wedi goddiweddyd y cyflenwad trydan i fod yr ail sector allyriadau uchaf.



Ffynhonnell: Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol (2026), Greenhouse Gas Inventories for England, Scotland, Wales & Northern Ireland: 1990-2024 a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd: 2025-2050

Nodiadau: Mae eraill yn cynnwys nwyon wedi'u fflworeiddio ac alldyniadau peirianyddol

Bydd costau a manteision i gymdeithas yn sgil newid i sero net. Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd wedi cyhoeddi dadansoddiad atodol ar gyfer y Seithfed Gyllideb Garbon gyda dadansoddiad cost a budd o'r newid ar lefel y DU, rhwng 2025 a 2050 (y flwyddyn darged ar gyfer cyflawni allyriadau sero net ac sy'n rhwymo Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU mewn cyfraith. Mae ei amcangyfrif cymhareb cost a budd canolog o 3.3 yn golygu bod disgwyl i werth y manteision fod mwy na thri-i-un yn fwy na'r costau. Mae'r dadansoddiad atodol yn ystyried ystod ehangach o gostau a

manteision i gymdeithas ac, er ei fod yn cael ei gynnal ar lefel y DU, ystyrir ei fod yn gynrychioladol yn fras o Gymru.[44]


O ran costau, gwariant cyfalaf yw'r elfen fwyaf, er bod hyn yn lleihau gydag amser. Mae costau llai eraill hefyd o wariant gweithredu a chostau cydeffaith (y syniad y bydd amser teithio'r cynyddu yn sgil newid tybiedig i fwy o deithio llesol), er bod y rhain yn llawer llai. Yn unol â'i ddadansoddiad gwreiddiol i gyd-fynd â Chyngor y Seithfed Gyllideb Garbon sy'n ystyried costau a manteision ariannol yn unig, daw'r llwybr yn arbediad cost net o 2041 ymlaen.

O ran manteision, cynhwysir manteision cymdeithasol. Mae cydeffeithiau, gan gynnwys gwell ansawdd aer, inswleiddio, diogelwch ar y ffyrdd ac ansawdd, a deietau yn cael eu mesur, ynghyd â gwerth niwed a osgoir yn sgil lleihau allyriadau carbon.[45] Mae'r costau sy'n crebachu'n gyson yn cael eu gwrthbwyso fwyfwy gan werth cynyddol y buddion hyn yn y tymor hwy a chan yr arbedion a wneir mewn gwariant gweithredu. Drwy ystyried yr ystod lawnach hon o fuddion sy'n gysylltiedig â'r newid, mae'r llwybr yn darparu budd net yn llawer cynt, o 2029, gweler **Ffigur *25***.

[44] Mae strwythur economaidd Cymru yn wahanol i gyfartaledd y DU yn sgil mwy o ddefnydd o dir gwledig ac amaethyddiaeth, arfordir hirach o'i gymharu â chyfran ei phoblogaeth, mwy o risgiau o ran llifogydd ac erydu arfordirol, llai o allyriadau y pen na rhai rhanbarthau ond allyriadau diwydiannol sylweddol mewn lleoliadau penodol.
[45] Byddai hyd yn oed dileu'r rhain yn creu sefyllfa gadarnhaol net erbyn 2040.

Ffigur 25 - Costau a manteision gostyngol i'r DU yn sgil lliniaru allyriadau, 2025 i 2050

Testun amgen: Siart colofnau wedi'u pentyrru a siart linell wedi'u cyfuno sy'n dangos arbedion o ran cost a budd net i'r DU bob blwyddyn wrth liniaru allyriadau, rhwng 2025 a 2050. Dangosir mai gwariant cyfalaf yw'r brif gost. Ochr yn ochr â chostau eraill a chostau llawer llai, bydd y buddion, a ddaw'n bennaf o arbedion carbon a chostau gweithredu is, yn fwy na gwrthbwyso'r gwariant erbyn 2029 pan fyddant yn codi uwchlaw ei werth.



Ffynhonnell: Y Pwyllgor Newid Hinsawdd (2026): Supplementary analysis of the Seventh Carbon Budget
Sylwer: Cyflwynir costau fel gwerthoedd cadarnhaol, a manteision fel gwerthoedd negyddol, i ddangos arbedion posibl dros amser.

Mae dadansoddiad sensitifrwydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd yn amrywio'r cyfnod arfarnu, y gyfradd ddisgownt, prisiau tanwydd ffosil, costau technoleg, a gwerthoedd carbon. Mae'r buddion yn fwy na'r costau erbyn 2050 ym mhob senario sy'n cael ei ystyried; mae cyfnodau arfarnu hirach a'r cyfraddau disgownt is yn cynyddu'r gymhareb cost a budd. Mae sioc pris tanwydd ffosil hefyd yn cryfhau'r achos dros drawsnewid.[46]

Y tu hwnt i liniaru, mae Cymru eisoes yn profi effeithiau newid yn yr hinsawdd gyda difrod a chostau. Yn ystod yr haf 2026, roedd effeithiau'r tywydd poeth yn enghraifft o

[46] Cynhyrchwyd y dadansoddiad hwn cyn cyhoeddi'r newidiadau i'r gyfradd ddisgownt, gan gynnwys ei lleihau, felly mae'r sensitifrwydd hwn hyd yn oed yn fwy perthnasol nawr.

sut gallai newid yn yr hinsawdd effeithio fwyfwy ar Gymru yn y dyfodol, gan gyfrannu at y digwyddiad hwn hyd yn oed.[47] Ledled y DU, mae hawliadau yswiriant sy'n gysylltiedig â'r tywydd yn parhau i gynyddu bob blwyddyn.[48]

Addasu

Ym mis Mai 2026, cyhoeddodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd adroddiad wedi'i ddiweddaru a oedd yn nodi risgiau hinsawdd ac yn argymell camau i addasu i'r rhain.[49] Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at nifer o risgiau i'r economi yn sgil y newid yn yr hinsawdd, gyda GDP, cynhyrchiant, systemau ariannol, cadwyni cyflenwi, cyllid cyhoeddus ac aelwydydd, ac asedau busnes i gyd yn agored i niwed. Mae'r holl risgiau hyn yn cael eu categoreiddio fel "camau critigol" neu "ymchwiliad critigol" sy'n angenrheidiol yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd yn amcangyfrif y gallai iawndal newid hinsawdd gostio rhwng 1% a 5% o GDP y DU bob blwyddyn erbyn 2050 os na chymerir camau addasu pellach.

Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd wedi canfod bod mesurau addasu yn tueddu i fod â chymarebau cost a budd da yn y llenyddiaeth bresennol, sy'n amrywio'n bennaf rhwng 2 a 10 yn y DU, gan gynnwys mesurau fel ôl-osod seilwaith presennol, atebion ar sail natur, darparu gwybodaeth am risgiau hinsawdd a digwyddiadau tywydd eithafol, ac annog newid ymddygiad. Fel y newid i sero net, nid yw'r mesurau hyn yn ddi-gost, ond gallant hefyd ddod â manteision i'w canlyn sydd y tu hwnt i ddelio â risg hinsawdd, fel gwell iechyd, bioamrywiaeth, atafaelu carbon, a gwerth hamdden.

Ar ben hynny, mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd yn tynnu sylw at y cyfle y gallai busnesau ei gael i ddarparu nwyddau a gwasanaethau addasu. Mae nifer o ddiwydiannau lle disgwylir cynnydd yn y galw i addasu, gan gynnwys amaethyddiaeth, cyflenwi ynni, gweithgynhyrchu ac adeiladu, lle gallai fod cyfle penodol i Gymru gan ei bod eisoes yn cynrychioli cyfran uwch o gyflogaeth a gwerth ychwanegol gros o'i gymharu â'r DU. Mae Swyddfa Wyddoniaeth y Llywodraeth yn amcangyfrif y gallai cyfle'r DU i addasu yn y farchnad rhwng 2026 a 2035 fod rhwng £154bn a £355bn, gan gynnwys y farchnad ddomestig a'r galw am allforio; tua 0.5% i 1.3% o GDP y flwyddyn ar gyfartaledd.[50]

Fodd bynnag, mae manteisio'n llawn ar y cyfleoedd posibl hyn yn dibynnu ar sicrhau bod gan fusnesau Cymru y llafur arbenigol a'r cyfalaf sydd eu hangen arnynt. Yn ôl y SYG, mae cyflogaeth yn yr economi carbon isel ac adnewyddadwy gyfan yng Nghymru tua 14,000 (cyfwerth ag amser llawn); cynnydd mewn termau absoliwt, ond

[47] Summer 2026 provisionally hottest on record for the UK - Y Swyddfa Dywydd
[48] Adverse weather pushes property insurance payouts to £6.1 billion in 2025 | ABI a Home insurers pay out £846 million to support households | ABI
[49] A Well-Adapted UK - Y Pwyllgor Newid Hinsawdd
[50] Economic Opportunities of Climate Adaptation for the UK - Swyddfa Wyddoniaeth y Llywodraeth

ar gyfartaledd mae hyn yn dal yn gyfran isel iawn o'r cyfanswm yng Nghymru.[51] Mae'r rhan fwyaf o'r swyddi hyn yn parhau i fod yn yr is-sectorau cynnyrch ynni-effeithlon a thrydan carbon isel, fel y nodwyd yn Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru 2024.

Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd yn amcangyfrif y byddai angen buddsoddi £11 biliwn y flwyddyn mewn addasu i reoli'r risgiau a ragwelir o gynhesu 2°C erbyn 2050 ar draws y DU.[52] Mae'r costau hyn yn cynnwys gwariant cyfalaf, gweithredu ac amnewid. Serch hynny, amcangyfrif ansicr iawn ydy hwn. Nid oedd tystiolaeth gadarn ar gael gan bob sector dystiolaeth er mwyn meintioli'r buddsoddiad, felly mae'r nifer hwn yn debygol o danamcangyfrif y swm sydd ei angen. At hynny, bydd lefel a chost addasu yn amrywio'n fawr yn ôl lleoliad yn dibynnu ar ffactorau sy'n benodol i le, yr union lwybr y bydd newid yn yr hinsawdd yn ei ddilyn (gan gynnwys y posibilrwydd o bwyntiau tyngedfennol a allai gynyddu costau'n ddramatig), a datblygu technoleg neu atebion newydd.

Mae hefyd ansicrwydd ynghylch pwy yn union fydd yn ysgwyddo'r gost hon. Amcangyfrifir bod o leiaf 36% o'r buddsoddiad hwn yn dod o'r sector cyhoeddus, ar sail y cofnod o gyllid hanesyddol. Unwaith eto, gallai'r amcangyfrif hwn fod yn rhy isel gan fod 23% arall yn cael ei ystyried yn ffynhonnell gyllido "amhenodol" ar hyn o bryd am fod diffyg tystiolaeth hanesyddol. Hyd yn oed wrth ddefnyddio'r amcangyfrif is, byddai goblygiadau i gyllid cyhoeddus Cymru yn y dyfodol. Disgwylir i weddill y cyllid ddod o ffynonellau preifat. Fodd bynnag, mae tua 10% o fusnesau yng Nghymru wedi nodi costau fel rheswm dros beidio â chymryd camau i fynd i'r afael â'r risgiau newid yn yr hinsawdd maent yn eu hwynebu.[53]

[51] Low carbon and renewable energy economy, UK - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae'n bwysig nodi mai swyddi economi werdd yw'r rhain yn gyffredinol, **nid** swyddi sy'n ymwneud yn benodol ag addasu.
[52] A Well-Adapted UK Adaptation Investment Analysis - Y Pwyllgor Newid Hinsawdd
[53] Business insights and impact on the UK economy, Wave 159 - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Y Farchnad Lafur

Mae'r dadansoddiad canlynol o'r farchnad lafur yn canolbwyntio yn y lle cyntaf mewn cryn fanylder ar y datblygiadau diweddaraf mewn cyflogaeth yng Nghymru. Yna trafodir diweithdra ac anweithgarwch economaidd yn gryno. Mae dadansoddiadau o'r nifer cynyddol o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) a llifoedd neu 'drosiant' y farchnad lafur wedi'u cynnwys mewn blychau. Mae'r adran yn cael ei chloi gyda thrafodaeth ar y rhagolygon ar gyfer y farchnad lafur, gan dynnu sylw at effeithiau posibl mabwysiadu AI.

Mae'r farchnad lafur, ac yn enwedig cyflogaeth, wedi bod yn llwyddiant economaidd i'r DU ac i Gymru dros yr 20 mlynedd diwethaf, er gwaethaf rhywfaint o ddirywiad dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn dangos bod y gyfradd **cyflogaeth** yng Nghymru wedi cynyddu o 69.3% (y DU 72.5%) yn y flwyddyn hyd at fis Rhagfyr 2004 i 73.3% (y DU: 75.5%) yn y flwyddyn hyd at fis Mehefin 2026.[54] Rhwng 2004 a mis Mehefin 2026, gostyngodd cyfradd **anweithgarwch economaidd** yng Nghymru o 27.3% (y DU: 23.9%) i 23.7% (y DU: 20.9%). Cyfradd **diweithdra** ddiweddaraf yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yng Nghymru yw 3.9% (y DU: 4.4%), i lawr o 4.7% (y DU: 4.8%) yn 2004.

Datblygiadau diweddar mewn cyflogaeth yng Nghymru

Yn yr un modd â'r materion ansawdd sydd wedi effeithio ar yr Arolwg o'r Llafurlu a grybwyllwyd yn yr adran ar gynhyrchiant, mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth wedi gweld gostyngiad ym maint samplau ers troad y degawd. O ystyried hyn a'r ffaith nad yw'r arolwg wedi cael ei ail-bwysoli i'r amcangyfrifon poblogaeth diweddaraf, mae amcangyfrifon yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth bellach wedi'u dynodi'n Ystadegau Swyddogol, ar ôl bod â statws sy'n cyfateb i Ystadegau Swyddogol Achrededig yn flaenorol.

Yng ngoleuni pryderon am ansawdd data'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a'r Arolwg o'r Llafurlu, mae'n ddefnyddiol bod y SYG wedi cyhoeddi data Gwybodaeth Amser Real Cynllun Talu Wrth Ennill CThEF ar gyflogeion ers 2021. Mae data'r cynllun Talu Wrth Ennill yn Ystadegau Swyddogol Achrededig. Nid yw pobl hunangyflogedig yn cael eu cynnwys yn y data hwnnw. Nid yw hyn yn anfantais fawr oherwydd mae'r rhan fwyaf o bobl mewn cyflogaeth – tua 87% – yn gyflogeion. Yn unol â hynny, defnyddir data Talu Wrth Ennill yn y fan yma i ddisgrifio'r datblygiadau diweddaraf ym maes cyflogaeth yng Nghymru.


Roedd 1.31 miliwn o bobl mewn cyflogaeth Talu Wrth Ennill yng Nghymru yn ystod y tri mis hyd at fis Medi 2026, sef 0.4% yn llai na flwyddyn yn gynharach. Mae'r gostyngiad yng nghyfanswm y bobl sydd mewn cyflogaeth Talu Wrth Ennill yn cuddio datblygiadau amrywiol ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat. Mae cyflogaeth

[54] Mae'r dyddiadau a nodir yn cyflwyno'r pwyntiau data cynharaf a diweddaraf sydd ar gael yn y gyfres.

Talu Wrth Ennill mewn gweithgareddau sector cyhoeddus yn bennaf wedi cynyddu 0.8% o'i gymharu â'r 12 mis blaenorol hyd ar fis Gorffennaf, ar ôl bod ar gynnydd am flynyddoedd (mae'r un patrwm yn digwydd yn y DU), tra bod cyflogaeth mewn gweithgareddau sector preifat yn bennaf wedi gostwng 1.2% (gweler **Ffigur *26***). Mae asiantau Banc Lloegr wedi adrodd bod ansicrwydd geowleidyddol uwch yn y Dwyrain Canol wedi cyfrannu at alw gwannach am lafur yn y sector preifat.[55]

Ffigur 26 - Mynegai o gyflogeion cynllun Talu Wrth Ennill yng Nghymru (2016=100), 2016 i 2026

Testun amgen: Siart linell yn dangos cyfanswm y cyflogeion cynllun Talu Wrth Ennill a phrocsis ar gyfer cyflogeion cynllun Talu Wrth Ennill preifat a chyhoeddus yng Nghymru rhwng 2016 a 2026. Mae'r siart yn dangos bod cyfanswm y cyflogeion cynllun Talu Wrth Ennill wedi cynyddu drwy gydol y cyfnod tan 2024, ac yna, yn sgil y gostyngiad yn nifer y cyflogeion yn y sector preifat, mae'r cyfanswm hefyd yn dechrau gostwng yn raddol.



Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
Sylwer: Nid yw'r echelin fertigol yn cychwyn ar sero

Mae dadansoddiad Banc Lloegr yn awgrymu y gallai costau llafur uwch sy'n gysylltiedig â'r cynnydd yn y Cyflog Byw Cenedlaethol a mwy o Gyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr, a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2025, fod wedi cyfrannu hefyd at wanhau canlyniadau cyflogaeth yn enwedig ar gyfer gweithwyr ar gyflog is

[55] Bank of England Monetary Policy Report July 2026.


mewn sectorau sydd â chyfran uchel o swyddi sy'n agos at y Cyflog Byw Cenedlaethol.[56] Un o'r sectorau hynny yw lletygarwch, gyda chyflogaeth Talu Wrth Ennill 3.6% yn is na'r flwyddyn flaenorol, gweler **Ffigur *27***. Cofnodwyd gostyngiadau mawr mewn cyflogaeth ym maes gweithgynhyrchu a TGCh. Gellir ystyried y cyntaf fel rhan o duedd hirdymor, wrth i economi Cymru barhau i symud tuag at weithgarwch y sector gwasanaethu, mewn modd tebyg i economïau datblygedig eraill.

Gall mabwysiadu AI fod yn dylanwadu ar dueddiadau cyflogaeth, yn enwedig ar gyfer galwedigaethau mwy awtomeiddiadwy. Mae technoleg AI yn arbennig o fedrus wrth gyflawni tasgau rhaglennu a chodio. Nid yw'r dystiolaeth yn derfynol, ond gallai hyn fod yn ffactor sy'n esbonio'r gostyngiad mewn cyflogaeth ym maes TGCh.

[56] *Ibid*.

Ffigur 27 - Newid mewn cyflogaeth Talu Wrth Ennill yng Nghymru yn ôl sector dethol rhwng Mai-Gorffennaf 2025 a Mai-Gorffennaf 2026 ac yn ôl maint y sector

Testun amgen: Siart gwasgariad yn dangos newidiadau mewn cyflogaeth Talu Wrth Ennill yng Nghymru yn ôl sector rhwng mis Mai-Gorffennaf 2025 a mis Mai-Gorffennaf 2026. Gwelwyd gostyngiad mewn cyflogaeth yn y rhan fwyaf o sectorau, yn enwedig lletygarwch, gweithgynhyrchu, a chyfanwerthu a manwerthu. Nid oedd cyflogaeth wedi newid rhyw lawer mewn gwasanaethau proffesiynol a gweinyddu a chymorth. Trafnidiaeth a storio ac eiddo tirol oedd yr unig sectorau i gofnodi twf nodedig mewn cyflogaeth. Ar y cyfan gwelwyd dirywiad yn y sectorau mwy.



Sylwer: Mae graddfa'r echelinau fertigol a llorweddol yn wahanol. Nid yw'r echelin lorweddol yn cychwyn ar sero
Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Diweithdra

Cyfradd diweithdra'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yng Nghymru yn y flwyddyn hyd at fis Mehefin 2026 oedd 3.9% (y DU: 4.4%), sef 0.2 pwynt canran o ostyngiad o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Cyfradd diweithdra'r Arolwg o'r Llafurlu yng Nghymru yn ystod y tri mis hyd at fis Awst 2026 oedd 3.4% (y DU: 4.7%), sef 1.3 pwynt canran o ostyngiad o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn casglu data am nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau yn bennaf am resymau diweithdra. Mae canran y rhai sy'n hawlio budd-dal diweithdra wedi bod yn sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf.

Er gwaethaf y tarfu economaidd a achoswyd wrth i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, pandemig COVID-19, a siociau prisiau ynni 2022 a 2026, sydd oll wedi cyfrannu at dwf allbwn anemig, nid yw'r gyfradd diweithdra wedi cynyddu i'r graddau a ddisgwylir gan lawer o ragfynegwyr.

Y tu ôl i'r darlun cymharol ddiniwed a gyflwynir gan y brif gyfradd ddiweithdra ymysg oedolion, bu cynnydd pryderus mewn diweithdra ymysg pobl ifanc. Mae **Ffigur *28*** yn dangos mai 15.6 % oedd cyfradd diweithdra'r Arolwg o'r Llafurlu ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed yn y DU yn ystod y tri mis hyd at fis Awst 2026. Mae'r gyfradd diweithdra ymysg pobl Ifanc wedi codi o 9.3% yng nghanol 2022, a'r tro diwethaf iddo fod yn uwch oedd yn 2014. Mae data Talu Wrth Ennill CThEF sy'n cofnodi newidiadau mewn cyflogaeth ymysg pobl ifanc yn ategu'n fras y darlun diweithdra a gyflwynir gan ddata'r Arolwg o'r Llafurlu. Nid oes data diweithdra ymysg pobl ifanc yr Arolwg o'r Llafurlu ar gael ar gyfer Cymru. Mae'n debygol bod y tueddiadau yng Nghymru yn debyg i'r hyn a welir ledled y DU. Mae trafodaeth lawnach am ddiweithdra ymysg pobl ifanc a phroblem ehangach pobl NEET isod.

Ffigur 28 - Cyfradd diweithdra ymysg pobl ifanc yn y DU, 2016 i 2026

Testun amgen: Siart linell yn dangos diweithdra ymysg pobl ifanc yn y DU rhwng 2016 a 2026. Mae'n dangos cyfradd yn mynd i lawr o tua 14% yn 2016 i tua 11% yn 2020. Ar ôl 2020 cynyddodd y gyfradd i tua 15%, ac yna disgynnodd i tua 9% yn 2021 a 2022. Ers hynny, mae wedi codi'n raddol ac yn 8 mis cyntaf 2026 mae ychydig yn uwch na 16%



Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
Sylwer: Nid yw'r echelin fertigol yn cychwyn ar sero

Pobl nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET)

Mae data diweddaraf y DU yn dangos bod bron i filiwn o bobl ifanc yn NEET.[57] Roedd mesur NEET swyddogol Llywodraeth Cymru wedi amcangyfrif bod 47,100 o bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed (13.7%) yn NEET yng Nghymru yn 2024 (dros dro).[58] Mae hyn yn debyg, hyd yn oed ychydig yn is, i'r cyfnod rhwng 2004 a 2024 lle'r oedd niferoedd NEET ychydig dros 55,000 ar gyfartaledd, ac mewn rhai blynyddoedd roedd yn fwy na 70,000. Lefel 2024 yw'r chweched isaf erioed, gyda'r gyfradd y trydydd isaf.

Mae pryderon ynghylch NEET yn canolbwyntio ar ddau brif fater: carfan NEET sydd wedi newid, a disgwyliad y bydd y garfan NEET, heb weithredu, yn cynyddu. Mae tua 7 o bob 10 unigolyn NEET yng Nghymru yn cael eu hystyried yn economaidd

[57] Young people Not in Education, Employment or Training - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
[58] Deall y gwahanol ffynonellau ystadegau ar bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yng Nghymru | LLYW.CYMRU

anweithgar (ddim wrthi'n chwilio am waith). Yn 2012, roedd y rhaniad rhwng y rheini a phobl NEET di-waith bron yr un fath (sydd wrthi'n chwilio am waith), ond cynyddodd cyfran NEET a oedd yn anweithgar yn gyson dros weddill y degawd, ac ers 2020 mae wedi bod ar 70% neu'n uwch. Mae data mwy amserol hefyd yn dangos y bydd niferoedd NEET ar gyfer 2025 yn uwch[59]. Mae'r rhain yn dangos bod datgysylltiad wedi'i wreiddio yn y farchnad lafur.

Canfu 'Adolygiad Milburn' Young people and work: interim report hefyd fwy o ddatgysylltiad ar lefel y DU. Mae'r adroddiad yn nodi'r ffactorau risg sy'n gysylltiedig â thebygolrwydd uwch o fod yn NEET – gan gynnwys cymwysterau isel, statws anabledd ac amgylchiadau teuluol – materion a nodwyd yn flaenorol yng ngwaith ymchwil Llywodraeth Cymru ei hun, sy'n tynnu sylw at y gorgyffwrdd a'r croestoriadedd rhwng y ffactorau hyn.[60] Mae hefyd yn darparu adolygiadau manwl i feysydd polisi eraill y llywodraeth a'u harwyddocâd i gyfranogiad pobl ifanc yn y farchnad lafur. Mae'n tynnu sylw at yr her o gydlynu polisi ar draws y meysydd hyn ac yn dadlau bod canlyniadau cyflogaeth yn aml yn disgyn rhwng cyfrifoldebau polisi traddodiadol, gan gyfrannu o bosibl at ddiffyg gweithredu.

Mae melinau trafod annibynnol fel y Resolution Foundation a'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid hefyd wedi neilltuo amser i ymchwilio i bobl NEET. Daw'r ddau i'r casgliad na all ffactorau cylchol a newidiadau polisi ar eu pen eu hunain esbonio'r cynnydd diweddar yng nghyfradd NEET y DU.[61, 62] Mae hyn yn gysylltiedig â chefndir y DU lle gwelir y cyfraddau NEET uchaf o blith yr holl economïau datblygedig cymaradwy.

Mae data NEET swyddogol cyfyngedig ar lefel leol yn ei gwneud hi'n anodd asesu heriau o dan lefel Cymru gyfan, er bod ffynonellau eraill yn dangos amrywiad sylweddol rhwng ardaloedd.[63] Mae hyn yn cael ei waethygu gan bresenoldeb "pobl NEET cudd", hynny yw, y rhai nad ydynt yn cael eu cynnwys mewn unrhyw ystadegau swyddogol (yn aml yn sgil ymddieithrio), er bod ymchwil ddiweddar yn awgrymu y gallai'r grŵp hwn, ar y cyfan, fod yn llai difreintiedig o'i gymharu â phobl NEET y gwyddys amdanynt.[64]

Anweithgarwch economaidd


Y gyfradd anweithgarwch economaidd yw cyfran y boblogaeth oedran gweithio nad ydynt mewn gwaith nac yn chwilio am waith. Yng Nghymru, drwy gydol y 2010au, a chan adlewyrchu'r gwelliant yn y gyfradd cyflogaeth, gostyngodd y gyfradd anweithgarwch economaidd yn raddol. Yn fwy diweddar, yn y flwyddyn hyd at fis

[59] Pobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET): 2025 | LLYW.CYMRU
[60] Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth: Cynorthwyo pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (crynodeb)
[61] Lost in transition • Resolution Foundation
[62] Why has the NEET rate risen? Understanding trends and drivers using administrative data | Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid
[63] Data Dashboard
[64] Off the radar: who are NEETs not claiming benefits? | Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid

Mehefin 2026, roedd cyfradd anweithgarwch economaidd yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn 23.7% (y DU: 20.9%), sef 0.4 pwynt canran o ostyngiad o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Cyfradd anweithgarwch yr Arolwg o'r Llafurlu yng Nghymru yn ystod y tri mis hyd at fis Awst 2026 oedd 24.0% (y DU: 20.9%), sef 0.9 pwynt canran o ostyngiad o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Ffigur 29 - Cyfradd anweithgarwch economaidd Cymru ymysg pobl 16 i 64 oed, 2004 a 2025

Testun amgen: Siart linell yn dangos cyfradd anweithgarwch economaidd yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a'r Arolwg o'r Llafurlu yng Nghymru rhwng 2004 a 2025. Mae perthynas agos rhwng y ddau, ac yn gyffredinol maent yn gostwng rhwng 2004 a 2020. Ers 2020, mae'r berthynas rhwng yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a'r Arolwg o'r Llafurlu wedi gwanhau ond mae'n dangos cynnydd cyffredinol yn y gyfradd anweithgarwch economaidd rhwng 2021 a 2025.




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
Sylwer: Mae'r Arolwg o'r Llafurlu yn gyfartaledd 4-chwarter i sicrhau bod y cyfnodau'n cyd-fynd â'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. Nid yw'r echelin fertigol yn cychwyn ar sero.

Salwch tymor hir yw'r prif ffactor sy'n sbarduno anweithgarwch economaidd ac mae wedi dod yn fwy amlwg ers 2020, gweler **Ffigur *30***. I'r gwrthwyneb, mae gofalu am y teulu/cartref fel rheswm dros anweithgarwch wedi gostwng. Mae'r gostyngiad mewn anweithgarwch sy'n gysylltiedig â gofalu yn rhan o duedd tymor hwy sy'n gysylltiedig

â chyfraddau cyflogaeth uwch ymysg menywod a gostyngiad yn y gyfradd genedigaethau.

Ffigur 30 - Y prif reswm dros anweithgarwch economaidd (ac eithrio myfyrwyr) yng Nghymru, y blynyddoedd sy'n dod i ben ym mis Mehefin, 2016 i 2026

Testun amgen: Siart linell yn dangos cyfran anweithgarwch economaidd yng Nghymru yn ôl prif reswm (ac eithrio myfyrwyr), rhwng y blynyddoedd sy'n dod i ben ym mis Mawrth 2016 a mis Mehefin 2026. Yn gyffredinol, mae'r gyfran sy'n gofalu am y cartref teuluol wedi gostwng o ychydig dros 25% i ychydig o dan 20%. Ond mae salwch tymor hir wedi codi o tua 38% i 43%.



Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Cyflog

Mae'r adran hon yn defnyddio Gwybodaeth Amser Real CThEF, sy'n darparu data amserol ar enillion TWE misol, gan gynnwys bonysau a goramser. Mae'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion yn darparu tystiolaeth flynyddol fanylach ar lefelau cyflog, oriau a dosbarthiadau. Mae gwahaniaethau mewn darpariaeth, amseru a dulliau yn golygu nad oes modd cymharu'r mesurau'n uniongyrchol.

Ers mis Gorffennaf 2014 (pwynt data cynharaf yr Wybodaeth Amser Real), mae tâl canolrifol[65] yng Nghymru wedi cynyddu 70.9% (mewn termau arian parod ac felly cyn cyfrif am chwyddiant) o'i gymharu â 66.4% y DU, y twf uchaf o blith holl wledydd y DU dros y cyfnod hwnnw. Tua diwedd 2025 a chanol 2026, mae tâl canolrifol yng Nghymru wedi bod yn tyfu rhwng 4% a 5% (felly yn uwch na chwyddiant – gweler yr adran nesaf). Fodd bynnag, mae arwyddion y gallai hyn fod yn dechrau gwanhau ledled y DU.


Er mwyn deall rhai o'r gwahaniaethau mewn tâl rhwng Cymru a'r DU yn ôl sector, gellir defnyddio'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion. Er nad yw mor amserol â Gwybodaeth Amser Real, mae'n cynnwys sampl o'r holl weithwyr yn ogystal â mwy o fanylion, fel diwydiant a galwedigaeth. Defnyddio gwybodaeth am sectorau a chyflogau canolrifol, gweler **Ffigur *31***. Mae'r siart yn awgrymu bod rhai gwahaniaethau rhwng tâl sectorau yn fwy na gwahaniaethau tâl Cymru-DU o fewn sectorau. Er bod tâl canolrifol Cymru mewn llawer o sectorau yn agos at gyfartaledd sectorau'r DU, mae tâl cymharol is yn amlwg mewn rhai sectorau dwys o ran gwybodaeth fel cyllid, gwybodaeth a chyfathrebu, a gwasanaethau proffesiynol. Yn gyffredinol, mae gweithgareddau'r sector cyhoeddus, gweithgynhyrchu ac adeiladu yn dangos lefelau tâl sy'n nes at normau'r DU. Mae crynodiad cyflogaeth mewn sectorau sy'n talu llai, ochr yn ochr â pherfformiad tâl gwannach mewn rhai diwydiannau cynhyrchiant uchel, yn debygol o gyfrannu at enillion cyffredinol is Cymru o'i gymharu â'r DU.

Mae'n ymddangos bod nifer o sectorau fel gweithgynhyrchu, adeiladu, gweinyddiaeth gyhoeddus ac addysg yn clystyru o amgylch cyfartaledd y DU (100%), tra bod cyllid a gwasanaethau proffesiynol a gwybodaeth a chyfathrebu yn amlwg yn is na'u cymheiriaid yn y DU, sy'n awgrymu bod Cymru'n perfformio'n gymharol well mewn diwydiannau traddodiadol nag mewn rhai sectorau gwasanaeth uchel eu gwerth. Efallai y bydd gan hyn oblygiadau o ran sut y gallai Cymru gau'r bwlch cynhyrchiant a'r bylchau tâl.

[65] Mae defnyddio tâl canolrifol yn aml yn well na thâl (cyfartalog) canolrifol am ei fod yn rhoi gwell syniad o faint mae gweithiwr nodweddiadol yn ei ennill. Mae tâl canolrifol yn nodi pwynt canol dosbarthiad enillion, sy'n golygu bod hanner y gweithwyr yn ennill mwy a hanner yn ennill llai. Mae hyn yn golygu yr effeithir llai arno gan nifer fach o bobl sy'n ennill cyflogau uchel iawn, a all gynyddu'r canolrif yn sylweddol a rhoi argraff gamarweiniol o'r enillion cyffredinol.

Ffigur 31 - Tâl canolrifol yng Nghymru yn ôl tâl o'i gymharu â'r DU (=100) fesul sector, 2025

Testun amgen: Siart gwasgariad yn dangos tâl wythnosol canolrifol yn ôl sector yng Nghymru yn 2025, o'i gymharu â chyfartaledd sectorau'r DU. Mae'r sectorau sy'n talu'n uwch yn cynnwys cyfleustodau, gwybodaeth a chyfathrebu, tra bo gwasanaethau llety a bwyd â'r tâl isaf. Mae gan y rhan fwyaf o sectorau lefelau tâl o dan gyfartaledd y DU ar gyfer eu sector.



Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion
Sylwch: mae maint y swigod yn adlewyrchu maint cymharol y sector yn ôl gweithwyr

Rhagolygon

Cyn i'r gwrthdaro ddechrau yn y Dwyrain Canol, roedd yr OBR a Banc Lloegr yn rhagweld dirywiad cymedrol yn amodau'r farchnad lafur yn 2026, gan barhau ar yr un llwybr a oedd wedi bod yn amlwg ers misoedd lawer. Roedd y rhagolygon yn adlewyrchu gwybodaeth flaengar o arolygon busnes ynghylch bwriadau cyflogi er enghraifft. Roedd disgwyl hefyd y byddai costau llafur uwch sy'n gysylltiedig â'r cynnydd mewn cyflog byw cenedlaethol a chyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr law yn llaw â phryderon ynghylch effaith y byddai'r Bil Hawliau Cyflogaeth, yn lleihau'r galw am lafur. Hefyd, roedd yr OBR a'r Banc o'r farn y byddai momentwm gwan sylfaenol yn yr economi ehangach yn parhau yn sgil effeithiau gohiriedig y

cynnydd blaenorol mewn cyfraddau llog yn ogystal ag effeithiau trethi uwch a disgwyliad y byddai twf cyflogau'n arafu. Gellid disgwyl yn rhesymol i amodau o'r fath danseilio canlyniadau cadarnhaol yn y farchnad lafur.

Hyd yma, nid oes tystiolaeth a fyddai'n awgrymu bod y cynnydd mewn prisiau ynni a achoswyd gan y gwrthdaro yn y Dwyrain Canol wedi newid y rhagolygon ar gyfer y farchnad lafur yn sylweddol yn y tymor agos. Mae arolwg Panel Penderfynwyr Banc Lloegr yn dangos bod cwmnïau'n fwy tebygol o ymateb i'r cynnydd mewn prisiau ynni drwy dderbyn elw is a chodi prisiau gyda dim ond effaith gyfyngedig ar ddileu swyddi.[66] Mae data swyddogol yn awgrymu bod busnesau wedi bod yn cyflogi llai o bobl yn hytrach na dileu swyddi.

Mae Rhagolwg Economaidd ac Ariannol Hydref 2026 yr OBR yn awgrymu y bydd cyfradd diweithdra'r DU, sef 4.7% ar hyn o bryd (Medi 2026), tua 5.0% ar gyfartaledd yn 2027 a 2028 ac yna'n gostwng yn ôl i tua 4.0% erbyn diwedd y degawd. Gellid disgwyl newidiadau tebyg yng Nghymru. Byddai'r rhagolygon diweithdra'n waeth pe bai prisiau ynni'n codi ymhellach ac yn aros yn uwch am gyfnod hir. Ar y llaw arall, pe bai prisiau ynni'n gostwng yn gynaliadwy i lefelau cyn y gwrthdaro, yna gellid disgwyl amodau ychydig yn gryfach yn y farchnad lafur. Ond gallai unrhyw adferiad fod yn gyfyngedig, gyda ffactorau ehangach eraill yn dal ar waith.

Hyd yn oed os yw'r dirywiad ym mhrif ddangosyddion y farchnad lafur o ran cyflogaeth, diweithdra ac anweithgarwch economaidd yn gyfyngedig yn y tymor byr, mae'r rhagolygon ar gyfer rhai dangosyddion eraill, yn enwedig y potensial i fwy o bobl ifanc fod yn NEET a'r potensial ar gyfer mwy o erydu o ran graddau trosiant, yn peri pryder. Ar hyn o bryd, mae'n ymddangos yn fwy tebygol y bydd angen polisïau i fynd i'r afael â'r pryderon hyn yn y tymor agos yn hytrach na mynd i'r afael â dirywiad amlwg yn y prif gyfraddau cyflogaeth, diweithdra ac anweithgarwch economaidd.

Gallai AI newid y galw am lafur yn sylweddol. Mae'r OBR yn amcangyfrif y gallai 40% o dasgau fod yn agored iawn i awtomeiddio dros y 10 mlynedd nesaf, gyda llawer o alwedigaethau o bosibl yn cael eu hategu gan AI. Mae'r effeithiau ar gyflogaeth yn parhau i fod yn ansicr iawn, gan wneud sgiliau trosglwyddadwy, dysgu parhaus, ac ailsgilio yn bwysig.[67, 68]

Mae'r rhagolygon tymor agos ar gyfer cyflog cyfartalog, yn ôl yr OBR, yn eithaf gwael. Disgwylir i'r twf blynyddol mewn enillion wythnosol fod yn 2.7% ar gyfartaledd hyd at 2031 ond ar ôl chwyddiant, dim ond 0.2% yw'r gyfradd twf flynyddol gyfartalog. Disgwylir i'r twf blynyddol cyfartalog mewn enillion **gwirioneddol** yr awr

[66] Monthly Decision Maker Panel data - July 2026 | Banc Lloegr – banc canolog y DU.
[67] Yn ei Rhagolygon economaidd a chyllidol ym mis Mawrth 2026, mae'r OBR yn edrych ar senario lle mae AI yn dadleoli gweithwyr fel bod cyfradd diweithdra'r DU yn setlo ar 5.5% yn hytrach na 4.1%.
[68] Gweler, er enghraifft: Building human capacity and preparing for labour market transformation (OECD AI Principle) - OECD.AI

fod yn 0.3%. Byddai alldro o’r fath ar gyfer enillion yn wan iawn o’i gymharu â'r tueddiadau hirdymor cyn yr argyfwng ariannol.

Trosiant

Mae modd categoreiddio twf cynhyrchiant yn gyffredinol mewn un o ddwy ffordd. Gall yr effaith gyntaf, sef effaith o fewn y cwmni, ddigwydd pan fydd cwmnïau presennol yn dod yn fwy cynhyrchiol. Gallai hyn ddigwydd wrth i gwmnïau trawsffiniol wella eu mantais bresennol o ran cynhyrchiant, neu wrth i gwmnïau is na'r cyfartaledd ddal i fyny – sy'n arbennig o berthnasol i'r DU.[69]

Proses sy'n cael ei chydnabod fwyfwy ac sy'n helpu i wella cynhyrchiant yn gyffredinol yw 'trosiant' neu ddynameg busnesau. Effaith ar draws y cwmni ydy hon, gyda chwmnïau'n ymuno â'r economi ac yn ei gadael. Mae hyn yn galluogi defnyddio a rhyddhau ffactorau cynhyrchu fel llafur a chyfalaf. Er mwyn i gwmnïau mwy newydd sefydlu eu hunain a goroesi, maent yn dod o hyd i ffyrdd o fod yn gystadleuol â chwmnïau presennol. I wneud hyn, mae'n rhaid iddynt arloesi a dod o hyd i ffyrdd i sicrhau'r effeithlonrwydd gorau posibl. A chyda llwyddiant, mae cwmnïau sy'n bodoli'n barod fel arfer yn dilyn, neu fel arall mewn perygl o fod yn anghystadleuol ac yn amhroffidiol. Gall hyn ddod yn atgyfnerthol: cwmnïau llai cynhyrchiol yn crebachu neu'n peidio â bodoli, ffactorau cynhyrchu yn cael eu hailddyrannu i gwmnïau mwy arloesol a mwy cynhyrchiol sy'n gorfod parhau i fod yn fwy cynhyrchiol er mwyn cystadlu â'r don nesaf o ymgeiswyr. Y canlyniad yw cynhyrchiant uwch ar draws yr economi. Mae'r broses hon yn fwy adnabyddus fel **distryw creadigol**.

Serch hynny, mae tystiolaeth y DU yn dangos bod trosiant wedi arafu dros y degawdau diwethaf, ac yn enwedig ers yr Argyfwng Ariannol Byd-eang. Mae data Cymru yn dangos yr un fath. Mae trosiant swyddi yng Nghymru wedi dilyn tuedd ar i lawr glir yn yr hirdymor dros y ddau ddegawd diwethaf. Ers 2022-23, 16.9% yw'r trosiant swyddi cyfartalog ar draws yr economi (felly roedd tua un o bob chwe swydd yn ymwneud â busnesau'n ehangu, yn crebachu, yn ymuno neu'n gadael), sy'n is o lawer na'r cyfartaledd o 22.3% a welwyd yn y blynyddoedd cyn yr Argyfwng Ariannol, fel y dangosir yn **Ffigur *32*.**


Mae'n ymddangos bod yr arafu dilynol mewn trosiant ar ôl yr argyfwng ariannol byd-eang wedi'i ganoli ar gyfraniadau is gan gwmnïau sy'n bodoli'n barod, a hynny drwy gyfraddau ehangu a chrebachu is. Er bod nifer y busnesau sy'n agor ac yn cau hefyd wedi arafu (ac, o'i gymharu â chyfradd trosiant yr un mor uchel yn 2002-03, mae'r gostyngiad cyffredinol yn cael ei gydbwyso'n fras ar draws creu a dinistrio swyddi, a rhwng cwmnïau sy'n bodoli'n barod a chwmnïau sy'n ymuno/gadael). Hyd yn oed yn ystod pandemig COVID-19, a oedd yn gyfnod o aflonyddwch economaidd sylweddol, roedd trosiant yn dal yn gymharol isel. Mae'n debygol bod hyn yn adlewyrchu'r

[69] What explains the UK's productivity problem? - Economics Observatory

Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws a oedd wedi cymell cwmnïau i ddal gafael ar weithwyr.[70]

Ffigur 32 - Cyfanswm trosiant swyddi yng Nghymru fel canran o swyddi gweithredol, yn ôl y math o greu/distryw, 2002-03 i 2024-25

Testun amgen: Siart colofnau wedi'u pentyrru yn dangos cyfansoddiad creu a cholli swyddi rhwng 2002-03 a 2024-25 yng Nghymru. Mae'n dangos bod nifer yr achosion o agor, ehangu, cau a chrebachu wedi gostwng ers 2009-10, gyda'r rhan fwyaf o'r gostyngiad yn deillio o arafiad yng ngweithgarwch cwmnïau sy'n bodoli'n barod (ehangiadau a chrebachiadau).



Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Gofrestr Ryngadrannol o Fusnesau

Mae'r arafu'n adlewyrchu'r ffaith bod llai o swyddi'n cael eu creu a'u dinistrio, yn enwedig mewn cwmnïau presennol. Mae cyfraddau ymuno ac ymadael busnesau Cymru yn dal yn weddol debyg i lefelau cynharach, tra bod tystiolaeth o'r DU gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn dangos cyfraddau sy'n gostwng.

Daeth y cyfraniad sectoraidd mwyaf at y gostyngiad ar ffurf trosiant o wasanaethau cyhoeddus, iechyd ac addysg, cyfrannodd 6.2 pwynt canran at y trosiant cyffredinol yn 2008-9, ond gostyngodd hyn i 2.7 pwynt canran yn 2024-25.

[70] Y data a ddefnyddir yma yw'r Gofrestr Ryngadrannol o Fusnesau. Mae hyn yn defnyddio ciplun o fis Mawrth bob blwyddyn (felly mae 2020 ar ddechrau'r pandemig) ac felly gall fod yn araf i'w ddiweddaru. Daw'r data cyflogaeth yn y Gofrestr Ryngadrannol o Fusnesau o Arolwg y Gofrestr Busnesau a Chyflogaeth hefyd, ond bydd yn cael ei amcangyfrif neu ei briodoli i fusnesau lle nad oes data wedi'i ddiweddaru ar gael.

Cyfrannodd gwasanaethau cyfanwerthu, manwerthu, trafnidiaeth, gwestai, bwyd a chyfathrebu, a chyllid a busnes yn sylweddol hefyd. Mae'r gostyngiad mewn trosiant mewn diwydiannau yn ymddangos yn fwy canlyniadol na'r newid tuag at ddiwydiannau trosiant is.

Mae tystiolaeth y DU yn awgrymu y gallai rhwystrau rhag ymuno a manteision cwmnïau sefydledig wanhau deinameg busnes. Mae manteision cynhyrchiant ailddyrannu hefyd yn dibynnu ar weithwyr yn dod o hyd i gyflogaeth newydd, wedi'i hategu gan baru swyddi, addysg a hyfforddiant effeithiol.

Chwyddiant

Mae chwyddiant, cyfradd y cynnydd mewn prisiau nwyddau a gwasanaethau dros amser,[71] wedi bod yn un o'r nodweddion economaidd mwyaf arwyddocaol ac amlwg yn y 2020au. Cyrhaeddodd chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr, y chwyddiant cynrychiadol a brofwyd gan unigolion a chartrefi, benllanw o 11.1% ym mis Hydref 2022, sef y gyfradd uchaf yn y DU mewn dros 40 mlynedd. Ers hynny, mae chwyddiant wedi gostwng yn raddol yn y DU. Er ei fod wedi codi ychydig eto yn 2025 i 3.8%, mae chwyddiant prisiau defnyddwyr wedi bod yn gostwng yn raddol tuag at y targed chwyddiant o 2%, er gwaethaf y gwrthdaro yn y Dwyrain Canol sydd wedi achosi i brisiau tanwyddau hydrocarbon godi. Ar ddechrau 2026 roedd chwyddiant ar oddeutu 3% ac yna disgynnodd i 2.6% ym mis Mehefin. Fodd bynnag, ers hynny mae wedi dechrau codi, ac mae Banc Lloegr (Medi 2026) yn disgwyl iddo nesáu at tua 4% at ddiwedd 2026 a dechrau 2027.[72] Er gwaethaf y ffaith bod chwyddiant wedi mynd i lawr am y rhan fwyaf o'r flwyddyn, mae chwyddiant yn 2026 wedi bod tua pwynt canran a hanner yn uwch na'r disgwyl adeg Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru yn 2025.

Hyd yn oed pe bai prisiau'n codi 4% i 5%, er eu bod yn dal yn llawer uwch na tharged chwyddiant prisiau defnyddwyr o 2%, mae hyn yn dal yn llawer is na'r cyfnod ar ddechrau 2022 pan gododd prisiau nwy ac olew'n sylweddol hefyd. Bryd hynny, roedd yr effaith gyffredinol ar ynni yn llawer iawn mwy, yn rhannol oherwydd rôl prisiau nwy yn y DU ar brisiau trydan.[73]


Roedd y gyfradd chwyddiant 12 mis ar gyfer bwyd a diodydd dialcohol yn 1.3% ym mis Medi 2026, sydd heb newid ers mis Gorffennaf. Er bod bwyd a diodydd dialcohol wedi gwneud cyfraniad cymharol fach at chwyddiant ers mis Medi 2021, y rhagolygon ar gyfer chwyddiant bwyd yw y bydd yn codi yn dilyn yr effaith ar rywfaint o ymdrechion cynhyrchu bwyd yn y DU yn ystod y cyfnodau o sychder ac yna effaith fyd-eang El Niño ar gnydau bwyd.

Gan edrych ar *lefelau prisiau* rhwng mis Medi 2021 a mis Medi 2026, mae trydan, nwy a thanwyddau eraill tua 50% i 60% yn uwch ond yn is o lawer na'r 110% yn 2022, gweler **Ffigur *33***. I'r gwrthwyneb, roedd y twf cyffredinol mewn lefelau prisiau wedi bod yn 28% yn ystod y cyfnod hwnnw. Fodd bynnag, pe bai'r holl brisiau wedi codi 2% yn gyson bob blwyddyn, yna dim ond tua 10% yn uwch fyddai lefel gyffredinol y prisiau ym mis medi 2026 o'i gymharu â mis Medi 2021.

[71] Os bydd y prisiau hynny'n gostwng, datchwyddiant yw'r enw am hynny.
[72] Gweler Bank rate maintained at 3.75% - September 2026 Monetary Policy Summary and Minutes | Banc Lloegr – banc canolog y DU
[73] Gweler Wholesale energy costs and your bills | Ofgem

Ffigur 33 - Newid canrannol mewn prisiau grwpiau nwyddau dethol a CPI, mis Medi 2021 i fis Medi 2026

Amgen: Siart linell yn dangos newidiadau cronnus mewn prisiau ers mis Medi 2021. Trydan, nwy a thanwyddau eraill sy'n cynyddu gyflymaf, gan gyrraedd uchafbwynt o tua 110% yn uwch na lefelau 2021 ar ddiwedd 2022 cyn gostwng i tua 50% i 60%. Mae prisiau bwyd yn codi'n raddol i tua 40%, ac mae CPI yn codi i tua 27%. Mae tanwyddau ac ireidiau ar gyfer trafnidiaeth bersonol yn fwy cyfnewidiol, gan gyrraedd uchafbwynt o bron i 40% yn 2022 cyn gostwng ac aros ar tua 30%, sef tua'r lefel chwyddiant cyffredinol.



Sylwer: Nid yw'r echelin fertigol yn cychwyn ar sero.
Ffynhonnell: Consumer price inflation, UK: September 2026 - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Beth am brisiau rhanbarthol?

Mae Mynegai Prisiau Defnyddwyr arbrofol Gogledd Iwerddon yn dangos[74] y potensial ar gyfer mesurau chwyddiant rhanbarthol. Mae data Gogledd Iwerddon yn awgrymu (dros gyfnod byr, ond cyfnewidiol) y gallai unrhyw wahaniaethau o chwyddiant y DU fod yn eithaf bach, yn enwedig pan fydd chwyddiant yn fwy sefydlog. Byddai angen rhagor o ddata a gwaith methodolegol ar gyfer Mynegai Prisiau Defnyddwyr cadarn i Gymru, gan y byddai angen bod yn siŵr a fyddai unrhyw wahaniaethau mewn chwyddiant yn real neu o ganlyniad i'r amcangyfrif a allai ddarparu rhywfaint o amrywiad o amgylch cyfradd y DU.

Am y tro, chwyddiant y DU yw'r prif feincnod ar gyfer Cymru, ac mae mynegeion costau aelwydydd yn helpu i ddangos sut mae pwysau'n amrywio rhwng grwpiau aelwydydd.[75]

Mynegeion costau aelwydydd

Mae chwyddiant prisiau defnyddwyr yn cael ei fesur drwy edrych ar y fasged arferol neu gyfartalog o nwyddau sy'n cael ei phrynnu gan aelwydydd. Er bod y fasged yn cael ei diweddaru o bryd i'w gilydd, efallai y bydd gan aelwydydd wahanol fasgedi o nwyddau, felly mae hynny'n golygu y byddant yn wynebu cyfraddau chwyddiant gwahanol. Yn ystod lefel uchaf chwyddiant yn 2022, roedd aelwydydd y DU â'r 10% isaf o incwm yn wynebu 14.5% o chwyddiant, fel y mesurwyd gan Fynegeion Costau'r Cartref y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ac fel y dangosir yn **Ffigur *34***. Ond roedd chwyddiant CPI yn 11.1%, – sydd dros dri phwynt canran yn is – ac sydd hefyd yn eithrio costau tai perchen-feddianwyr (fel newidiadau mewn cyfraddau llog morgais, treth stamp a chostau eraill sy'n gysylltiedig â phrynu tŷ).


Mae dadansoddiad yn ôl gwahanol fathau o gartrefi yn awgrymu y gallai Cymru, neu o leiaf gartrefi penodol yng Nghymru, fod wedi wynebu lefelau cymharol uwch o chwyddiant. Gall Mynegeion Costau'r Cartref lywio hyn.

Cynyddodd costau aelwydydd yn y DU 2.8% yn y flwyddyn hyd at fis Mehefin 2026, fel y'u mesurir gan y Mynegai Costau'r Cartref. Mae hyn yn ostyngiad o 3.6% yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2026. Mae hyn hefyd yn llawer is nag yn ystod yr argyfwng costau ynni diwethaf yn 2022, er mai dim ond hyd at ddiwedd mis Mehefin 2026 y mae hyn yn ei fesur.

[74] Developing a Northern Ireland Consumer Prices Index - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
[75] Gweler Developing a Northern Ireland Consumer Prices Index - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Ffigur 34 - Cyfraddau chwyddiant blynyddol (%) y Mynegai Prisiau Defnyddwyr a Mynegai Costau'r Cartref ar gyfer pob aelwyd yn y DU, mis Ionawr 2016 i fis Mehefin 2026

Testun amgen: Siart linell yn dangos cyfraddau chwyddiant blynyddol ar gyfer Mynegai Prisiau Defnyddwyr y DU a'r Mynegai Costau Aelwydydd rhwng mis Ionawr 2016 a mis Mehefin 2026. Mae'r ddau fesur yn dilyn tueddiadau tebyg, gan godi o tua 0% yn 2016 i benllanw yn 2022-23 cyn disgyn eto. Mae uchafbwynt y Mynegai Costau Aelwydydd yn uwch, sef oddeutu 13%, o'i gymharu ag oddeutu 11% ar gyfer y Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Erbyn mis Mehefin 2026, mae'r ddau fesur tua 3%.




Sylwer: Nid yw'r echelin fertigol yn cychwyn ar sero
Ffynhonnell: Household Costs Indices for UK household groups - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Hefyd, yn wahanol i 2022, cynyddodd y costau ar gyfer aelwydydd incwm isel (degradd 2) ac aelwydydd incwm uchel (degradd 9) gan gyfraddau tebyg, 2.7% a 2.8% yn y drefn honno, yn y flwyddyn hyd at fis Mehefin 2026, gweler **Ffigur *35***.

Ffigur 35 - Cyfraddau chwyddiant blynyddol Mynegeion Costau'r Cartref yn ôl degradd incwm (%), y DU, mis Ionawr 2016 i fis Mehefin 2026

Testun amgen: Siart linell yn dangos cyfraddau chwyddiant blynyddol Mynegai Costau'r Cartref ar gyfer aelwydydd yn y DU yn negraddau incwm 2, 5 a 9 o fis Ionawr 2016 i fis Mehefin 2026. Mae'r tri grŵp yn dilyn tueddiadau tebyg, gyda chwyddiant yn cyrraedd uchafbwynt yn 2022-23 ac yna'n gostwng. Yn gyffredinol, mae chwyddiant ar ei uchaf ar gyfer aelwydydd incwm is yn ystod y cyfnod brig, gan gyrraedd tua 13.5% ar gyfer degradd incwm 2, o'i gymharu ag oddeutu 12.5% ar gyfer degradd 5 ac 11.5% ar gyfer degradd 9. Erbyn mis Mehefin 2026, mae pob un o'r tri tua 3%.



Sylwer: Nid yw'r echelin fertigol yn cychwyn ar sero.
Ffynhonnell: Household Costs Indices for UK household groups - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae Mynegai Costau'r Cartref hefyd yn cynnwys gwahaniaeth mewn newidiadau cost yn ôl math o ddeiliadaeth a pherchen-feddianwyr, ond nid oedd y rhain ychwaith yn dangos llawer o wahaniaeth (gwahaniaeth o un i ddau bwynt canran) rhwng y categorïau. Dros y pum mlynedd diwethaf (yn hytrach nag yn flynyddol), roedd gan aelwydydd nad oeddent wedi ymddeol ac aelwydydd â phlant gyfradd chwyddiant o 33.2%, a oedd yn uwch nag aelwydydd wedi ymddeol (31.9%).

Rhagolygon ar gyfer chwyddiant

Mae'r OBR yn disgwyl y bydd y cynnydd diweddar mewn prisiau ynni yw cadw chwyddiant (CPI) dros 2% (targed Banc Lloegr) eleni ac i 2027. Rhagwelir y bydd tua 3.1% yn 2026, gan godi i 3.4% yn 2027, gan gyrraedd uchafbwynt o 3.8% (bob

chwarter) ddechrau 2027. Mae'r OBR wedyn yn disgwyl i chwyddiant ddisgyn yn ôl i'r targed o 2% ganol 2028. Mae mesurau polisi dros dro a gymerwyd gan Lywodraeth y DU yng Nghyllideb yr Hydref 2026 yn lleihau chwyddiant CPI 0.1 pwynt canran yn 2027 ac yn ei gynyddu tua'r un faint yn 2028. Mae rhagolwg chwyddiant yr OBR yn seiliedig ar y dybiaeth bod prisiau ynni yn gostwng yn ôl prisiau'r farchnad adeg proses rhagolwg yr OBR.

Mae cryn ansicrwydd ynghylch rhagolwg chwyddiant diweddaraf yr OBR. Newidiadau mewn prisiau ynni ar gyfer olew a nwy yw'r prif ansicrwydd.[76] Mae risgiau eraill i ragolygon chwyddiant CPI yn cynnwys i ba raddau y mae ffenomen El Niño arbennig o gryf yn amharu ar gynhyrchu bwyd yn fyd-eang ac yn rhoi pwysau cynyddol ar brisiau bwyd.

I ddangos yr ansicrwydd ynghylch prisiau ynni, mae'r OBR yn darparu senarios lle mae prisiau olew a nwy yn cyrraedd y prisiau uchaf a welwyd yn dilyn ymosodiad Rwsia ar Wcráin yn 2022. Mae'r sioc ynni pur yn arwain at gynnydd o tua 6% yn chwyddiant CPI yn 2027; tua 2.25% pwynt canran yn uwch na'r rhagolwg canolog. Mae'r graddau y gallai prisiau ynni uwch arwain at yr hyn a elwir yn "effeithiau ail rownd"; fel cyflogau, hefyd yn ansicr iawn.

O dan senario adfer prisiau ynni'r OBR, mae prisiau olew a nwy yn gostwng yn gyflymach na'r hyn a ragdybiwyd yn eu rhagolwg canolog, ac yna maent yn nes o lawer at ragolwg yr OBR ym mis Mawrth 2026.[77] Mae'r gostyngiad ym mhris ynni pur yn arwain at chwyddiant yn gostwng llawer mwy nag yn rhagolwg canolog yr OBR, gyda CPI 1.25 pwynt canran yn is na'r rhagolwg canolog.

[76] Mae rhagolwg canolog yr OBR yn defnyddio prisiau'r farchnad ar gyfer olew a nwy o ganol mis Awst ymlaen.
[77] Nid oedd rhagolwg Mawrth 2026 yr OBR yn cynnwys unrhyw effeithiau o'r Dwyrain Canol sydd wedi digwydd ers diwedd mis Chwefror 2026.


Prisiau Tai

Mae prisiau tai yn effeithio ar gyfoeth, benthyca a gwariant aelwydydd. Mae gwahaniaethau rhanbarthol hefyd yn helpu i egluro fforddiadwyedd a phwysau ar safonau byw yng Nghymru.

Dangosir prisiau tai cyfartalog wedi'u haddasu ar gyfer chwyddiant CPIH ac wedi'u mynegeio i fis Mai 1999 yn **Ffigur *36***. Mae mynegai cynyddol yn golygu bod prisiau tai wedi codi'n gyflymach na phrisiau defnyddwyr.

Ffigur 36 - Mynegai prisiau tai go iawn yng Nghymru a Lloegr ers datganoli, 1999 i 2026 (Mai 1999 = 100)

Testun amgen: Siart linell yn dangos prisiau tai go iawn yng Nghymru a Lloegr wedi'i fynegeio i fis Mai 1999 (=100). Roedd prisiau tai go iawn wedi codi'n gryf yn y ddwy wlad yn ystod y 2000au, ac wedi disgyn ar ôl argyfwng ariannol 2008, cyn adfer yn ystod y 2010au, a chyrraedd eu hanterth eto yn 2021-22 cyn gostwng. Mae Cymru a Lloegr yn dilyn tueddiadau tebyg drwy gydol y cyfnod dan sylw, gyda phrisiau tai go iawn yn cyrraedd oddeutu 235 i 240 yn 2026, mwy na dwbl eu lefel ym 1999.



Sylwer: Nid yw'r echelin fertigol yn cychwyn ar sero.
Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Fynegai Prisiau Tai y DU a data Mynegai Prisiau Defnyddwyr gyda Thai'r SYG.

Cynyddodd prisiau tai go iawn yn gyflym cyn yr Argyfwng Ariannol Byd-eang, ac yna disgynnodd. Bu bron i uchafbwynt Awst 2007 Cymru gael ei gyrraedd eto ym mis

Medi 2022; roedd cyfnod arsylwi misol uchaf Lloegr ym mis Mehefin 2021, pan nododd y SYG nifer anarferol o uchel o drafodiadau ac ansefydlogrwydd.

Mae prisiau tai a addaswyd ar gyfer chwyddiant wedi gostwng yng Nghymru a Lloegr dros y tair blynedd diwethaf. Er bod prisiau tai enwol wedi aros yn gymharol uchel, yn gyffredinol mae'r cynnydd wedi bod yn wannach na chwyddiant prisiau defnyddwyr, ac felly mae prisiau go iawn wedi gostwng ers y cyfnodau brig diweddar.

Er gwaethaf cyfnodau o wahaniaethau, mae'r cynnydd cyffredinol mewn prisiau tai go iawn ers datganoli wedi bod yn eithaf tebyg yng Nghymru a Lloegr.

Fforddiadwyedd prisiau tai

Dim ond un meincnod y gellir ei ddefnyddio i asesu prisiau tai yw chwyddiant. Er bod prisiau tai go iawn yn rhoi syniad o sut mae prisiau tai wedi newid o'u cymharu â chostau byw ehangach, mae fforddiadwyedd yn dibynnu'n fwy uniongyrchol ar y berthynas rhwng prisiau tai ac incwm aelwydydd.

Mae'r SYG yn cyhoeddi ystadegau fforddiadwyedd prynu tai sy'n cymharu prisiau tai ag amcangyfrifon o incwm gwario aelwydydd. Mae hyn yn rhoi mesur ehangach o fforddiadwyedd ac yn caniatáu archwilio tueddiadau fforddiadwyedd ar draws gwahanol farchnadoedd tai yng Nghymru.

Mae **Ffigur *37*** yn dangos bod pwysau fforddiadwyedd wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y 2000au wrth i brisiau tai dyfu'n gyflymach nag incwm aelwydydd. Cododd cymhareb fforddiadwyedd gyfartalog Cymru o tua phedair gwaith incwm aelwydydd adeg datganoli i dros saith gwaith incwm aelwydydd erbyn 2007. Er bod fforddiadwyedd wedi gwella yn dilyn yr argyfwng ariannol byd-eang ac mae wedi gwella ers y cyfnodau brig yn ystod y pandemig, mae fforddiadwyedd yn dal yn wannach nag yr oedd adeg datganoli.


Mae'r siart hefyd yn tynnu sylw at y ffordd mae pwysau fforddiadwyedd wedi amrywio ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru dros amser. Ehangodd y gwahaniaethau mewn fforddiadwyedd (sy'n cael eu dangos gan yr ardal lwyd ehangach) yn ystod twf y farchnad dai yn y 2000au. Cyrhaeddodd y bwlch rhwng yr awdurdodau lleol mwyaf a lleiaf fforddiadwy ei bwynt ehangaf ddiwedd y 2000au cyn culhau yn ystod y cyfnod o dwf gwannach mewn prisiau tai yn dilyn yr argyfwng ariannol byd-eang. Ehangodd yr ystod eto yn ystod twf yn y farchnad dai ar ôl y pandemig, ond mae wedi gostwng eto yn y blynyddoedd diwethaf i fod yn is na'i chyfartaledd hirdymor, sy'n dangos gostyngiad yn y bwlch rhwng y marchnadoedd tai lleol mwyaf a lleiaf fforddiadwy yng Nghymru.

Er gwaethaf y culhau hwn yn ddiweddar, mae amrywiad sylweddol yn parhau ledled Cymru. Yn y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2024, roedd cymarebau fforddiadwyedd yn amrywio o 7.9 ym Mro Morgannwg i 3.6 ym Mlaenau Gwent, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 5.4. Yn gyffredinol, roedd pwysau fforddiadwyedd ar eu huchaf mewn rhannau o Dde-ddwyrain Cymru, gan gynnwys Bro Morgannwg a

Chaerdydd, tra bod cyn ardaloedd diwydiannol fel Blaenau Gwent yn parhau i fod yn gymharol fforddiadwy.

Ffigur 37 - Cymarebau fforddiadwyedd prynu tai ar draws awdurdodau lleol Cymru, 1998-99 i 2023-24

Testun amgen: Siart linell yn dangos cymarebau fforddiadwyedd prynu tai ar draws awdurdodau lleol Cymru rhwng y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ym 1999 a'r flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2024. Mae'r ardal dywyll yn cynrychioli'r ystod o gymarebau fforddiadwyedd a welwyd ar draws y 22 awdurdod lleol yng Nghymru, tra bo'r gyfres a amlygwyd yn dangos cyfartaledd Cymru ynghyd ag enghreifftiau dethol o awdurdodau lleol. Mae cymarebau uwch yn dangos fforddiadwyedd is, gan fod prisiau tai yn cynrychioli lluosrif mwy o incwm gwario aelwydydd. Mae'r llinell doredig goch yn dangos meincnod fforddiadwyedd y SYG o bum gwaith incwm aelwydydd.



Ffynhonnell: Ystadegau Fforddiadwyedd Prynu Tai y SYG

Masnach Ryngwladol

Mae masnach ryngwladol yn sbardun allweddol sy'n hybu cynhyrchiant. Mae tystiolaeth y SYG yn dangos bod allforwyr Cymru 32% yn fwy cynhyrchiol ar gyfartaledd na'r rhai nad oeddent yn allforio rhwng 2011 a 2022.[78] Ar gyfer mewnforwyr Cymru, roedd y premiwm cynhyrchiant cyfartalog yn nes at 28%.

Yn erbyn cefndir o dwf masnach fyd-eang cryf yn ystod hanner cyntaf 2026[79], gyda masnach nwyddau a gwasanaethau i fyny 12.5% a 10.5% yn y drefn honno o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2025, mae pwysau prisiau'n debygol o fod yn chwarae rhan fawr. Er bod disgwyl i dwf masnach byd-eang aros yn gadarnhaol - wedi'i sbarduno'n bennaf gan fasnach mewn sectorau sy'n ymwneud ag AI a cherbydau trydan, mae twf yn debygol o fod yn anghyfartal â thensiynau geowleidyddol (disgrifir manylion a rhagolygon y rhain yn yr adrannau uchod) gan sbarduno ad-drefnu cadwyni cyflenwi byd-eang.


Mae Cymru yn wlad gymharol fasnach-ddwys gydag allforion nwyddau rhyngwladol wedi cyfrif am tua 22% o'r allbwn (GDP) yn 2023.[80] Mae hyn yn gyson uwch nag unrhyw wlad arall yn y DU na rhanbarth yn Lloegr, ac ymhell uwchlaw'r DU gyfan (14%). Mae ehangu mynediad at farchnadoedd y tu hwnt i rai domestig yn arwain at lawer o fanteision economaidd ac mae hefyd wedi golygu bod Cymru efallai wedi gallu elwa yn ystod cyfnodau pan oedd masnach fyd-eang yn agor. Ond mae hefyd wedi dod â risgiau, a gallai Cymru nawr fod yn fwy agored i siociau economaidd negyddol economïau eraill, neu yn sgil newidiadau i berthnasau masnachu nwyddau, ac yn fwy na rhannau eraill o'r DU.

Ar y cyfan, mae allforion Cymru yn cael eu dominyddu gan nwyddau, a oedd yn cyfrif am tua 67% o gyfanswm allforion Cymru yn 2023, sy'n llawer uwch na'r 46% ar gyfer y DU. Roedd allforion gwasanaethau yn cyfrif am oddeutu 11% o allbwn Cymru (GDP), sy'n is na'r DU (17%), a hefyd yn is na'r Alban ar 17% a Lloegr ar 18%, ond ychydig yn uwch na Gogledd Iwerddon ar 9%. Mae tariffau'n tueddu i effeithio llai ar wasanaethau na mathau eraill o reoliadau, oherwydd bod tariffau ond yn cael eu cymhwyso'n uniongyrchol i nwyddau.

[78] ONS Trade and Productivity in British firms 2005 to 2022
[79] UNCTAD Global Trade Update (Gorffennaf/Awst 2026)
[80] Ffynonellau: ONS Regional gross domestic product: all ITL regions (table 5) Subnational trade timeseries - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Ffigur 38 - Cyfran o GDP Allforio Nwyddau Gwledydd y DU, 2016-2023

Testun amgen: Siart colofnau wedi'u grwpio yn dangos allforio nwyddau fel cyfran o GDP ar gyfer Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a'r Deyrnas Unedig rhwng 2016 a 2023. Cymru sydd â'r gyfran allforio uchaf bob blwyddyn, ac mae'n amrywio o tua 20% i 26% o GDP. Yn gyffredinol, mae'r Alban a Gogledd Iwerddon rhwng 15% ac 20%, ac mae cyfartaledd y DU yn dal yn is, sef tua 14% i 17%. Yn 2023, roedd allforio nwyddau yn cyfrif am 22% o GDP yng Nghymru, 15% yn yr Alban, 20% yng Ngogledd Iwerddon a 14% ar gyfer y DU yn gyffredinol.



Ffynhonnell: GDP is-genedlaethol y SYG a Chyfres Amser Masnach Is-genedlaethol y SYG (Masnach Nwyddau)

Masnach rhwng Cymru a'r UDA

Mae natur stopio a chychwyn a newid yn gyflym y polisïau newydd a gyflwynwyd gan yr Unol Daleithiau (UDA) yn golygu ei bod hi'n heriol ymgymryd â dadansoddiad ystyrlon o'r effeithiau posibl. Serch hynny, mae'n farchnad allforio nwyddau allweddol i Gymru, yr ail fwyaf, sy'n cyfrif am 14.3%[81] o gyfanswm allforion nwyddau Cymru.

Ar ben hynny, mae tua dwy ran o dair o allforion Cymru i'r Unol Daleithiau yn nwyddau, sy'n llawer uwch na'r traean ar lefel y DU.[82] Mae'r gyfran gymharol uwch

[81] Yn seiliedig ar Ystadegau Masnach Ranbarthol CThEF o'r flwyddyn a ddaeth i ben yn Ch2 2026
[82] Masnach Is-genedlaethol y SYG (2023)

hon o allforion nwyddau yn awgrymu y gallai'r tariffau a osodir ar fewnforion i'r Unol Daleithiau gael effaith anghymesur ar Gymru.

Mae dadansoddiad diweddar yn awgrymu bod allforion Cymru i'r Unol Daleithiau wedi bod yn gyfnewidiol ar draws sectorau ers i'r tariffau gael eu cyflwyno yn ystod chwarter cyntaf 2025, sy'n golygu ei bod hi'n anodd asesu'r effaith. Mae gostyngiadau o ran allforio tanwyddau mwynol (sydd wedi'u heithrio gan mwyaf o dariffau) a chemegau wedi cael eu gwrthbwyso'n rhannol gan gynnydd o ran allforio peiriannau ac offer trafnidiaeth. Mae hyn yn awgrymu na ellir priodoli'r newidiadau a welwyd yn llwyr i gyflwyno tariffau'r Unol Daleithiau ac mae'n debygol eu bod yn adlewyrchu dylanwad ffactorau ehangach yn y farchnad, gan gynnwys y gwrthdaro yn y Dwyrain Canol. Er hyn, mae allforion Cerbydau Ffordd y DU i'r Unol Daleithiau wedi gostwng £3.2bn (-35.0%) ar ôl cyflwyno tariffau'r Unol Daleithiau, gostyngiad llawer mwy na'r hyn a welwyd ar gyfer cyrchfannau allforio eraill yn y sector hwn. Mae adroddiad diweddar gan Brifysgol Aston[83] yn nodi bod y sector modurol yng Nghymru wedi'i wreiddio'n ddwfn yng nghadwyni cyflenwi ehangach y DU ac mae'n tynnu sylw at y ffaith bod mesurau tariff yr Unol Daleithiau yn peri risg anuniongyrchol i gwmnïau yng Nghymru drwy ymatebion y gadwyn gyflenwi, hyd yn oed pan nad yw cwmnïau Cymru yn allforio'n uniongyrchol i'r Unol Daleithiau.

Mae theori disgyrchiant masnach wedi darganfod bod agosrwydd daearyddol yn ffactor allweddol mewn perthnasoedd masnachu ac yn helpu i egluro pam mae Cymru'n masnachu mwy gyda gweddill y DU ac Ewrop na gweddill y byd. Mae Cymru yn dal â'i gwreiddiau'n ddwfn yn economi'r DU, fel yr eglurwyd gyntaf yn argraffiad 2024 yr adroddiad hwn. Mae'r data diweddaraf o Arolwg Masnach Cymru wedi darganfod bod tua thraean o'r gwerthiannau nwyddau a gwasanaethau o fusnesau Cymru wedi mynd i weddill y DU, o'i gymharu â 17% a aeth i gyrchfannau rhyngwladol. Ar y llaw arall, roedd 42% o holl bryniant busnesau wedi dod o weddill y DU, gan danlinellu pwysigrwydd masnach o fewn y DU i fusnesau Cymru. Ategir hyn ymhellach gan y dystiolaeth o Arolwg y SYG o Ganfyddiadau ac Amodau Busnes (BICS) [84] a adroddodd fod 56.7% o fusnesau yng Nghymru wedi gwerthu nwyddau neu wasanaethau i gwsmeriaid yng ngweddill y DU yn ystod y 12 mis diwethaf, sef yr uchaf o blith holl wledydd y DU a rhanbarthau Lloegr.

Yn rhyngwladol, mae'r Undeb Ewropeaidd (UE) hefyd yn parhau i fod y farchnad fwyaf ar gyfer allforio nwyddau o Gymru[85], ac mae'n cyfrif am 58.3% o werth allforio nwyddau Cymru, o'i gymharu â 49.4% ar lefel y DU. Mae'r gyfran hon wedi bod yn fwyfwy cyfnewidiol ers i'r DU ymadael â'r UE, ond mae'n cael ei sbarduno'n fras gan werth allforion o'r tu allan i'r UE sy'n tyfu'n gyflymach nag allforion yr UE. Mae hyn yn tynnu sylw at berfformiad masnach cymharol wael Cymru ers ymadael â'r UE, ond gellid priodoli hyn yn rhannol hefyd i'r cytundebau masnach rydd y mae'r DU wedi

[83] Disgwylir i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi yn yr Hydref 2026
[84] SYG, Business insights and impact on the UK economy: 20 August 2026
[85] CThEF, Y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2026

bod yn eu llofnodi gyda thrydydd gwledydd, gan gynnwys cytundeb Cyngor Cydweithredol y Gwlff a'r DU a ddaeth i ben yn ddiweddar. Er bod effeithiau amcangyfrifedig y cytundebau hyn yn gymharol isel o'u cymharu â cholli mynediad llawn i farchnad yr UE, maent yn cynnig manteision sylweddol i fusnesau yng Nghymru sy'n masnachu â'r gwledydd unigol hynny.

Perfformiad masnach Cymru dros amser


Yn dilyn diwygiadau i ystadegau masnach ranbarthol CThEF yn gynharach eleni[86], mae perfformiad allforio Cymru dros amser bellach yn dilyn trywydd mwy cadarnhaol nag yr adroddwyd yn flaenorol. Cyrhaeddodd gwerth allforion uchafbwynt yn y flwyddyn a ddaeth i ben yn Chwarter 2 2023. Credir bod hynny wedi'i sbarduno'n bennaf gan brisiau olew uchel yn fyd-eang. Fodd bynnag, ers hynny, mae'r duedd ar i lawr wedi sefydlogi gyda gwerth allforion nwyddau Cymru yn tyfu dros y flwyddyn ddiwethaf. Fel y gwelir yn **Ffigur *39***, mae gwahaniaeth rhwng metrigau perfformiad masnach nwyddau diweddar Cymru. Fe wnaeth gwerth masnach gynyddu'n gyflymach yn 2022, o bosibl oherwydd y cynnydd mewn prisiau, ac mae'n dal yn uwch na'r lefelau cyn y pandemig yn ôl y data diweddaraf. I'r gwrthwyneb, adferodd swmp masnach Cymru i lefelau cyn y pandemig yn 2022, ond mae wedi dilyn llwybr am i lawr ers hynny, ac mae'n is o lawer na'r lefelau cyn y pandemig ar hyn o bryd.[87]

[86] Wedi'i sbarduno gan ddiwygiadau i SITC33 a SITC34.

[87] Gall newidiadau yng nghyfansoddiad nwyddau effeithio ar amcangyfrifon o swmp y fasnach. O ganlyniad, gallai rhan o'r gostyngiad adlewyrchu newidiadau yn y cymysgedd o nwyddau sy'n cael eu hallforio yn hytrach na gostyngiad gwirioneddol yn swmp y fasnach, felly dylid cymryd pwyll.

Ffigur 39 - Mynegai perfformiad masnach nwyddau Cymru yn ôl Gwerth a Swmp, 2014-2015 i 2025-26 (Ch2 2019=100)

Testun amgen: Siart linell yn dangos mynegeion perfformiad masnach nwyddau Cymru ar gyfer allforion a mewnforion, yn ôl gwerth a swmp, wedi'i fynegeio i Ch2 2019 (=100). Gostyngodd gwerthoedd allforion a mewnforion yn sydyn yn 2020-21 cyn adfer yn gryf a rhagori ar y lefelau cyn y pandemig erbyn 2022. Erbyn 2026, mae gwerthoedd allforio a mewnforio yn dal yn uwch na llinell sylfaen 2019, tra bo swmp allforio a mewnforio yn dal yn is na hynny, sy'n awgrymu bod gwerthoedd masnach wedi tyfu'n gyflymach na'r swmp ffisegol.




Sylwer: Nid yw'r echelin fertigol yn cychwyn ar sero.
Ffynhonnell: Ystadegau Masnach Ranbarthol mewn Nwyddau CThEF

Yn fwy cyffredinol yn y flwyddyn ddiwethaf[88], mae Cymru wedi perfformio'n well na holl wledydd eraill y DU yn ogystal â'r DU yn ehangach o ran perfformiad allforio nwyddau, gyda thwf o 5.3% o'i gymharu â thwf o 1.6% ar gyfer y DU gyfan, gweler **Ffigur *40***.

[88] Y flwyddyn a ddaeth i ben yn Ch2 2026 o'i gymharu â'r Flwyddyn a ddaeth i ben yn Ch2 2025.

Ffigur 40 - Perfformiad Allforio Nwyddau yn ôl gwlad y DU Ch2, 2015 i Ch2, 2026 (Mynegai: Ch2, 2019=100)

Testun amgen: Siart linell yn dangos gwerth allforio nwyddau ar gyfer Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a'r DU, wedi'i fynegeio i Ch2 2019 = 100. Gwelodd pob gwlad ddirywiad yn ystod 2020-21, ac yna adferiad cryf. Erbyn 2026, Gogledd Iwerddon sy'n cofnodi'r twf allforio cryfaf o'i gymharu â 2019, wedi'i ddilyn gan Gymru a'r DU, tra bo'r Alban yn dal yn is na'r brig a welodd cyn y pandemig.



Ffynhonnell: Ystadegau Masnach Ranbarthol mewn Nwyddau CThEF

Deng mlynedd ers y refferendwm ar ymadael â'r UE

Mae consensws eang ymysg economegwyr bod ymadael â'r UE wedi cael effaith economaidd negyddol fawr ar economi'r DU, gyda'r effeithiau'n cronni dros amser. Er nad oes amcangyfrifon swyddogol yn amlinellu'r effaith ar Gymru, gellir defnyddio tystiolaeth ar lefel y DU i bennu cyfeiriad cyffredinol yr effaith ar Gymru.

Canfu tystiolaeth gan y Ganolfan Diwygio Ewropeaidd fod ymadael â'r UE wedi lleihau masnach y DU â'r UE yn sylweddol, a hynny o ran nwyddau a gwasanaethau. Mae wedi canfod bod mewnforion ac allforion nwyddau tua 14% ac 16% yn is, ac mae'r bwlch ar gyfer gwasanaethau tua 19% ar gyfer mewnforion a 7% ar gyfer allforion. Ar ben hynny, mae wedi dweud na fyddai undeb tollau gyda'r UE yn gwneud llawer i adennill y colledion hynny.

Ochr yn ochr â'r canfyddiad bod lefelau is o fasnach yn gyffredinol rhwng y DU a'r UE (tua 32% o ostyngiad mewn mewnforion a 27% o ostyngiad mewn allforion), mae Prifysgol Aston hefyd wedi dod i'r casgliad bod masnach â'r UE wedi culhau, gyda

33% o ostyngiad yn yr amrywiaeth o gynhyrchion sy'n cael eu hallforio i'r UE. Canfuwyd mai sectorau megis bwyd-amaeth, tecstilau a dillad sydd wedi cael eu taro galetaf. Yn gyffredinol, mae hyn yn awgrymu bod y newid ar ôl ymadael â'r UE mewn cysylltiadau masnach rhwng y DU a'r UE yn annhebygol o fod yn amhariad tymor byr. Yn hytrach mae'n adlewyrchu newidiadau strwythurol dyfnach sy'n debygol o barhau.

Rhagolygon Cyllidol

Mae rhagolwg diweddaraf yr OBR o fis Hydref 2026 yn awgrymu bod cyllid cyhoeddus y DU yn dal o dan bwysau sylweddol. Er y rhagwelir y bydd benthyca'n gostwng, mae hyn yn dibynnu ar y refeniw treth uchaf erioed a chynlluniau gwario tynn. Mae hyn i gyd yn digwydd yn ystod cyfnod o dwf cymharol wan mewn cynhyrchiant, poblogaeth sy'n heneiddio a dyledion sofran uchel.


Mae hyn yn debygol o arwain at bwysau parhaus ar gyllidebau datganoledig, gan gynyddu pwysigrwydd cynhyrchiant ac atal yn y sector cyhoeddus; yn ogystal â pharhau â'r achos dros fuddsoddiadau sy'n gwella twf ledled y DU er mwyn ehangu'r sylfaen drethu a gwella cynaliadwyedd cyllidol.

Gwariant cyhoeddus

Mae gwariant cyhoeddus y DU wedi newid yn ddramatig ers 1900, gweler **Ffigur *41***. Mae wedi codi o tua 10% o GDP i tua 40% yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Er bod amrywiadau wedi bod yn gysylltiedig â digwyddiadau economaidd, yn gyffredinol mae gwariant wedi aros yn llawer uwch nag ar ddechrau'r ganrif. Dros y cyfnod hwnnw, mae cyfansoddiad y gwariant wedi symud yn sylweddol oddi wrth amddiffyn a thuag at iechyd, pensiynau a lles. Heddiw, mae gwariant cyhoeddus yn agos at ei lefel uchaf mewn cyfnod o heddwch y tu allan i argyfyngau mawr, sef tua **40 y cant o GDP.**

Ffigur 41 - Gwariant cyhoeddus y DU fel cyfran o GDP, 1900-01 i 2024-25

Testun amgen: Siart arwynebedd wedi'i stacio yn dangos gwariant cyhoeddus cynradd y DU fel canran o GDP rhwng 1900-01 a 2024-25, gyda chynnydd mawr yn ystod y ddau Ryfel Byd ac twf hirdymor mewn gwariant ar iechyd a nawdd cymdeithasol. Yn 2024-25, mae gwariant yn cyfateb i tua 40% o GDP.



Ffynhonnell: OBR Fiscal Risks and Sustainability 2026.
Sylwer: Mae gwariant sylfaenol yn cynrychioli cost rhedeg gwasanaeth cyhoeddus cyn rhoi cyfrif am gostau benthyca yn y gorffennol. Mae hyn yn golygu nad yw canlyniadau benthyca yn y gorffennol yn effeithio ar gymariaethau gwariant.

Gan edrych ar sut mae gwariant wedi newid yn y DU ers datganoli (1999-00 i 2024-25), gweler **Ffigur *42***, sy'n dangos lle mae llywodraethau'r DU wedi dewis gwario, sydd yn ei dro yn effeithio ar gyllideb Llywodraeth Cymru oherwydd y ffordd mae fformiwla Barnett yn gweithio. Yn gyffredinol, mae gwariant sylfaenol y DU tua 25% yn uwch nag ar ddechrau'r cyfnod fel cyfran o GDP.


Fel yn y tymor hwy, fel y dangosir uchod, mae gwariant ar amddiffyn wedi cael ei leihau, gan orffen y cyfnod tua 10% yn is (fel cyfran o GDP) nag ar ddechrau'r cyfnod. Cynyddodd iechyd ac addysg i ddechrau yn ystod cyfnod cynnar datganoli, ac er bod gwariant ar iechyd wedi parhau i gynyddu, gostyngodd gwariant ar addysg wedyn, gan ddod â'r cyfnod i ben ar yr un lefel â 1999-00, ond gyda newid is na chyfanswm gwariant, felly cyfran is o wariant yn gyffredinol. Tra bod gwariant ar iechyd wedi gorffen 175% yn uwch ac wedi cynyddu mwy na chyfanswm y gwariant,

gan ddangos sut mae wedi dod yn gyfran uwch o gyfanswm y gwariant a'r economi dros y cyfnod datganoli.

Cynyddodd gwariant nawdd cymdeithasol yn y DU hefyd yn ystod dechrau'r cyfnod datganoli ond yna dechreuodd ddisgyn o tua 2010. Mae'n gorffen cyfnod ar oddeutu 12% yn uwch, ond gyda newid is na chyfanswm y gwariant, felly fel cyfran is o'r gwariant.

Ffigur 42 - Newidiadau i wariant cyhoeddus y DU fel cyfran o GDP, 1999-00 i 2024-25 (1999-00=100)

Testun amgen: Siart linell yn dangos newidiadau yng ngwariant cynradd y DU fesul swyddogaeth ers 1999-00. Gwariant iechyd a gynyddodd fwyaf, yn enwedig yn ystod y pandemig, tra bod gwariant amddiffyn wedi gostwng ar y cyfan. Roedd cyfanswm y gwariant tua chwarter yn uwch yn 2024-25 nag yn 1999-00.



Ffynhonnell: OBR Fiscal Risks and Sustainability 2026
Sylwer: Mae gwariant sylfaenol yn cynrychioli cost rhedeg gwasanaeth cyhoeddus cyn rhoi cyfrif am gostau benthyca yn y gorffennol. Mae hyn yn golygu nad yw canlyniadau benthyca yn y gorffennol yn effeithio ar gymariaethau gwariant.

Rhagwelir y bydd gwariant cyhoeddus yn aros ar lefelau hanesyddol uwch drwy gydol cyfnod rhagolwg diweddaraf yr OBR, gan adlewyrchu pwysau parhaus ar les, iechyd, llog ar ddyledion a gwasanaethau cyhoeddus.

Rhagwelir y bydd cyfanswm gwariant cyhoeddus y DU yn codi o 44.5% o GDP yn 2025-26 i 45.7% yn 2027-28, cyn gostwng ychydig i 44.7% o GDP erbyn 2031-32. Hyd yn oed erbyn diwedd y rhagolwg, byddai gwariant yn parhau i fod tua phum pwynt canran o GDP yn uwch na chyn yr argyfwng ariannol a'r pandemig

Tybir y bydd gwariant adrannol (DEL) yn gostwng fel cyfran o GDP dros gyfnod y rhagolwg. Fodd bynnag, fel y nodwyd gan yr OBR yn ei rhagolygon diweddaraf, mae pwysau chwyddiant uwch; gofynion cyflog y sector cyhoeddus; cyflawni targedau effeithlonrwydd; ac ymrwymiadau polisi presennol Llywodraeth y DU yn golygu bod galwadau cynyddol ar gyllidebau i wneud mwy. Gan fod rhai cyllidebau'n cael eu diogelu a bod mathau eraill o wariant yn llai hawdd eu lleihau (fel elfennau o les a llog ar ddyledion), mae pwysau cynyddol wedyn ar weddill gwasanaethau cyhoeddus. Ar ôl ystyried ymrwymiadau i feysydd fel y GIG, amddiffyn ac ysgolion, mae'r OBR yn amcangyfrif y byddai gwariant dydd i ddydd heb ei ddiogelu y DU yn gostwng tua 2.6% y flwyddyn mewn termau real dros dair blynedd olaf y rhagolwg. Byddai angen i wariant fod £11 biliwn yn uwch erbyn 2031-32 er mwyn osgoi gostyngiadau termau real yn y gwasanaethau hynny.

Trethu

Y brif ffordd y mae llywodraethau'n ariannu eu gwariant yw drwy drethi. Mae'r OBR yn rhagweld y bydd derbyniadau treth yn dal yn gymharol uchel fel cyfran o GDP, a rhagwelir y bydd cyfanswm derbyniadau'r sector cyhoeddus yn cynyddu fel cyfran o GDP o 40.1% o GDP (£1.2 triliwn) yn 2025-26 i 42.9% o GDP yn 2031-32.

Pan fydd trethi'n cael eu mesur ar sail Cyfrifon Cenedlaethol[89] fel cyfran o GDP, maent bron â chyrraedd y lefel uchaf erioed yn 2027-28 ac yna'n parhau i godi'n raddol drwy gyfnod rhagolwg yr OBR. Mae trethi personol (treth incwm a chyfraniadau Yswiriant Gwladol) yn cynyddu 1.6% o' GDP, oherwydd cymysgedd o dwf enillion (enwol) a mesurau polisi, fel y trothwyon treth personol wedi'u rhewi tan fis Ebrill 2031. Mae trethi cyfalaf yn cynyddu 0.5% o GDP.

Benthyg

Pan fo refeniw treth (a phob derbyniad arall) yn llai na gofynion gwario llywodraethau, yna mae angen benthyca i ariannu'r gweddill. Er bod disgwyl i fenthyca yn y DU ostwng dros y cyfnod rhagolwg diweddaraf, mae'n parhau o fod yn uchel o'i gymharu â safonau hanesyddol, ac er ei fod yn dal yn gadarnhaol mae'n ychwanegu at ddyled y DU (gweler isod). Roedd lefelau benthycau net y sector cyhoeddus (PSNB) ar 10% neu'n uwch o GDP yn ystod yr argyfwng ariannol byd-eang a phandemig COVID-19. Syrthiodd ar ôl pob un o'r digwyddiadau hyn ond mae bob amser wedi bod yn gadarnhaol.

[89] Mae trethi Cyfrifon Cenedlaethol yn cynnwys yr holl drethi sy'n cael eu cydnabod yng Nghyfrifon Cenedlaethol a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol y SYG. Mae derbyniadau presennol y sector cyhoeddus hefyd yn cynnwys derbyniadau llog a difidend y sector cyhoeddus (wedi'u sbarduno gan y llog a gafwyd o bensiynau'r sector cyhoeddus a ariennir a'r llog cronedig ar fenthyciadau i fyfyrwyr), gwarged gweithredu gros y sector cyhoeddus a swm bach o dderbyniadau eraill nad ydynt yn rhai treth (OBR 2026).

Rheolau Cyllidol Llywodraeth y DU

Mae rheolau cyllidol Llywodraeth y DU yn mynnu bod **rhwymedigaethau ariannol net y sector cyhoeddus** yn gostwng fel cyfran o GDP **erbyn 2029-30** a bod y **gyllideb bresennol** mewn **gwarged** yn yr un flwyddyn.

Y diffyg yn y gyllideb ar hyn o bryd yw'r gwahaniaeth rhwng gwariant y llywodraeth o ddydd i ddydd a'i refeniw. Nid yw'r diffyg cyllidebol presennol yn cynnwys gwariant buddsoddi, yn wahanol i ddiffyg cyffredinol y gyllideb. Felly, ystyrir bod y diffyg cyllidebol presennol yn mesur y gwahaniaeth rhwng yr hyn y mae trethdalwyr yn ei gynhyrchu a chost talu am wasanaethau cyhoeddus.


Mae rhagolygon diweddaraf yr OBR yn dangos bod lefelau benthycau net y sector cyhoeddus wedi gostwng ychydig o 4.4% o GDP (£134 biliwn) yn 2025-26 i 4.2% (£133 biliwn) yn 2026-27. Mae wedyn yn gostwng yn raddol i gyrraedd 1.8% o GDP (£67 biliwn) yn 2030-31 ac mae'n parhau i fod yn wastad fel cyfran o GDP yn 2031-32. Mae rhagolygon benthyca diweddaraf yr OBR yn uwch bob blwyddyn o'i gymharu â rhagolwg mis Mawrth, 0.5% o GDP yn y tymor agos a 0.2% o GDP yn 2030-31 - gweler **Ffigur *43***. Mewn termau ariannol, rhagwelir yn awr y bydd lefelau benthycau net y sector cyhoeddus yn uwch bob blwyddyn, £18 biliwn yn 2026-27, £16 biliwn yn 2027-28, ac £11 biliwn ar gyfartaledd bob blwyddyn ar ôl hynny.

Rhagwelir hefyd y bydd y diffyg cyllidebol presennol yn gostwng, o 1.5% o GDP yn 2025-26 (£47 biliwn) i 1.3% (£41 biliwn) yn 2026-27. Rhagwelir wedyn y bydd yn gwella bob blwyddyn ac y bydd gwarged o 0.4 y cant o GDP (£15 biliwn) yn 2029-30 (gan fodloni ei reol gyllidol).

Mae'r lefelau benthycau net y sector cyhoeddus a'r diffyg yn y gyllideb bresennol wedi gweld gostyngiad cymedrol ym mhob blwyddyn o'i gymharu â rhagolwg yr OBR ym mis Mawrth. Mae hyn yn cael ei achosi gan wariant uwch, yn enwedig o log dyledion, sydd ond yn cael ei wrthbwyso'n rhannol gan refeniw trethi uwch. Mae mesurau polisi yng Nghyllideb Hydref y DU 2026 hefyd yn gwaethygu benthyca yn y tymor agos ond yn gwella'r sefyllfa tua diwedd cyfnod y rhagolwg.

Ffigur 43 - Newidiadau mewn benthyca (lefelau benthycau net y sector cyhoeddus) a'r diffyg yn y gyllideb bresennol ers mis Mawrth 2026

Testun amgen: Siart far bentyrrog yn dangos newidiadau mewn benthyca net yn y sector cyhoeddus (lefelau benthycau net y sector cyhoeddus) a'r diffyg cyllidebol presennol rhwng 2026-27 a 2030-31 o'i gymharu â rhagolwg Mawrth 2026. Mae benthyca'n uwch bob blwyddyn, wedi'i sbarduno'n bennaf gan gynnydd mewn llog ar ddyledion a gwariant cyfredol arall, wedi'i wrthbwyso'n rhannol gan dderbyniadau uwch. Mae'r cynnydd mewn benthyca yn lleihau dros amser, gyda lefelau benthycau net y sector cyhoeddus yn cynyddu tua £17 biliwn yn 2026-27 ac £8 biliwn erbyn 2030-31.



Ffynhonnell: OBR

Dyled


Yn bennaf, dyled gyhoeddus yw'r stoc gronedig o fenthyciadau'r llywodraeth yn y gorffennol sy'n deillio o ddiffygion yn y gyllideb. Rhagwelir y bydd dyled net sector cyhoeddus y DU yn codi o 95.5 y cant o GDP yn 2026-27 i 97.3 y cant o GDP yn 2028-29, cyn gostwng i 95.6 y cant o GDP ym mlwyddyn olaf rhagolwg diweddaraf yr OBR, gweler **Ffigur *44***. Mae hyn 0.7 pwynt canran yn uwch eleni ac ar gyfartaledd 0.8 pwynt canran yn uwch bob blwyddyn drwy gydol y rhagolwg o'i gymharu â rhagolwg mis Mawrth yr OBR.

Mesur arall o ddyled yw rhwymedigaethau ariannol net y sector cyhoeddus (PSNFL). Dyma fesur y fantolen sydd wedi'i dargedu yn rheolau cyllidol y Llywodraeth. Mae'n cynnwys rhwymedigaethau nad ydynt yn ymwneud â dyled fel pensiynau a ariennir,

ac asedau ariannol caeth ychwanegol fel benthyciadau (benthyciadau myfyrwyr yn fwyaf arbennig) ac ecwiti (gan gynnwys asedau cynlluniau pensiwn a ariennir). Mae'r OBR yn rhagweld y bydd PSNFL fel cyfran o GDP yn codi i 83.2% yn 2026-27 ac yn cyrraedd uchafbwynt o 83.8% yn 2027-28, cyn gostwng i 83.1% yn 2029-30 (a fydd felly'n bodloni ei reol gyllidol) ac yna i 81.7% erbyn 2031-32. O'i gymharu â mis Mawrth 2026, rhagwelir y bydd PSNFL yn uwch ym mhob blwyddyn o ragolwg yr OBR, 0.5% o GDP yn 2026-27, gan godi i 1.1% erbyn 2030-31. Mae'n bwysig bod y llywodraeth yn lleihau dyled dros y tymor hir, fel bod capasiti cyllidol i ymateb o bosibl pan fo'r argyfwng nesaf yn digwydd, felly efallai na fydd busnesau ac aelwydydd yn agored yn uniongyrchol i'w effaith economaidd lawn. Fel arall, mae perygl na fydd y llywodraeth yn gallu ymateb neu, os bydd yn gwneud hynny, gallai arwain at gostau benthyca hyd yn oed yn uwch na'r rhai a wynebir nawr i genedlaethau'r dyfodol eu talu.

Ffigur 44 - Gwariant llog dyledion y DU a Dyled Net y Sector Cyhoeddus fel cyfrannau o GDP, 1975-76 i 2031-32

Testun amgen: Siart linell yn dangos gwariant llog dyledion y DU a dyled net y sector cyhoeddus fel cyfrannau o GDP rhwng 1975-76 a 2031-32. Mae dyled gyhoeddus yn codi o tua 25% o GDP ar ddechrau'r 1990au i bron 95% erbyn 2031-32, tra bod gwariant llog dyled yn cynyddu i ychydig dros 4% o GDP, ei lefel uchaf ers y 1980au.



Ffynhonnell: OBR

Llog ar ddyledion

Llog ar ddyledion yw cost gwasanaethu dyled Llywodraeth y DU. Dyma'r llog y mae'r Llywodraeth yn ei dalu i fuddsoddwyr sydd wedi rhoi benthyg arian iddi, yn bennaf drwy brynu bondiau'r llywodraeth (a elwir yn aml yn 'giltiau'). Mae cyfran gynyddol o wariant cyhoeddus yn cael ei lyncu gan gostau gwasanaethu dyledion (taliadau llog yn unig), gan leihau'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau rheng flaen a buddsoddiad.

Cynyddodd gwariant llog dyledion yn sylweddol gydag argyfwng COVID-19 yn dilyn tuedd ar i lawr ers canol y 1980au – gweler **Ffigur *44***. Gostyngodd dyled o 50% o GDP yng nghanol y 1970au i 20% o GDP ar ddiwedd y 1980au. Cododd yn ôl i tua 30% yng nghanol y 2000au, cyn cynyddu'n sydyn ar ôl yr argyfwng ariannol byd-eang ac eto ar ôl COVID-19. Ni chynyddodd llog dyledion ar ôl yr argyfwng ariannol byd-eang gan fod cyfraddau llog ar y pryd yn isel iawn.

Mae gwariant llog dyledion y DU wedi codi o £39 biliwn (1.7% o GDP) yn 2019-20 i £109 biliwn (3.5% o GDP) yn 2025-26 ac mae'r OBR yn rhagweld y bydd yn cyrraedd £160 biliwn (4.2% o GDP) erbyn 2031-32. Mae cost cyfle uniongyrchol ynghlwm wrth hyn, mae'n fwy na'r refeniw o dreth gorfforaeth a phe bai'n adran o Lywodraeth y DU, byddai ei chyllideb yn debyg i gyllideb un o adrannau mwyaf Whitehall. Ond yn wahanol i wario ar y rheini, nid yw llog ar ddyledion yn darparu gwasanaethau cyhoeddus yn uniongyrchol.

Pan fo twf yn fwy na chostau benthyca, mae dyled yn dod yn haws ei rheoli. Fodd bynnag, rydym bellach mewn cyfnod pan fo costau benthyca'n uwch na thwf. Mae hyn yn golygu bod dewisiadau cyllidol yn mynd yn fwy cyfyngedig, yn enwedig wrth geisio lleihau'r ddyled. Gellir disgrifio'r DU, fel llawer o wledydd Ewropeaidd, fel gwlad sydd â: 'diffygion cyllidol parhaus y mae wedi brwydro i'w rheoli ers y pandemig. Prin yw'r twf, mae beichiau treth yn uchel ac mae'r rhan fwyaf o wledydd wedi'u cloi mewn gwladwriaeth les ddrud, nad yw eu dinasyddion yn fodlon rhoi'r gorau iddi.'[90]

Er bod twf cynhyrchiant yn dal yn gymharol isel ac o ystyried y cyfyngiadau ar fenthyca pellach, yn y pen draw bydd llywodraeth y DU yn gorfod cyfaddawdu rhwng cyflogau'r sector cyhoeddus, darparu gwasanaethau a threthiant er mwyn ymateb i'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus. Mae Llywodraeth Cymru yn wynebu'r un pwysau a chyfaddawdau anodd.

Balansau cyllidol yn y DU

Darperir balansau cyllidol ar lefel is na'r DU o'r ystadegau Country and Regional Public Sector Finance (CRPSF) a gyhoeddir gan y SYG. Mae'r rhain yn berthnasol i'r blynyddoedd hyd at 2024-25. Dyma'r unig ystadegau swyddogol sy'n dod â ffigurau refeniw a gwariant at ei gilydd i ddarparu gwybodaeth am y balans cyllidol net ar draws gwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr.

Mae'n dangos, ar gyfer pob gwlad yn y DU a rhanbarth yn Lloegr, **y refeniw sector cyhoeddus** a godwyd yn yr ardal (trethi a refeniw arall y llywodraeth); **gwariant y sector cyhoeddus** er budd yr ardal; a'r **balans cyllidol net** (refeniw llai gwariant), sy'n dangos a amcangyfrifir y bydd yr ardal yn rhedeg gwarged neu ddiffyg cyllidol ymhlyg. Mae'r amcangyfrifon yn rhoi amcan o ddadgyfuno mewn perthynas â chyllid cyhoeddus ar draws gwahanol rannau'r DU o dan y set bresennol o drefniadau treth, lles a gwariant eraill.

Mae hyn yn wahanol i fesur o gyllid llywodraethau datganoledig (fel Llywodraeth Cymru), gan fod refeniw a gwariant llywodraeth y DU yn cael eu cynnwys. Felly, mae'r amcangyfrifon hyn yn cynrychioli sefyllfa gyllidol tiriogaeth yn y DU, yn hytrach na sefyllfa cyllideb unrhyw weinyddiaeth ddatganoledig. Mae materion cysyniadol a methodolegol yn gysylltiedig â chynhyrchu'r ystadegau hyn.

[90] Whose fiscal problems would you prefer? (Financial Times Cyhoeddwyd 31 Awst 2026)


Yn 2024-25, codwyd £41.5 biliwn mewn refeniw yng Nghymru. Mae hyn yn cyfateb i £13,019 y pen, sy'n uwch na Gogledd Iwerddon a Gogledd-ddwyrain Lloegr, ond mae'n is na'r Alban a rhanbarthau eraill Lloegr, gweler ***Ffigur 45***. Mae 60% o refeniw yng Nghymru yn dod o dreth incwm, TAW, a chyfraniadau yswiriant gwladol. Mae hyn yn debyg i'r DU gyfan, ond gyda chyfran uwch o TAW a chyfran lai o dreth incwm.

Yn 2024-25, roedd gwariant cyhoeddus yng Nghymru yn £20,168 y pen. Roedd hyn 8% yn uwch na chyfartaledd y DU (£18,628 y pen). Mae gwariant yn cynnwys rhaglenni gwariant a phriodoleddau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel amddiffyn a llog ar ddyledion ar sail poblogaeth. Cymru oedd â'r pedwerydd gwariant uchaf y pen yn y DU yn 2024-25, y tu ôl i'r Alban (£21,127), Llundain (£21,017) a Gogledd Iwerddon (£20,866).

Wrth roi'r rhifau refeniw a gwariant at ei gilydd, mae'r ystadegau'n dangos bod gan Gymru falans cyllidol net negyddol parhaus - mae'r refeniw a godir yng Nghymru yn is na gwariant cyhoeddus er budd Cymru. Mae hyn hefyd yn wir ar gyfer y rhan fwyaf o ranbarthau Lloegr a gwledydd eraill y DU. Yn 2024-25, roedd Diffyg Cyllidol Net Cymru yn £22.8 biliwn. Roedd hyn wedi codi o £20.9 biliwn yn 2023-24. Ledled y DU, roedd gan bob ardal ar wahân i Lundain a De-ddwyrain Lloegr ddiffygion cyllidol yn 2024-25. Mae Diffyg Cyllidol Net Cymru yn cyfateb i £7,149 y pen, sef y diffyg uchaf ond un y pen ar draws gwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr, y tu ôl i Ogledd Iwerddon.

Ffigur 45 - Refeniw, gwariant a balans cyllidol net y pen, 2024-25

Testun amgen: Siart far yn dangos refeniw, gwariant a balans cyllidol net y pen ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU yn 2024-25. Mae gan bob ardal ac eithrio Llundain falans cyllidol net negyddol, sy'n dangos bod gwariant yn fwy na refeniw. Llundain sy'n cynhyrchu'r refeniw uchaf y pen a dyma'r unig ardal sydd â balans cyllidol cadarnhaol. Mae gan Gymru refeniw is y pen na gwariant, ac mae hynny'n arwain at ddiffyg cyllidol sy'n uwch na chyfartaledd y DU.



Ffynhonnell: [Country and regional public sector finances, UK: financial year ending 2025 - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol]

Mae ystadegau cyllid cyhoeddus rhanbarthol y SYG yn awgrymu bod diffyg cyllidol cynharol fawr Cymru yn cael ei sbarduno'n bennaf gan wariant uchel a refeniw isel y pen, gyda'r sylfaen drethu gymharol lai yn effeithio'n ar yr ochr refeniw. Byddai disgwyl i bolisïau sy'n cynyddu cynhyrchiant ac enillion gryfhau'r prif refeniw treth a, gyda phopeth arall yn gyfartal, lleihau'r diffyg cyllidol dros amser.

Setliad a chyllid Llywodraeth Cymru


Cafodd setliad grant bloc adnoddau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2027-28 a 2028-29 ei osod am y tro cyntaf yn yr Adolygiad o Wariant ym mis Mehefin 2025, ynghyd â setliad cyfalaf hyd at 2029-30. Mae diwygiadau dilynol wedi cael eu gwneud i'r setliad hwn, yn fwyaf diweddar yng Nghyllideb Hydref 2026 Llywodraeth y DU. Mae'r newidiadau hyn wedi cael eu hystyried yng Nghyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru, ynghyd â rhagolygon newydd ar gyfer y trethi datganoledig sy'n cael eu cyhoeddi yn Rhagolwg Economaidd a Chyllidol diweddaraf yr OBR. Mae Rhagolygon yr OBR ar

gyfer Trethi Cymru, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru yn cynnwys manylion llawn am ragolygon y trethi datganoledig.

Mae'r grant bloc yn ariannu 79% o gyllideb Llywodraeth Cymru, gyda'r refeniw trethi datganoledig a'r ardrethi annomestig yn cyfrif am 20% a benthyca cyfalaf yn 1% (**Ffigur *46***).

Ffigur 46 – Ariannu Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2027-28

Testun amgen: Siart gylch yn dangos cyfansoddiad ariannu cyllideb Llywodraeth Cymru. Mae'r grant bloc yn cyfrif am 79% o'r cyfanswm, gyda chyfraddau treth incwm Cymru, y dreth trafodiadau tir a'r dreth gwarediadau tirlenwi, ardrethi annomestig, a benthyca yn cyfrif am 15%, 1%, 4%, ac 1% yn y drefn honno.




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Mae dadansoddiad dosbarthiadol ar wahân yn dangos effaith rhaglenni gwario adnoddau Llywodraeth Cymru yn 2027-28 ar draws y dosbarthiad incwm yn cael ei gyhoeddi ar wahân ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft.

Disgwylir i gyfanswm cyllideb adnoddau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys yr holl elfennau a restrir uchod, ostwng 0.5% mewn termau real yn 2027-28 ac yna cynyddu 1.8% yn 2028-29. Mae twf cyfartalog mewn termau real dros y ddwy flynedd o 0.6% tua chwarter hynny dros y degawd blaenorol. Os bydd setliad adnoddau Llywodraeth Cymru yn tyfu yn unol â thybiaethau cyffredinol Llywodraeth y DU ar gyfer Terfynau Gwariant Adrannol Adnoddau ar ôl 2028-29, bydd y cynnydd yn y gyllideb adnoddau yn parhau i fod yn gyfyngedig dros y tymor canolig (**Ffigur 47**).

Ffigur 47 – Cyllideb Adnoddau Llywodraeth Cymru mewn termau real, £m

Testun amgen: Siart linell yn dangos cyllideb adnoddau Llywodraeth Cymru rhwng 1999-00 a 2028-29 a rhagamcan hyd at 2031-32 mewn termau real. Roedd cyfnodau o dwf cryf dros y 10 mlynedd gyntaf a rhwng 2019-20 a 2026-27. Mae twf y blynyddoedd i ddod yn is nag yn y blynyddoedd diwethaf.




Sylwer: Nid yw echelin y siart yn cychwyn ar sero. Ac eithrio cyllid COVID yn 2020-21 a 2021-22.
Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Mae'r gyllideb gyfalaf gyffredinol 2.8% yn is mewn termau real yn 2027-28 o'i chymharu â'r uchelfannau diweddar yn 2026-27. Bydd yn parhau i ostwng yn y ddwy flynedd sy'n weddill o dan yr adolygiad presennol o wariant, fel bod y gyllideb yn 2029-30 9% yn is mewn termau real nag yn y flwyddyn gyfredol. Nid oes setliad cyfalaf y tu hwnt i 2029-30 ond, o ystyried y gostyngiadau diweddar a'r pwysau parhaus ar Lywodraeth y DU i gynyddu gwariant ar amddiffyn, mae **Ffigur *48*** yn dangos y trywydd ar gyfer gweddill cyfnod rhagolwg yr OBR os bydd setliad cyfalaf Llywodraeth Cymru yn aros yn wastad o ran arian. Mae **Ffigur *48*** hefyd yn tybio bod y terfyn benthyca cyfalaf blynyddol yn cael ei ddefnyddio'n llawn. Mae hyn yn golygu y byddai'r terfyn benthyca cyfalaf cyfunol yn cyfyngu ar fenthyca blynyddol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf a ddangosir. Mae hyn hefyd yn cyfrannu at y trywydd am i lawr a ddangosir. Byddai proffil gwahanol o fenthyca cyfalaf yn cael rhywfaint o effaith ar broffil cyffredinol y gyllideb gyfalaf, ond ni fyddai'n effeithio'n fawr ar y darlun mawr.

Ffigur 48 – Cyllideb Gyfalaf Gyffredinol Llywodraeth Cymru mewn termau real, £m

Testun amgen: Siart linell yn dangos cyllideb gyfalaf gyffredinol Llywodraeth Cymru rhwng 1999-00 a 2029-30 a rhagamcan hyd at 2031-32 mewn termau real. Mae'r patrwm dros amser yn gyfnewidiol ond gyda thuedd gyffredinol ar i fyny. Fodd bynnag, mae gostyngiadau bob blwyddyn ar ôl 2026-27.



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Cyhoeddir cyfres ddata ar gyllidebau refeniw a chyfalaf hanesyddol dros y tymor hir ochr yn ochr â'r Gyllideb Derfynol.

Trethi datganoledig

Mae ffigurau rhagamcanol y gyllideb adnoddau uchod yn cynnwys yr effaith net a ragwelir ar refeniw trethi datganoledig. Mae'r adran hon yn rhoi rhagor o fanylion am y rhagolygon hynny.

Roedd Rhagolwg Economaidd a Chyllidol yr OBR ar gyfer mis Hydref yn cynnwys rhagolygon newydd ar gyfer y trethi datganoledig ac ar gyfer trethi cyfatebol y DU sy'n cael eu defnyddio i gynhyrchu'r addasiadau cysylltiedig i'r grant bloc. Mae Rhagolygon yr OBR ar gyfer Trethi Cymru, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru yn cynnwys rhagor o fanylion am y rhagolygon.


Mae rhagolygon yr OBR ar gyfer trethi cyfatebol y DU hefyd yn effeithio ar gyllideb Llywodraeth Cymru drwy'r addasiadau i'r grant bloc. Dangosir effaith gyllidebol net

trethiant datganoledig, gan gynnwys addasiadau i'r grant bloc a'r rhagolygon treth a ddefnyddir mewn cyllidebau yn **Ffigur *49***.

Mae'r sefyllfa net hefyd yn cynnwys effaith symiau cysoni mewn perthynas â gwallau yn y rhagolygon mewn blynyddoedd blaenorol. Mae rhagor o fanylion am y symiau hyn yn Atodiad A i Adroddiad y Gyllideb Ddrafft. Yn gyffredinol, disgwylir i'r tair treth ddatganoledig barhau i wneud cyfraniad cadarnhaol at gyllideb Llywodraeth Cymru, gyda sefyllfa net flynyddol ddisgwyliedig o tua £700m o 2027-28 hyd at ddiwedd cyfnod y rhagolwg.

Ffigur 49 – Y sefyllfa net rhwng rhagolygon trethi datganoledig a'r addasiadau grant bloc

Testun amgen: Siart far bentyrrog yn dangos y gwahaniaeth rhwng refeniw trethi datganoledig a'r addasiadau cysylltiedig i'r grant bloc ar gyfer cyfraddau treth incwm Cymru, y dreth trafodiadau tir, a'r dreth gwarediadau tirlenwi rhwng 2022-23 a 2031-32. Mae'n dangos sefyllfa net gadarnhaol gynyddol dros y cyfnod, o tua £100m yn 2022-23 i £700m yn 2031-32.



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Senarios ar gyfer cyllidebau yn y dyfodol

Mae'r amcanestyniadau tymor hirach yn **Ffigur 50Error! Reference source not found.** yn defnyddio'r rhagolwg tymor canolig a ddangosir yn **Ffigur 47Error! Reference source not found.** fel man cychwyn. Yna, ystyrir tri senario ar gyfer y cyfnod o 2031-32 i 2037-38.

Senario un: Amcanestyniadau gwariant yr OBR

- Ar sail amcanestyniadau llinell sylfaen yr OBR o'i Adroddiad Risgiau a Chynaliadwyedd Cyllidol 2026, mae gwariant Llywodraeth y DU sy'n berthnasol i'r cyllid grant bloc yn tyfu'n gyflymach na GDP drwy gydol cyfnod ei amcanestyniad. Heb fesurau lliniaru, mae'r senario hwn yn symud dyled y sector cyhoeddus i lwybr anghynaliadwy yn y pen draw.

Senario dau: Mae gwariant yn cynyddu law yn llaw â GDP

- Mae gwariant Llywodraeth y DU sy'n berthnasol i arian grant bloc Llywodraeth Cymru ar gyfer gwariant o ddydd i ddydd yn tyfu ar yr un gyfradd ag economi'r DU. Mae'r senario hwn yn adlewyrchu sefyllfa lle mae Llywodraeth y DU yn fodlon cynnal y sefyllfa gyllidol yn fras ar ddiwedd y cyfnod rhagolwg tymor canolig presennol.


Senario tri: Twf un pwynt canran yn llai na chynnyrch domestig gros

- Gwariant perthnasol Llywodraeth y DU yn cynyddu un pwynt canran yn arafach nag economi'r DU. Mae hyn yn adlewyrchu senario lle mae galw am leihau dyled yn gyflymach neu mae elfennau eraill o wariant y DU – fel pensiynau, amddiffyn neu log ar ddyledion – yn cynyddu'n gyflymach.

Bydd cyllideb adnoddau Llywodraeth Cymru'n tyfu ar gyfradd debyg i'r hyn a welwyd yn y 2000au neu yn hanner cyntaf y ddegawd bresennol yn ôl senario gwariant yr OBR. Y senario hwn sydd fwyaf tebygol o ddarparu'r adnoddau angenrheidiol i ateb y galw am wasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol ond, ac ystyried casgliad yr OBR y bydd hyn yn arwain yn y pen draw at dwf anghynaliadwy yn nyled net y sector cyhoeddus heb godi trethi, efallai nad hwn fydd y mwyaf tebygol. Mae'r senario canol yn awgrymu y bydd y gyllideb adnoddau yn parhau i dyfu ar tua'r un gyfradd â thros ail hanner y degawd presennol, ac yn y senario isaf mae twf ychydig yn arafach dros y tymor hwy.

Ffigur 50 - Amcanestyniadau hirdymor ar gyfer gwariant Llywodraeth Cymru o ddydd i ddydd

Testun amgen: Siart linell yn dangos cyllideb adnoddau Llywodraeth Cymru rhwng 1999-00 a 2031-32 (fel y dangosir yn ffigur 47) ynghyd â 3 llwybr posibl ar gyfer twf gwariant yn y dyfodol i 2037-38: Amcanestyniad ar sail galw gan yr OBR, gwariant yn cynyddu law yn llaw â GDP, gwariant yn cynyddu 1 pwynt canran yn arafach na GDP.



Sylwer: Ac eithrio cyllid COVID yn 2020-21 a 2021-22.
Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Cynaliadwyedd cyllidol hirdymor

Mae fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru yn wahanol i fframwaith Llywodraeth y DU: daw'r rhan fwyaf o'r cyllid drwy'r grant bloc, gyda phwerau cyfyngedig i amrywio trethi a benthyca. Felly, dylai'r dadansoddiad tymor hir ar gyfer Cymru ganolbwyntio ar bwysau gwariant, refeniw datganoledig, a digonolrwydd cyllid, tra bo'r OBR yn asesu cynaliadwyedd dyled y DU.

Mae newidiadau mewn strwythur oedran, iechyd, anabledd ac amddifadedd yn gallu effeithio ar anghenion gwario Cymru o'i gymharu â gweddill y DU. Os bydd y pwysau hwn yn cynyddu'n gyflymach yng Nghymru, efallai y bydd cynnal gwasanaethau tebyg yn gofyn am gyfran fwy o wariant cyhoeddus y DU dros amser.

Mae poblogaeth, cyflogaeth, enillion, cynhyrchiant a gwerth eiddo hefyd yn dylanwadu ar refeniw trethi datganoledig a'r fframwaith cyllidol. Mae asesu

anghenion gwariant cymharol ochr yn ochr â chapasiti treth cymharol yn gallu dangos a yw cyllid yn y dyfodol yn debygol o gadw i fyny â'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus Cymru.

Atodiad: Datblygiadau mewn data economaidd

Ystadegau'r farchnad lafur
Cyhoeddodd y SYG ddiweddariad ar ei chynlluniau i wella Ystadegau Economaidd ym mis Gorffennaf 2026 fel rhan o'i hymateb i Adolygiad Devereux y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae'r diweddariad yn manylu ar y datblygiadau y mae'r SYG wedi'u gwneud ar draws ystod o ffynonellau data economaidd a marchnad lafur er mwyn adfer ymddiriedaeth a gwella ansawdd yr ystadegau hyn, ac effaith y newidiadau hyn. Mae'r rhain yn cynnwys gwella meintiau sampl yn yr Arolwg o'r Llafurlu; parhau i asesu'r newidiadau a wnaed i ddyluniad yr Arolwg o'r Llafurlu a Drawsnewidiwyd; ac ehangu'r gwaith o gasglu data electronig mewn perthynas a'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion.

Ym mis Gorffennaf 2026 cyhoeddodd y SYG ddiweddariad ar ei rhaglen waith i wella ansawdd yr amcanestyniadau o'r Arolwg o'r Llafurlu. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am y prif ymyriadau sy'n ymwneud â'r Arolwg. Cafodd y rhain eu gwneud er mwyn mynd i'r afael â phryderon o ran ansawdd. Er bod yr ymyriadau hyn wedi arwain at welliannau mewn cyfraddau a lefelau ymateb, bydd lefelau ar gyfer tonnau penodol yn dal yn isel yn ôl safonau hanesyddol a bydd sicrhau cysondeb â ffynonellau eraill o ddata'r farchnad lafur yn parhau i fod yn her.

Strategaeth hirdymor y SYG o hyd yw disodli'r Arolwg o'r Llafurlu â'r Arolwg o'r Llafurlu a Drawsnewidiwyd. Yn ei diweddariad diweddaraf a'r blog cysylltiedig, cyhoeddodd y SYG, yn dilyn adborth gan ddefnyddwyr, y penderfynwyd gohirio symud i'r Arolwg o'r Llafurlu a Drawsnewidiwyd tan yn ddiweddarach yn 2027, gyda mis Tachwedd 2027 yn cael ei nodi fel y dyddiad trosglwyddo disgwyliedig.

Mae'r SYG wedi cadarnhau na fydd yn ceisio adennill statws ystadegau swyddogol achrededig ar gyfer yr Arolwg o'r Llafurlu a'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, ac y bydd, yn hytrach, yn canolbwyntio ei ymdrechion ar sicrhau bod yr Arolwg o'r Llafurlu a Drawsnewidiwyd yn bodloni'r gofynion ar gyfer achrediad, gyda'r SYG yn cytuno ar y dull gweithredu hwn. Mae'n dal yn briodol defnyddio'r ystadegau hyn, ond dylai defnyddwyr nodi'r ansicrwydd cynyddol ynghylch amcangyfrifon sy'n deillio o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. Ar lefel genedlaethol, mae amcangyfrifon yn parhau i roi arwydd rhesymol o dueddiadau ar gyfer Cymru, yn enwedig os cânt eu defnyddio fel rhan o gasgliad o ddangosyddion gyda ffynonellau amgen fel gwybodaeth amser real CThEF ynghylch gweithwyr cyflogedig, data am swyddi'r gweithlu, a nifer yr hawlwyr. Fodd bynnag, mae amcangyfrifon ar gyfer ardaloedd daearyddol llai neu is-grwpiau poblogaeth yn llai dibynadwy.

I gael rhagor o wybodaeth am yr ymyriadau mae'r SYG wedi'u gwneud i wella ansawdd amcangyfrifon marchnad lafur yr Arolwg o'r Llafurlu a'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a'n cyngor ar ddefnyddio'r ystadegau hyn ar gyfer Cymru, edrychwch ar y fersiwn ddiweddaraf o Diweddariad y Prif Ystadegydd: mesur y farchnad lafur yng Nghymru.

Canlyniadau Addysg Hydredol
Mae Canlyniadau Addysg Hydredol Cymru (LEO Cymru) yn set ddata weinyddol gysylltiedig sy'n galluogi ymchwilwyr a llunwyr polisïau i ddilyn dysgwyr o addysg i gyflogaeth, enillion, astudiaeth bellach, a derbyn budd-daliadau dros amser. Mae'n rhan o raglen ehangach Canlyniadau Addysg Hydredol y DU, ond mae Cymru'n cymryd rhan drwy gytundebau sy'n cysylltu cofnodion addysg Cymru â data marchnad lafur y DU.

Rydym yn archwilio'r potensial dadansoddol o ran sut y gellir defnyddio data LEO Cymru i ddangos canlyniadau a chyrchfannau ar ôl astudio.

Tablau cyflenwad, defnydd a mewnbwn-allbwn: 2022
Mae tablau cyflenwad, defnydd a mewnbwn-allbwn 2022 yn rhoi darlun manwl o economi Cymru. Maent yn cynnwys amcangyfrifon o'r canlynol:

- pa nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu cynhyrchu yng Nghymru
- pa ddiwydiannau sy'n eu cynhyrchu
- sut mae busnesau, aelwydydd a'r llywodraeth yn eu defnyddio
- faint mae Cymru yn masnachu â gweddill y DU ac â gweddill y byd
- sut mae gwahanol rannau o'r economi yn gysylltiedig â'i gilydd

Maent yn darparu'r fframwaith mwyaf cynhwysfawr sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer deall llif nwyddau a gwasanaethau rhwng gwahanol rannau o economi Cymru. Mae'r tablau'n dod â gwybodaeth ynghyd o arolygon busnesau ac aelwydydd, data gweinyddol, ystadegau masnach a ffynonellau sector-benodol.

Mae tablau mewnbwn-allbwn yn dangos sut mae diwydiannau, aelwydydd a'r llywodraeth yn masnachu ac yn rhyngweithio o fewn economi Cymru. Gellir eu defnyddio i asesu effeithiau economaidd polisïau, buddsoddiadau mewn seilwaith, a digwyddiadau mawr. Maent hefyd yn darparu'r sylfaen ar gyfer modelu mwy cymhleth, gan gynnwys dadansoddi'r berthynas rhwng yr economi a systemau ehangach fel cymdeithas a'r amgylchedd.

Ar 23 Gorffennaf 2026, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yr ail set o dablau mewnbwn-allbwn. Yn ogystal â bod yn fwy amserol, mae tablau 2022 yn cynnwys gwelliannau methodolegol sylweddol ac yn gwneud mwy o ddefnydd o ddata sy'n benodol i Gymru na'r datganiad blaenorol, a oedd yn cwmpasu 2019 ac a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2025.

Ochr yn ochr â'r tablau, mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi lluosyddion economaidd sy'n amcangyfrif effeithiau newidiadau yn y galw am allbwn diwydiant ar allbwn Cymru, gwerth ychwanegol gros a chyflogaeth, gan gynnwys effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar y gadwyn gyflenwi (yn amodol ar **gafeatau pwysig**).

Cynhyrchir tablau tebyg gan **Lywodraeth yr Alban (2022)** ac **Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon (2022)**. Mae tablau cyflenwad a

defnydd hefyd yn rhan allweddol o Gyfrifon Cenedlaethol y DU ac fe'u cynhyrchir yn flynyddol gan y **Swyddfa Ystadegau Gwladol** ar gyfer y DU gyfan. Os hoffech chi gael rhagor o fanylion, cysylltwch â'r Tîm Tablau Mewnbwn Allbwn (inputoutputtables@gov.wales).

Arolwg Masnach Cymru
Mae paratoadau ar y gweill ar gyfer ton nesaf Arolwg Masnach Cymru, gyda'r gwaith maes i gasglu data 2025 i fod i ddechrau yn yr hydref 2026. Mae'r arolwg yn parhau i gael ei ddatblygu i wella ansawdd a defnyddioldeb ystadegau masnach i Gymru, gan gynnwys gwelliannau i waith samplu a gwelliannau methodolegol parhaus. Bydd y data sy'n deillio o hyn yn cefnogi dadansoddiad Llywodraeth Cymru o fasnach ryngwladol a masnach y DU ac yn cyfrannu at dystiolaeth economaidd ehangach. Disgwylir i ganlyniadau dangosol fod ar gael yn ystod 2027. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â BusinessResearch@gov.wales.

Canlyniadau rhagarweiniol Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru
Mae canlyniadau rhagarweiniol Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru, a gyhoeddwyd gan Trafnidiaeth Cymru ym mis Ebrill 2026, yn rhoi'r darlun cenedlaethol cyntaf sy'n benodol i Gymru o agweddau ac ymddygiad teithio ers 2012. Mae'r canlyniadau yn seiliedig ar fwy na 3,000 o ymatebion a 9,000 o deithiau wedi'u cofnodi rhwng mis Mawrth a mis Awst 2025.

Mae Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru yn arolwg blynyddol mawr sydd wedi'i ddylunio i gasglu tystiolaeth ar sut, pam a phryd mae pobl yng Nghymru yn teithio. Lansiwyd yr arolwg ym mis Mawrth 2025, ac mae'r arolwg yn casglu data gan sampl gynrychioladol o oedolion 16 oed a hŷn, gan gynnwys y rhai sy'n defnyddio, a'r rhai nad ydynt yn defnyddio, gwahanol fathau o drafnidiaeth. Mae'r arolwg yn cyfuno cwestiynau ar agweddau teithio gyda dyddiadur teithio dau ddiwrnod sy'n casglu gwybodaeth fanwl am bwrpas teithiau, y pellter a'r math o drafnidiaeth.

Bydd yr arolwg yn cael ei ddefnyddio fel set ddata allweddol i ategu'r gwaith o lunio polisïau a chefnogi'r broses o wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn y dyfodol. Bydd data deuddeg mis yn cael ei gyhoeddi yn yr hydref 2026[91], gyda data'n cael ei gyhoeddi bob hydref wedi hynny.
Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â thîm Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru yn travelsurvey@tfw.wales.

[91] Canllaw byr: Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru | Trafnidiaeth Cymru